# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** | | **GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 21 MEDI 2021 am 2:00 y. p.** | | **TUESDAY, 21 SEPTEMBER, 2021 at 2:00 p.m.** |
| **CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW** | | **VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Jeff Evans, Peter Rogers *(Cadeirydd/Chair)*

**AELOD LLEYG / LAY MEMBER**

Dilwyn Evans *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)*

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf, 2021.

**3 LLYWODRAETHU GWYBODAETH: ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (UBRG) 2020/21** (Tudalennau 13 - 24)

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (UBRG).

**4 ADRODDIAD BLYNYDDOL: PRYDERON, CWYNION A CHWYTHU'R CHWIBAN 2020/21** (Tudalennau 25 - 32)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL DERBYN POLISÏAU 2020/21** (Tudalennau 33 - 46)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

**6 ARCHWILIO ALLANOL: ASESIAD CYNALIADWYEDD ARIANNOL - CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 47 - 60)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

**7 ARCHWILIO ALLANOL:ADOLYGIAD CYNNYDD BARGEN TWF GOGLEDD CYMRU - BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 61 - 86)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

**8 ARCHWILIO ALLANOL: CYNGOR SIR YNYS MÔN - CYNLLUNIO'R GWEITHLU** (Tudalennau 87 - 96)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

**9 ARCHWILIO ALLANOL: ADRODDIADAU AC ARGYMHELLION ARCHWILIO CYMRU - LLYTHYR AT Y CADEIRYDD** (Tudalennau 97 - 98)

Cyflwyno llythyr gan Archwilio Allanol at Gadeirydd y Pwyllgor.

**10 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 99 - 108)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu’n fyw a’u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae’r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw’n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**11** **MATERION A RISGIAU SY'N PARHAU I FOD ANGEN SYLW** (Tudalennau 109 - 122)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**12** **BLAEN RAGLEN WAITH WEDI'I DIWEDDARU** (Tudalennau 123 - 126)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf, 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Peter Rogers(Cadeirydd)<br>Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Jeff Evans, John Griffith, Gwilym O. Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (AS)<br>Prif Gynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (SN) (ar gyfer eitem 3)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Richard Griffiths, Mrs Annwen Morgan, (Prif Weithredwr), Mr Rhys Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Mr Alan Hughes (Arweinydd Archwilio – Archwilio Perfformiad, Archwilio Cymru), Yvonne Thomas (Arweinydd Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), Prif Archwilydd Mewnol (NW), Mr Gareth Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod rhithwir hwn o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Ni wnaeth unrhyw un ddatgan diddordeb.

**2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 23 Mehefin, 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**3. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2020/21**

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Gynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol oedd yn nodi perfformiad yr Awdurdod o ran Iechyd a Diogelwch yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill, 2020 a 31 Mawrth, 2021 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd y Prif Gynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod yr adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno ar ffurf a bennir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) sydd

DRAFT

wedi datblygu fframwaith a chanllawiau ar gyfer cynhyrchu adroddiadau perfformiad iechyd a diogelwch blynyddol. Ni fwriadwyd i'r fframwaith fod yn ddadansoddiad cynhwysfawr o iechyd a diogelwch ond dylai helpu i nodi ymrwymiad, gallu a chyfeiriad y broses rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol. Dyma brif bwyntiau’r adroddiad –

- Mae argyfwng Covid 19 wedi cael lle amlwg yn y gwaith a wnaed gan y Cyngor yn ystod 2020/21. Trwy ffurfio'r Tîm Ymateb Rheoli Argyfwng (EMRT) i oruchwylio'r ymateb corfforaethol i bandemig y Coronafeirws a'r holl weithgareddau a’r gwaith cysylltiedig wrth ymateb i’r pandemig, roedd yn bosibl gweithredu mesurau rheoli risg tynn i fynd i'r afael â'r risg iechyd.
- Roedd cyflwyno cynlluniau ac asesiadau risg i'r EMRT cyn caniatáu i waith gael ei wneud yn sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud mewn modd mor ddiogel â phosibl. Ni ddylid diystyru faint o waith a wnaed i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau. Yn ystod y flwyddyn y cyfeiria'r adroddiad ati, datblygwyd fformatau asesu risg newydd, canllawiau newydd a chynlluniau gweithredu newydd i fynd i'r afael â'r risg o Covid 19 fel yr esbonir yn fanylach yn adran 9 o'r adroddiad. Cafodd cyfanswm o 482 o  asesiadau risg ac adolygiadau eu cynnal yn ystod y flwyddyn a cheir dadansoddiad ohonynt yn Nhabl 15. Mae'r broses asesu risg yn broses barhaus, gydag asesiadau risg yn cael eu hadolygu’n gyson i sicrhau y datblygir asesiadau risg cyfredol a newydd.
- Ni weithredwyd y Cynllun  Iechyd a  Diogelwch  Corfforaethol ar gyfer 2020/21 oherwydd yr angen i fynd i'r afael â'r gofynion uniongyrchol oedd yn deillio o argyfwng Covid 19. Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu o'r cynllun wedi'u hymgorffori yng nghynllun 2021/22 gan gydnabod y risgiau ychwanegol a’r gofynion o ran byw, gweithio a darparu gwasanaethau mewn byd Covid 19. Gwnaed rhai newidiadau i'r cynllun i gydnabod bod angen o bosibl ychwanegu materion a allai godi yn ystod yr argyfwng parhaus.
- Mae'r adroddiad yn cynnwys cymharu data ar gyfer damweiniau a digwyddiadau a adroddwyd yn ystod 2020/21 a’r data ar gyfer digwyddiadau gweithwyr yn unig gyda'r un data ar gyfer 2018/19 a 2019/20. Ar gyfer y ddau gategori bu gostyngiad sylweddol yn nifer y digwyddiadau yn 2020/21 (gweler Tablau 1 i 6) o’i gymharu â’r ddwy flynedd flaenorol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gostyngiad yn nifer y gwasanaethau oedd yn gweithredu a’r ffaith bod llai o weithgareddau o dan gyfyngiadau Covid 19. Mae'r ffigurau'n dangos cynnydd mewn digwyddiadau ar gyfer ail a thrydydd chwarter y flwyddyn sy'n adlewyrchu'r cyfnodau pan ail-agorodd ysgolion sydd, yn y gorffennol, i gyfri am y nifer uchaf o ddigwyddiadau fesul gwasanaeth.
- Cafodd y pandemig parhaus effaith sylweddol hefyd ar ddarparu hyfforddiant yn ystod 2020/21 gyda sesiynau ystafell ddosbarth yn cael eu hatal a hyfforddiant yn symud ar-lein lle y bo'n ymarferol. Serch hynny, llwyddwyd i gynnal cyfanswm o 13 o sesiynau iechyd a diogelwch corfforaethol a chymerodd cyfanswm o 81 ran ynddynt; roedd y rhain yn cynnwys sesiynau ystafell ddosbarth gyda chapasiti cyfyngedig lle cynhelid asesiad risg yn gysylltiedig â Covid ar eu cyfer ymlaen llaw. Mae Tabl 7 yr adroddiad yn rhoi dadansoddiad o'r sesiynau iechyd a diogelwch corfforaethol a gynhaliwyd a’r niferoedd yn bresennol ac mae Tabl 8 yn dangos nifer y modiwlau E-Ddysgu iechyd a diogelwch corfforaethol a gwblhawyd. Yn ogystal â'r ddarpariaeth hyfforddiant corfforaethol, parhaodd cyrsiau iechyd a diogelwch ac E-Ddysgu i gael eu trefnu o amgylch y cyfyngiadau parhaus ar gyfer y sector gofal cymdeithasol (gweler Tablau 9 a 10).
- Mae iechyd a lles staff wedi bod yn flaenoriaethau allweddol yn ystod y pandemig ac mae sawl menter wedi'u cyflwyno yn 2020/21 gan gynnwys tudalen Llesiant Gweithio o Gartref. Ers hynny mae hyn wedi datblygu’n adran Iechyd a Lles ac mae bellach yn cynnwys nifer o dudalennau ar themâu iechyd a lles penodol a chofrestrwyd 1,343 o ddefnyddwyr ym mis olaf 2020/21. Mae Tabl 12 yn yr adroddiad yn dangos nifer y sesiynau iechyd a lles corfforaethol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer y cyrsiau a gofnodwyd a'r nifer yn bresennol, tra bod Tabl 13 yn darparu'r un data ar gyfer sesiynau

iechyd a lles gofal cymdeithasol; Mae Tabl 14 yn rhoi gwybodaeth am nifer y modiwlau E-Ddysgu iechyd a lles a gwblhawyd.
- Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi gwneud rhywfaint o waith rhagweithiol yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â Covid 19 gan gynnwys archwilio chwe ysgol yn Ynys Môn i asesu mesurau rheoli Covid; ni chododd unrhyw faterion o bwys. Yn Ionawr 2020 cwblhawyd y dasg o gydymffurfio â Hysbysiad Gwella a gyflwynwyd gan yr HSE ym mis Rhagfyr 2018 mewn perthynas ag achos Syndrom Dirgryniad Llaw-Braich (HAVS) a derbyniwyd llythyr cadarnhau. Mae gwaith wedi parhau i fonitro'r mesurau rheoli a weithredwyd o ganlyniad i'r Hysbysiad Gwella sy'n cynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif Weithredwr, Pennaeth Gwasanaethau Tai, y Swyddog Iechyd a Diogelwch Tai ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.
- Gellir ystyried y ffordd y rheolodd yr EMRT argyfwng Covid-19 yn llwyddiant allweddol yn ystod y flwyddyn yn ogystal â'r cyflenwadau parhaus o gyfarpar diogelu personol a ddosbarthwyd. Dylid ystyried y capasiti ar gyfer y math o adroddiadau sy'n cynhyrchu'r Adroddiadau Sefyllfa wythnosol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i uwch reolwyr am gapasiti staff, y gwaith a wnaed a meysydd pryder posibl wrth fonitro perfformiad iechyd a diogelwch y Cyngor yn y dyfodol. Yn yr un modd, gallai'r ffordd gyflym ac effeithlon y cafodd y Porth Dysgu ei addasu fel dull o ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant penodol ar risgiau a mesurau rheoli Covid-19, helpu i ddarparu mynediad at hyfforddiant a gwybodaeth am bynciau iechyd a diogelwch eraill.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Swyddog am yr adroddiad a chododd y pwyntiau canlynol am y wybodaeth a gyflwynwyd –

- Materion yn ymwneud â darparu hyfforddiant a phresenoldeb mewn hyfforddiant, yn enwedig y cymhlethdodau o ran darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ystod pandemig Covid. Eglurodd y Cynghorydd Iechyd Corfforaethol, pan oedd angen hyfforddiant gloywi, eu bod wedi ceisio gwneud hynny'n ddiogel yn hytrach na chynnal digwyddiadau hyfforddi lle'r oedd cyfranogwyr yn bresennol fel grŵp, e.e. mae tystysgrifau hyfforddiant Cymorth Cyntaf yn para tair blynedd cyn y bydd yn rhaid eu hadnewyddu. Dim ond yn ystod y misoedd diwethaf y mae ail-gyflwyno hyfforddiant yn bersonol wedi'i ystyried wrth i'r cyfyngiadau ganiatáu hynny, fel arall mae'r Adran Adnoddau Dynol wedi llwyddo i addasu rhan fawr o'r sesiynau hyfforddi i fod yn rhai rhithwir.
- Goblygiadau iechyd a lles gweithio o bell a threulio mwy o amser ar y sgrin a ph'un ai a yw'r rhain yn cael mwy o sylw yn y Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod lles gweithwyr yn ystyriaeth ers dechrau'r pandemig pan ddaeth trefniadau gweithio o gartref yn orfodol. Mae modiwl hyfforddi ar-lein i alluogi staff gynnal eu hasesiad Offer Sgrin Arddangos (DSE) eu hunain ar gael ac mae'n helpu staff i nodi'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i sicrhau bod eu man gwaith a'u gweithfan gartref yn addas; mae'n ofynnol i bob aelod o staff mewn swyddi sy'n cynnwys defnyddio offer sgrin arddangos yn rheolaidd gwblhau'r modiwl. Roedd hon yn agwedd ar y gweithle a oedd yn cael ei hystyried cyn y pandemig ond sydd bellach yn cael mwy o sylw oherwydd Covid-19 ac sydd wedi cael ei chydnabod fel risg sylweddol. Os oedd staff yn canfod problemau ar ôl cynnal yr asesiad DSE, câi offer ychwanegol ei ddarparu iddynt i'w galluogi i weithio'n ddiogel gartref.
- Yr oedi wrth gydymffurfio â'r Hysbysiad Gwella a gyflwynwyd gan yr HSE mewn perthynas â'r achos HAVS a'r sefyllfa bresennol. Eglurodd y Cynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod yr achos yn un hanesyddol ac fe'i hysbyswyd i'r HSE am ei fod yn cynnwys cyflwr galwedigaethol (syndrom dirgryniad braich llaw) y gellir adrodd arno o dan RIDDOR; yn dilyn arolygiad gan yr HSE, cyflwynwyd hysbysiad gwella gydag amserlen o chwe mis i gydymffurfio ag ef. Y rheswm am yr oedi oedd yr amser a gymerwyd i ddilysu'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Cyngor a oedd yn cynnwys

cyfarfodydd gyda swyddogion y Cyngor; unwaith y cwblhawyd y broses honno a bod yr HSE yn fodlon, cynhaliwyd cyfarfod cwblhau i adolygu'r dogfennau a derbyniwyd llythyr cadarnhau maes o law. Mae'r mesurau rheoli presennol sydd yn eu lle yn bodloni amod yr HSE o ran yr hyn yr oedd angen ei wneud, ac mae'r sefyllfa'n destun monitro mewnol parhaus gan Swyddogion y Cyngor a hefyd y Prif Weithredwr.

**Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2020/21 a chymeradwyo'r argymhelliad ynddo y dylai'r Cyngor ddilyn y cynllun strategol ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch a gweithredu'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gan gydnabod hefyd, oherwydd sefyllfa barhaus Covid 19, y gallai'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gael eu gohirio neu eu disodli gan gamau gweithredu mwy brys i fynd i'r afael â risg Covid 19.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**4. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR REOLI'R TRYSORLYS 2020/21**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys Adolygiad Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21 i'r Pwyllgor ei ystyried. Paratoir yr adroddiad i gydymffurfio â'r rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a gyda Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2020/21 ac mae'n un o driawd o adroddiadau rheoli trysorlys a gyhoeddir yn unol â'r gofynion adrodd sylfaenol ar gyfer 2020/21. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o weithgareddau benthyca a buddsoddi'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ac yn amlygu perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a bennwyd gan y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Adran 151 Swyddog at y prif bwyntiau hyn -

- Y ffactorau allanol sydd wedi dylanwadu ar weithgarwch a phenderfyniadau rheoli'r trysorlys yn ystod y flwyddyn gan gynnwys symudiadau cyfradd llog, cyflwr economi'r DU a'r effaith sylweddol y mae pandemig Covid wedi'i chael arnynt yn ogystal â chwblhau'n rhannol broses drafod Brexit gyda'r cytundeb terfynol ar gytundeb masnach.
- Y ffactorau mewnol sy'n pennu sefyllfa alldro rheoli'r trysorlys sy'n cynnwys y canlynol:

  - **Gwariant cyfalaf a chyllido -** mae'r tabl yn 3.1 yn dangos y gwariant cyfalaf gwirioneddol a sut y cafodd hyn ei ariannu. Roedd gwariant cyfalaf gwirioneddol y Gronfa Gyffredinol a ariannwyd drwy fenthyca yn sylweddol is na'r hyn a amcangyfrifwyd (£20m yn erbyn £39m a amcangyfrifwyd) oherwydd y tanwariant mawr ar y prosiectau cyfalaf a restrir yn 3.1 ac roedd llawer ohonynt wedi'u gohirio o ganlyniad i gyfyngiadau Covid 19.
  - **Cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod -** mae balansau arian parod y Cyngor yn cynnwys adnoddau refeniw a chyfalaf a chyllid llif arian. Nodir adnoddau arian craidd y Cyngor yn nhabl 3.2 yr adroddiad ac maent yn cynnwys Cronfa wrth gefn cyffredinol Cronfa'r Cyngor; mae'r ffigurau cyn-archwilio dros dro yn dangos bod y Gronfa Gyffredinol wedi cynyddu o £7.060m ar 31 Mawrth, 2020 i £11.594m ar 31 Mawrth 2021. Cyfanswm darpariaethau a chronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio gan y Cyngor oedd £45.245m ar 31 Mawrth, 2021 (cynnydd ar y swm o £31.124 ar 31 Mawrth, 2020).
  - **Benthyca gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)** - Mae'r GCC yn adlewyrchu cyfanswm angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca i ariannu ei wariant cyfalaf ac mae'n fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'n deillio o weithgarwch cyfalaf y Cyngor a'r adnoddau a ddefnyddir i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2020/21 a ariennir drwy fenthyca a gwariant cyfalaf blynyddoedd blaenorol a

DRAFT

ariannwyd gan fenthyciadau nad yw wedi'i dalu hyd yma gan refeniw neu adnoddau eraill. Er mwyn sicrhau bod lefelau benthyca'n ddarbodus yn y tymor canolig ac y benthycir at ddibenion cyfalaf yn unig, fe ddylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf  Mae'r benthyca gros o £124.5m ar 31 Mawrth, 2021 yn llai na'r CCG ragwelir ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.
  - **Benthyca mewnol –** ar ddechrau'r flwyddyn, roedd y sefyllfa fenthyca fewnol, lle mae'r Cyngor yn defnyddio ei arian wrth gefn ei hun i ariannu gwariant cyfalaf, wedi'i orgyllido o £2.3m. Trwy ad-dalu'r benthyciad tymor byr o £10m gan y PWLB a gymerwyd ym mis Mawrth 2020, fel arian wrth gefn wrth wynebu argyfwng Covid 19, a gan na chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd arall yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, roedd y sefyllfa fenthyca fewnol ar 31 Mawrth 2021 wedi'i thanariannu o £12.1m. (CCG minws y sefyllfa fenthyca gros).
  - **Ad-dalu dyledion –** Aeddfedodd tri benthyciad PWLB yn ystod y flwyddyn fel y nodir ym mharagraff 3.5 o'r adroddiad. Nid oes unrhyw fenthyciadau tymor byr heb eu talu.

    **Buddsoddiadau –** Bu gostyngiad mewn enillion ar fuddsoddiadau, a oedd wedi bod yn isel yn 2019/20, i bron i sero yn 2020/21. Ar sail y balansau cyfartalog o £43.7m cafwyd llog o £0.035m ar gyfradd llog cyfartalog o 0.079 yn erbyn cyllideb lle gosodwyd llog ar £0.053m. Cyfrannodd buddsoddiadau cyfyngedig mewn Awdurdodau Lleol eraill, a'r ffaith bod cyfraddau llog wedi disgyn yn is na'r hyn a ragwelwyd pan gynhyrchwyd y gyllideb, at y gostyngiad hwn yn y llog a dderbyniwyd. Cafodd y rhagolwg ar gyfer cyfraddau llog yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2020/21 ei annilysu gan bandemig Covid a arweiniodd at dorri Cyfradd y Banc i lawr i 0.1% i wrthsefyll effaith y cyfyngiadau symud ar rannau helaeth o'r economi. Roedd rhai o adneuon y Cyngor mewn cyfrifon adneuo nad oes angen rhoi rhybudd ar gyfer tynnu arian allan, tra bod un benthyciad i awdurdod lleol arall.
- Yn unol â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21, ni chafodd unrhyw ddyledion eu haildrefnu yn ystod y flwyddyn gan fod y gwahaniaeth o 1% ar gyfartaledd rhwng cyfraddau benthyca newydd y PWLB a chyfraddau ad-dalu cynamserol yn golygu nad oedd yn werth aildrefnu. Yn ystod y flwyddyn, ni chymerodd y Cyngor fenthyg mwy nag yr oedd ei angen, na chyn bod angen, dim ond er mwyn elwa ar fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycwyd. Roedd y gweithgaredd buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw anawsterau hylifedd. Pan fydd y Cyngor yn buddsoddi ei arian dros ben, yr elfen bwysicaf yw diogelwch y buddsoddiad, ac yna hylifedd ac yna'r cynnyrch. Y strategaeth ar fuddsoddi arian dros ben fyddai benthyca yn y tymor byr gydag awdurdodau lleol eraill i sicrhau'r enillion mwyaf posibl mewn ffordd ddiogel.
- Yn ystod 2020/21 cydymffurfiodd y Cyngor â'i ofynion deddfwriaethol a rheoliadol. Amlinellir y data allweddol ar gyfer y dangosyddion darbodus a'r dangosyddion trysorlys gwirioneddol, sy'n nodi effaith y gweithgareddau gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda chymaryddion yn y tabl ym mharagraff 6.1 o'r adroddiad. Roedd gwariant cyfalaf yn is na'r hyn a ragwelwyd ar adeg cynhyrchu'r dangosyddion Darbodus oherwydd tanwariant ar brosiectau cyfalaf; yn yr un modd, roedd y CCG yn sylweddol is na'r hyn a rhagwelwyd wrth gytuno ar y Dangosyddion Darbodus oherwydd y tanwariant ar Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gan leihau lefel y benthyciadau heb gymorth oedd ei hangen yn 2020/21. Nid aethpwyd tu hwnt i'r Terfyn Benthyca Awdurdodedig (£183m) na'r Terfyn Gweithredol (£178m) yn ystod y flwyddyn, gyda swm y ddyled allanol yn cyrraedd £139.2m yn unig ar ei huchaf. Roedd y costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyffredinol (4.80%) yn agos iawn at y cyfanswm a ragwelwyd (5.15%) sy'n golygu bod y dangosydd hwn wedi perfformio yn ôl y disgwyl a hefyd yn unol â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw ar gyfer y CCG (16.34%) yn is

DRAFT

na’r cyfanswm a ragwelwyd (17.16%) oherwydd bod y costau cyllido yn is a’r llif refeniw net, hefyd yn is na’r disgwyl ar adeg cynhyrchu’r dangosydd arfaethedig ar gyfer 2020/21

- Roedd perfformiad rheoli trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth risg isel, enillion isel ar fuddsoddiadau a dull cynlluniedig o fenthyca er mwyn lleihau taliadau llog. Mae perfformiad yn erbyn y strategaeth yn ystyried y ffactorau economaidd allanol ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau mai'r strategaeth yw'r un fwyaf priodol o hyd.
- Cymeradwyodd y Cyngor Ddatganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22 ym mis Mawrth, 2021; ni ddisgwylir i'r strategaeth newid yn sylweddol cyn belled â bod Cyfradd y Banc yn parhau ar ei lefel isel bresennol; fodd bynnag, bydd y Cyngor yn cael ei arwain gan y Cynghorwyr Trysorlys wrth wneud penderfyniadau ynghylch ble a phryd i fuddsoddi a/neu fenthyca. Rhagwelir y bydd angen i'r Cyngor gynyddu ei fenthyciadau yn ystod y tair blynedd nesaf i ariannu ei raglen gyfalaf a fydd yn ei dro yn effeithio ar y Gronfa Gyffredinol gyda mwy o Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn cael ei chodi i gyllido'r costau ariannu cyfalaf.

Wrth ystyried yr adroddiad cododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol –

- Eglurder ynghylch yr arfer o fuddsoddi gyda chynghorau eraill, yn benodol p’un ai a wneir hynny ar sail pa mor deilwng yw’r cyngor i dderbyn credyd a ph’un ai a oes ffi weinyddol ar gyfer y broses. Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y broses fel arfer yn cael ei chynnal drwy frocer a bod yr awdurdod benthyca’n talu’r ffi. Mewn achosion lle mae gan y Cyngor gysylltiad neu berthynas wedi’i sefydlu â'r awdurdod benthyca, e.e. mewn achos lle'r oedd Cyngor Ynys Môn yn buddsoddi gyda chyngor arall yng Ngogledd Cymru, trefnwyd y buddsoddiad cychwynnol drwy frocer ond cafodd y buddsoddiad ei drefnu wedyn heb wasanaeth broceriaeth. Er bod y sector awdurdodau lleol yn cael ei ystyried yn lle diogel ar gyfer buddsoddi yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar y cynghorau y mae'n buddsoddi gyda nhw, er enghraifft, drwy archwilio eu cyfrifon; hefyd mae cynghorau sydd mewn trafferthion ariannol yn hysbys yn gyffredinol o fewn y sector ac mae'r Cyngor hefyd yn derbyn arweiniad gan ei Gynghorwyr Trysorlys ynglŷn â’r cynghorau sy'n ariannol gadarn ac felly'n ddiogel i fuddsoddi gyda nhw, a'r rhai nad ydynt.
- P'un ai yng ngoleuni'r cynnydd sylweddol ym malansau ysgolion yn 2020/21 a’r feirniadaeth yn y gorffennol ar ysgolion am gael balansau a ystyrir yn ormodol, dylai Penaethiaid a chyrff llywodraethu bellach fod yn ceisio gwario'r arian dros ben ar gynlluniau addas neu ystyried a ddylent gadw eu balansau fel arian "diwrnod glawog" i liniaru unrhyw bwysau ariannol a allai godi yn y dyfodol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod balansau ysgolion wedi lleihau'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf wrth i ysgolion ddefnyddio eu cronfeydd wrth gefn i wneud iawn am ddiffygion yn y gyllideb. Nid yw'r cynnydd ym malansau ysgolion yn unigryw i Ynys Môn a gellir ei briodoli i dri ffactor. Yn gyntaf, y cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn hwyr yn y flwyddyn ariannol i alluogi ysgolion i helpu disgyblion i ddal i fyny â'u haddysg a fydd yn cael ei wario gan ysgolion yn y flwyddyn ariannol hon. Yn ail, y gostyngiad yng ngwariant ysgolion yn 2020/21 yn sgil cyfnodau o gau oherwydd y cyfyngiadau symud yn ystod y flwyddyn gyda'r Awdurdod yn penderfynu peidio ag adfachu'r cyllid nas defnyddiwyd o'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig. Y trydydd ffactor sy'n berthnasol i ysgolion uwchradd yw'r taliad y mae'r ysgolion wedi'i wneud i fwrdd arholi CBAC sy'n sylweddol is na'r taliad a fyddai wedi bod yn ddyledus pe bai'r arholiadau'n cael eu cynnal fel arfer. Y cyngor i ysgolion fyddai, er y gellir gwario balansau ar brosiectau penodol sydd o fudd i'r ysgol, ei bod hefyd yn fuddiol sicrhau bod balansau ar gael i'w defnyddio i bontio'r bwlch mewn blwyddyn pan fydd niferoedd disgyblion yn gostwng a'r cyllid yn sgil hynny. Yn ogystal â hyn, pe bai arwyddion y byddai cyllidebau'n gostwng yn y tymor hir a fyddai’n golygu bod angen gwneud

arbedion, yna byddai'n well i ysgolion weithredu'r arbedion hynny'n gynt mewn ffordd gynlluniedig yn hytrach nag yn hwyrach pan fydd yn rhaid ei wneud, gan wanhau sefyllfa ariannol yr ysgol.
- Cyfeiriwyd at y ffaith nad oedd y rhagolygon diweddaraf ynghylch cyfraddau llog gan Link Assets Services yn Nhabl 7.5 yr adroddiad yn adlewyrchu'r chwyddiant yn y gyfradd llog, a'r goblygiadau i reolwyr trysorlys os cynyddir y gyfradd llog i wrthsefyll pwysau chwyddiant. Yn ogystal â hyn, awgrymwyd, o ystyried bod cyfraddau llog ar lefelau hanesyddol isel, y gallai fod yn ddoeth i ni ystyried benthyca nawr yn barod am yr adeg pan fo angen cyfalaf, yn enwedig os gellir cyflymu gwariant cyfalaf sydd wedi gostwng yn gyson is na'r gyllideb. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 mai meddylfryd Banc Lloegr yw bod y cynnydd mewn chwyddiant yn un dros dro a'i fod yn cael ei yrru gan alw cronedig wrth i gyfyngiadau gael eu codi ac y bydd yn lleihau wrth i'r galw fynd yn is ac wrth i fywyd ddod yn ôl i drefn. Y farn hirdymor yw y bydd y gyfradd chwyddiant yn dychwelyd i dan 2% ac nad oes angen cynnydd tymor byr yn y gyfradd llog. Er y gallai'r farn newid os bydd chwyddiant yn parhau i godi, nid oes awydd uniongyrchol i gyfynguj ar wariant defnyddwyr wrth i'r economi geisio gwella. O ran a ddylid benthyca i fanteisio ar gyfraddau llog isel ai peidio â chyflymu gwariant cyfalaf, byddai hynny'n bosibl pe bai'r capasiti a'r cynlluniau ar gael; gallai rhuthro i gyflwyno cynlluniau am fod arian ar gael ac oherwydd ei fod yn rhad i'w fenthyca olygu bod y Cyngor yn wynebu dyledion ar gyfer cynlluniau nad ydynt yn unol â'i flaenoriaethau a thrwy hynny'n cyfyngu ar fenthyca yn y dyfodol pan fydd cynlluniau y mae'r Cyngor yn dymuno gwario arnynt sy'n cyflawni ei amcanion corfforaethol.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi y bydd y ffigurau alldro yn adroddiad rheoli blynyddol y trysorlys ar gyfer 2020/21 yn parhau'n rhai dros dro nes i'r archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2020/21 gael ei gwblhau a'i gymeradwyo; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r ffigurau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.**
- **Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro ar gyfer 2020/21 yn yr adroddiad hwn.**
- **Derbyn adroddiad rheoli blynyddol y trysorlys ar gyfer 2020/21 ac anfon yr adroddiad ymlaen i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith heb sylwadau pellach.**

## 5. ADRODDIAD ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD BLYNYDDOL 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg sy'n cynnwys adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2020/21 i'r Pwyllgor ei ystyried. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r gweithgaredd a gynhaliwyd yn 2020/21 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn y Cyngor, ac yn ei erbyn; mae'n amlygu rhai o'r meysydd risg twyll presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â phandemig Covid-19 ac yn dod i'r casgliad ynghylch effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor i leihau'r risg o dwyll.

Arweiniodd y Pennaeth Archwilio a Risg y Pwyllgor drwy'r adroddiad blynyddol gan gyfeirio at y canlynol -

- Y wybodaeth gyd-destunol gan gynnwys y diffiniad o dwyll fel yr argymhellir gan Ganolfan Atal Twyll CIPFA a'r rhesymau pam fod mynd i'r afael â thwyll yn bwysig. Mae twyll yn fygythiad ariannol sylweddol i gynghorau a gall effeithio ar eu henw da ac arallgyfeirio cyllid oddi wrth wasanaethau cyhoeddus hanfodol gan danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd, cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd sefydliadol. Yng Nghymru, roedd adroddiad diweddar yr Archwiliwr Cyffredinol (2019) yn tynnu sylw at y ffaith y gallai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fod yn colli hyd at £1 biliwn y flwyddyn o ganlyniad i dwyll.

- Trefniadau Cymru gyfan ar gyfer atal twyll. Yn dilyn trosglwyddo ymchwilwyr twyll o Lywodraeth Leol i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn 2014, nid oes gan y mwyafrif o gynghorau yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, adnodd atal twyll pwrpasol ar draws y cyngor mwyach, ac yn lle hynny dynodwyd y swyddogaeth atal twyll yn y Cyngor i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol. Nid oes ychwaith unrhyw grŵp neu rwydwaith proffesiynol cyffredinol sy'n hyrwyddo atal twyll yn benodol mewn llywodraeth leol. Er mwyn llenwi'r bwlch, yng Ngogledd Cymru'n, ffurfiwyd is-grŵp o'r Bartneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru yn ddiweddar i rannu ac ysgogi arfer da mewn perthynas ag atal twyll.
- Risgiau twyll cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg. Adroddodd Cynghorau yn y DU fod oddeutu 47,000 o achosion o dwyll wedi cael eu canfod neu eu hatal yn 2019-20 gyda'r colledion mwyaf yn deillio o dwyll Treth y Cyngor (tua £35.9m) ac yna consesiwn parcio i'r anabl a thwyll ym maes tai. Y maes lle gwelir twyll cynyddol fwyaf yn y DU yw tenantiaeth tai, gydag amcangyfrif o £60.1m wedi'i golli yn 2019-20 o'i gymharu â £47.7m yn 2018-19. Mae Pennaeth Gwasanaethau Tai wedi asesu bod twyll tenantiaeth, yn gyffredinol, yn isel yn Ynys Môn. Fodd bynnag, cafodd erthygl codi ymwybyddiaeth ei chynnwys mewn cylchlythyr a ddosbarthwyd i bob tenant yn rhoi gwybod iddynt beth i'w wneud os oeddent yn amau unrhyw beth mewn eiddo cyfagos ac mae Swyddogion Rheoli Tai'r Gwasanaeth wedi dilyn hyfforddiant twyll tenantiaeth.
- Gostyngiad person sengl y dreth gyngor (SPD) yw'r maes lle gwelir y twyll cynyddol mwyaf nesaf yn y DU, sydd â chynnydd amcangyfrifedig o £9.6m i werth amcangyfrifedig o £29.0m ar gyfer achosion a ganfuwyd/a ataliwyd yn 2018-19. Mae'r Cyngor yn defnyddio cwmni allanol i adolygu a dilysu ei hawliadau SPD o bryd i'w gilydd i nodi hawliadau sydd mewn perygl o dwyll a gwallau. Nododd yr ymarfer diwethaf ym mis Awst 2018 werth £340,347 o wallau, gyda chyfradd gwallau o 4.3%. Y ddau faes risg twyll canfyddedig uchaf ar gyfer 2019/20 yw caffael a SPD y Dreth Gyngor ac yna ardrethi busnes, gofal cymdeithasol i oedolion a gostyngiadau treth yn y drefn honno. Bydd adolygiad o natur fregus y Cyngor i dwyll caffael yn cael ei gynnal yn 2021/22.
- Mae CIPFA yn cymeradwyo set gyffredin o egwyddorion ar draws y gwasanaethau cyhoeddus i wella arfer atal twyll ac mae'r rhain wedi'u nodi yn ei God Ymarfer ar Reoli Risg Twyll a Llygredd yn 2014. Cynhaliwyd asesiad o arferion y Cyngor wedi'u meincnodi yn erbyn y pum egwyddor yn y Cod ac mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r canlyniadau.
- Achosion o geisio twyllo'r Cyngor yn ystod 2020/21. Roedd hyn yn cynnwys dau achos o dwyll 'ailgyfeirio maleisus', a elwir hefyd yn dwyll mandad (pan fydd rhywun yn dynwared trydydd parti fel cyflenwr). Canfuwyd un ohonynt gan fanc y cyflenwr dilys, a rhwystrwyd y llall gan Swyddog Cyflogres. Hefyd, llwyddodd y Tîm Grantiau i ganfod ac atal nifer o geisiadau twyllodrus am grant busnes Covid 19.
- Mae rhyw lefel o dwyll yn debygol yn y sector cyhoeddus, hyd yn oed yn ystod cyfnodau arferol, ond roedd 2020-21 yn flwyddyn o heriau heb eu tebyg wrth i'r pandemig Covid-19 drawsnewid gwaith y Cyngor a bywydau ei staff. Hefyd cafodd y cyfyngiadau symud effaith sylweddol ar yr economi. Cafodd y gwaith a gynlluniwyd i wella trefniadau atal twyll y Cyngor eu hatal wrth i'r tîm gefnogi ymateb y Cyngor i'r pandemig. Fodd bynnag, trwy adleoli un aelod o'r tîm Archwilio Mewnol i'r tîm a oedd yn dosbarthu grantiau busnes Covid-19, llwyddwyd i helpu i sicrhau her drwyadl a chadarn wrth dalu'r grantiau busnes. Mae rheoli risgiau twyll a llygredd yn effeithiol yn rhan hanfodol o gyngor effeithiol, modern sy'n rheoli ei adnoddau'n effeithlon er mwyn sicrhau gwerth am arian.
- Mae'r llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, asiantaethau diogelwch, rheoleiddwyr a'r sector preifat yn parhau i weithio gyda'i gilydd i warchod y cyhoedd a busnesau rhag bob math o dwyll. Mae twyll yn hynod o anodd ei ddarogan ac er bod y sefydliadau hyn yn monitro tueddiadau mewn troseddau yn ofalus, y peth pwysicaf yw cyfleu'r neges i staff ac i'r cyhoedd i fod yn ymwybodol ac yn effro. Felly bydd rhaglen gynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth o atal twyll, drwy gyfrwng e-ddysgu ac adnewyddu polisïau, yn gonglfaen i'r strategaeth atal twyll ar gyfer 2021/22. Mae angen amlwg am ymagwedd

gadarn sy’n cael ei chefnogi gan aelodau etholedig, prif weithredwyr a’r rhai hynny sy’n gyfrifol am lywodraethu. Er mwyn i fesurau atal twyll a llygredd fod yn llwyddiannus mae angen eu hymgorffori o fewn y sefydliad gan greu diwylliant lle na yw twyll yn dderbyniol nac yn cael ei oddef.

Codwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor wrth drafod yr adroddiad blynyddol –

- Yng nghyd-destun twyll tenantiaeth tai, cyfeiriwyd at yr anawsterau a achosir pan fo budd-dal tai yn cael ei dalu’n uniongyrchol i denantiaid a phan nad oes bwriad gan y tenant i'w ddefnyddio i dalu rhent i'w landlord gan arwain felly at golli arian i'r Cyngor a cholli incwm i landlordiaid. Er ei fod yn cydnabod bod deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud taliad budd-dal tai yn uniongyrchol i'r tenant, yng ngoleuni maint y broblem, y colledion, a'r problemau ehangach y mae'n eu hachosi, gofynnwyd p’un ai y gall y Cyngor gymryd unrhyw gamau i fynd i'r afael â'r broblem, yn enwedig mewn achosion lle mae gan denant hanes o beidio â thalu rhent. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod budd-dal tai yn hawliad a wneir gan y tenant a brosesir gan y Cyngor sydd wedyn yn gwneud taliad yn seiliedig ar yr hawliad; nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod hawlwyr yn defnyddio'r taliad i dalu am unrhyw rwymedigaethau cytundebol sydd ganddynt gyda'r landlord. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn glir mai hawl y tenant yw talu'r arian yn uniongyrchol iddynt; mae'r Cyngor yn gweinyddu'r budd-dal ond nid yw'n talu rhent ar ran y tenant. Os yw'r hawliad am fudd-dal yn dwyllodrus, hynny yw, nad oes gan yr hawliwr hawl iddo, yna daw'n fater i'r Adran Gwaith a Phensiynau (cafodd y gwaith o ymchwilio i dwyll ei drosglwyddo o awdurdodau lleol i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn 2014) y bydd y Cyngor yn anfon unrhyw dystiolaeth ati. Felly mae'r Cyngor yn gyfyngedig o ran yr hyn y gall ei wneud o ran y broblem gan ei bod yn ofynnol iddo dalu budd-dal tai i hawliwr sy'n gwneud hawliad dilys ac, mewn achosion lle amheuir bod twyll, yr Adran Gwaith a Phensiynau bellach sy'n gyfrifol am ei erlyn.
- Cyfeiriiwyd at y cyhoeddusrwydd a roddwyd yn y cyfryngau lleol i sancsiynau a gorfodaeth mewn cysylltiad ag achosion o dwyll Treth y Cyngor a thwyll Budd-dal Tai er mwyn atal eraill ond nid felly ag achosion yn ymwneud â chamddefnyddio consesiynau parcio i'r anabl (bathodynnau glas). Holwyd ai’r rheswm am hyn yw methiant i ganfod achosion neu nad oes achosion o'r fath yn bodoli ar Ynys Môn. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yr adroddiad yn cyfeirio at gamddefnyddio bathodynnau glas yng nghyd-destun y DU lle mae’n broblem sylweddol mewn dinasoedd a chynghorau bwrdeistref mawr. Yn y mannau hynny mae lle parcio'n brin gall yr incwm y mae’r awdurdod lleol yn ei golli oherwydd y math hwn o dwyll, fod yn swm sylweddol. Yn Ynys Môn, nid yw'n cael ei ystyried yn risg benodol nac yn dwyll y mae'r Cyngor yn arbennig o agored i niwed iddo.
- Er ei fod yn cytuno bod cyhoeddusrwydd yn arf defnyddiol i atal twyll, awgrymwyd y byddai creu swydd atal twyll yn helpu o ran gwaith rhagweithiol i atal twyll a hefyd i gasglu gwybodaeth ar gyfer camau gorfodi, ac nad yw dull llai cadarn yn debygol o arwain at y canlyniadau y mae'r Cyngor yn chwilio amdanynt. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth mai gwaith rheolaau mewnol yw atal twyll; dros amser mae natur twyll a chyfleoedd i dwyllo wedi newid yn ogystal â'r dulliau o ganfod ac atal twyll e.e. llai o ddefnydd o arian parod a mwy o wybodaeth ar gael a gwybodaeth wedi’i digideiddio sy’n golygu ei bod yn haws croesgyfeirio a gwirio data. Mae’r ffaith ein bod yn awdurdod llai o faint yn golygu bod y risg o dwyll yn llai a’n bod yn fwy tebygol o ganfod achosion o dwyll, ond ni chaiff ei ddileu'n gyfan gwbl. Tuedda twyllwyr i dargedu awdurdodau mawr lle mae'r enillion ar gyfer cyflawni twyll yn llwyddiannus yn debygol o fod yn llawer uwch. O ran yr achosion o dwyll sy’n digwydd yn Ynys Môn, maent ar raddfa llawer llai.
- P’un ai a oes gan Archwiliad Allanol fwy o rôl i'w chwarae i ganfod twyll. Dywedodd Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru, er y gall Archwilio Cymru adolygu cwmpas ei waith wrth gynllunio ei raglen waith gyda rheolaeth

DRAFT

gorfforaethol ar ddechrau'r flwyddyn a rhannu enghreifftiau o arfer da, mai cyfrifoldeb y Cyngor yw rhoi rheolaethau mewnol ar waith ar ffurf polisïau, systemau a phrosesau i reoli'r risg o dwyll, i gael sicrwydd bod y rheolaethau hynny'n gweithredu'n effeithiol ac i sicrhau bod yr hyfforddiant yn gyfredol a bod staff ar draws y sefydliad yn ddigon ymwybodol o dwyll.

Tynnodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid sylw at bwysigrwydd addysgu staff am wahanol fathau o dwyll ac y dylai hyfforddiant gloywi fod ar gael o leiaf unwaith y flwyddyn a chael cefnogaeth staff i fynd i'r afael â thwyll o fewn y sefydliad, ac yn ei erbyn**.**

**Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd a chynnig sylwadau arni, penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2020/21 a nodi ei gynnwys.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

## 6. DIWEDDARIAD AR Y STRATEGAETH A'R BLAENORIAETHAU ARCHWILIO AR GYFER 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg oedd yn diweddaru'r Pwyllgor ynglŷn ag Archwilio Mewnol ar 12 Gorffennaf 2021 i'w ystyried. Darparodd yr adroddiad crynodeb o'r archwiliadau a gwblhawyd a'r llwyth gwaith presennol ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Ebrill, 2021.

Cyfeiriodd y Pennaeth Archwilio a Risg at y gwaith sicrwydd a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf i'r Pwyllgor fel yn Nhabl 3 yr adroddiad gyda'r pedwar adroddiad cyntaf (Parhad y Gwasanaeth TG – Gwe-rwydo; Sicrwydd ynghylch trefniadau Rheoli Argyfwng Covid 19; Nodi Anfonebau Dyblyg ac Adennill Taliadau Dyblyg, a Gwytnwch TG (Dilyn i fyny am y tro cyntaf)) i'r Pwyllgor ym mis Mai, 2021. Cyflwynir y tri adroddiad sy'n weddill (Cynllun Taliadau Arbennig y Gweithlu Gofal Cymdeithasol; Ymdopi â Digartrefedd ac Effeithiau Covid 19 a Rheoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion - Dilyn i fyny am y tro cyntaf) gyda'r agenda ar gyfer y cyfarfod heddiw ac mae pob un wedi arwain naill ai at farn Sicrwydd Sylweddol neu Resymol gyda dim ond un mater cymedrol wedi'i godi mewn cysylltiad â Rheoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion. Tynnodd sylw at gyfraniad staff y Gwasanaeth Addysg at ddatblygu'r materion a godwyd gan yr archwiliad o Reoli Cronfeydd Ysgolion Answyddogol ac at y ffaith eu bod wedi cymryd rhan lawn yn y gwaith, a chadarnhaodd fod pob ysgol ac eithrio un bellach wedi cael tystysgrif archwilio ar gyfer eu cronfeydd ysgol a bod yr olaf un ar y gweill. Dangosir y gwaith archwilio sy'n mynd rhagddo yn Nhabl 4 yr adroddiad a darperir trosolwg o'r camau gweithredu sy'n weddill gan y dangosfwrdd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Wrth fyfyrio ar y wybodaeth a gyflwynwyd, holodd y Pwyllgor ynghylch y 35 o faterion/risgiau a oedd yn weddill a briodolwyd i'r Gwasanaeth Adnoddau sy'n ymddangos yn anghymesur â'r camau gweithredu sy'n weddill i wasanaethau eraill. Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg, gan fod rhan fawr o waith diweddar yr Archwiliad Mewnol wedi bod yn gysylltiedig ag agweddau o wasanaeth o fewn Adnoddau, ei bod yn fwy tebygol y bydd nifer uwch o faterion sy'n dal angen sylw ar gyfer y swyddogaeth Adnoddau; fodd bynnag, dim ond 7 o'r 35 mater yn y categori angen sylw sy'n hwyr ac nid yw'r gweddill wedi cyrraedd eu dyddiad gweithredu ac mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi darpariaeth sicrwydd yr Archwiliad Mewnol yn y dyfodol.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

## 7. ARCHWILIO ALLANOL: RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU - CSYM

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwiliad Allanol oedd yn nodi Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru mewn perthynas â Chyngor Sir Ynys Môn i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd Mr Alan Hughes, Arweinydd Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru fod yr adroddiad yn cyflwyno rhaglen waith ac amserlen Archwilio Cymru mewn perthynas ag Ynys Môn ac yn genedlaethol mewn fformat newydd ac mae'n cynnwys y gwaith sydd i'w wneud gan reoleiddwyr eraill. Mae hefyd yn cynnwys crynodeb o adroddiadau cenedlaethol cyhoeddedig ac arfaethedig Archwilio Cymru ac allbynnau eraill. Mae'r adroddiad yn cynrychioli un pwynt gwybodaeth ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio o ran gwaith sydd yn yr arfaeth a gwaith a gwblhawyd ar lefel leol a chenedlaethol a chaiff ei baratoi bob chwarter a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd ar gael.

**Penderfynwyd derbyn a nodi Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru - CSYM.**

## 8. BLAEN RAGLEN WAITH WEDI'I DIWEDDARU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg sy'n cynnwys mân ddiwygiadau i'r Blaen Raglen Waith a gymeradwywyd ar gyfer 2021/22 oherwydd materion llwyth gwaith a/neu newidiadau deddfwriaethol i'w hystyried gan y Pwyllgor.

**Penderfynwyd nodi'r mân ddiwygiadau i'r Blaen Raglen Waith a gymeradwywyd ar gyfer 2021/22.**

**Y Cynghorydd Peter Rogers**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **DYDDIAD:** | **21 Medi 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **LLYWODRAETHU GWYBODAETH – ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (SIRO) AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL 2020 – 31 MAWRTH 2021** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Hysbysu Aelodau am Lefel y Gydymffurfiaeth a'r Risg** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth/Swyddog Monitro Est. 2586 lbxcs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth/Swyddog Monitro Est. 2586 lbxcs@ynysmon.gov.uk** |

**Pwrpas yr adroddiad hwn**

Rhoi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddadansoddiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth o'r materion Llywodraethu Gwybodaeth (LIG) allweddol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 hyd at 31 Mawrth 2021 a chrynhoi'r blaenoriaethau cyfredol.

**Rhagarweiniad**

Mae'r adroddiad hwn yn darparu datganiad a throsolwg yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth o sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ar gyfer trin gwybodaeth gorfforaethol, gan gynnwys cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (GDPR y DU); Deddf Diogelu Data 2018; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (Gwyliadwriaeth) a chodau ymarfer perthnasol.

Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth am gyswllt y Cyngor â rheoleiddwyr allanol ac mae'n darparu gwybodaeth hefyd am ddigwyddiadau diogelwch, achosion o dorri cyfrinachedd, neu "ddigwyddiadau ond y dim" yn ystod y cyfnod.

Rhoddir data allweddol am weithdrefnau llywodraethu gwybodaeth yn y Cyngor yn Atodiadau 1-7 isod.

**Datganiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth**

Fel y trafodwyd yn yr adroddiad ar gyfer 2019-2020, mae trefniadau llywodraethu diogelu data y Cyngor wedi cyrraedd lefel ddigonol o aeddfedrwydd, ac wedi gwreiddio yn ddigonol yn niwylliant y Cyngor i'w alluogi i nodi newidiadau a gwelliannau angenrheidiol mewn ffordd organig a heb ymyrraeth gan reoleiddwyr allanol i sbarduno newid.

Mae gan y Cyngor fecanweithiau a phrosesau ar waith i sicrhau fod gwybodaeth allweddol am gydymffurfio â gofynion llywodraethu gwybodaeth yn cael ei chofnodi a'i dadansoddi fel bod modd sicrhau ymateb prydlon, newid gweithredol a datblygiad wedi'i dargedu. Mae'r ffordd y mae

diogelu data wedi'i wreiddio yn niwylliant y Gwasanaethau yn cefnogi'r trosolwg sydd gan uwch arweinwyr y Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn, darparwyd sesiynau diogelu data i staff yn unol â'u hangen am hyfforddiant cyffredinol neu ar gyfer rôl arbenigol. Darparwyd hyfforddiant ar y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) ar gyfer Swyddogion Awdurdodi RIPA, y Prif Berchennog Cyfrifol RIPA a'r Cydlynydd RIPA. Rhoddir gwybodaeth bellach am hyfforddiant isod (gweler Atodiad 7).

Archwiliwyd prosesau'r Cyngor ar gyfer cydymffurfio â'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio gan y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Cyn yr archwiliad, roedd **Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol RIPA newydd** y Cyngor wedi cael eu llunio a'u cylchredeg i wasanaethau perthnasol ac adolygwyd dogfen Bolisi'r Cyngor. Roedd yr archwiliad yn ffafriol ac ni wnaethpwyd unrhyw argymhellion ffurfiol gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, adolygwyd **Cytundeb / Contract Diogelu Data'r Cyngor** yn gyfan gwbl er mwyn ymgorffori gofynion o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae Gwasanaethau'n defnyddio'r templed newydd erbyn hyn. Cafodd y **templed Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data** ei adolygu'n gyfan gwbl hefyd a'i ailddosbarthu. Tynnwyd yr holl gynnwys diogelu data nad oedd yn gyfredol oddi ar safle mewnrwyd y Cyngor a symudwyd y ffocws tuag at y Porth Polisi fel adnodd ar gyfer adnoddau diogelu data.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Medi roedd trafodaeth am y posibilrwydd y gallai'r Cyngor sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael er mwyn **rheoli effaith ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar Wasanaethau** yn well. Mae manteision cyhoeddi gwybodaeth fel mater o drefn wedi eu nodi yn y Ddeddf: pan dderbynnir cais am wybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhwydd ar wefan y Cyngor, mae'n sbarduno eithriad, a gall hynny symleiddio'r ymateb.

Er mwyn asesu a yw trefniadau cyhoeddi gwybodaeth fel mater o drefn y Cyngor yn ffactor effeithiol o ran lleihau effaith ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar hyn o bryd, paratowyd offeryn hunanasesu a'i ddosbarthu i Wasanaethau'r Cyngor. Rhoddir y casgliadau yn Atodiad 8.

Mae'n amlwg, oherwydd y galw am gyngor gweithredol, bod capasiti llywodraethu gwybodaeth y Cyngor yn cael ei fuddsoddi ar ddarparu cymorth uniongyrchol i gleientiaid, yn unol â rhwymedigaethau allweddol deddfwriaeth diogelu data. O'r herwydd, nid oes unrhyw gapasiti mwyach ar gyfer mentrau strategol a chorfforaethol nad ydynt yn rhai hanfodol.

Felly, yn hytrach nac adrodd ar gynnydd y Gwasanaethau yng nghyd-destun y cynlluniau gweithredu, rydw i'n argymell rhoi sylw yn y dyfodol ar geisio sicrwydd gan Benaethiaid Gwasanaeth, fel Perchnogion Asedau Gwybodaeth, ar feysydd cydymffurfiaeth allweddol, ac yr adroddir ar hynny i'r Pwyllgor hwn.

Fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth, rwyf yn ystyried bod tystiolaeth ddogfennol sylweddol i ddangos bod trefniadau diogelu data a llywodraethu gwybodaeth y Cyngor yn dda. Rydw i'n seilio fy asesiad ar y systemau, y prosesau, y polisïau a'r hyfforddiant diogelu data a llywodraethu gwybodaeth sydd ar waith gan y Cyngor. Rydw i'n ystyried bod llywodraethu gwybodaeth wedi'i wreiddio yn niwylliant gweithredol y Cyngor. Darperir gwybodaeth ychwanegol am elfennau llywodraethu gwybodaeth allweddol yn yr atodiadau sy'n cyd-fynd â fy adroddiad.

**Argymhellion**

Fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth, rydw i'n gwneud yr argymhellion a ganlyn i'r Pwyllgor,

i. ei fod yn derbyn datganiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth;

ii. bod y Gwasanaeth Dysgu yn sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo i sicrhau bod yr archwiliad o gydsyniad y trefnwyd i'w gynnal ers tro yn cael ei gwblhau a'i fod yn adrodd yn annibynnol ar hynny i'r Pwyllgor hwn;
iii. bod y Gwasanaeth Dysgu yn cefnogi bod y Cyngor yn datblygu ei Gofnod o Weithgareddau Prosesu o dan Erthygl 30 y GDPR;
iv. bod fy adroddiadau i'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol yn adrodd ar sicrwydd y byddaf yn ei dderbyn gan Benaethiaid Gwasanaeth fel Perchnogion Asedau Gwybodaeth.

## Atodiad 1 Gwybodaeth am Drosolwg gan Reoleiddwyr

### 1.1. Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) yn goruchwylio'r modd y mae awdurdodau cyhoeddus yn cynnal gwyliadwriaeth gudd a ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol yn unol â Deddf yr Heddlu 1997 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA). Nod y gyfundrefn RIPA yw sicrhau bod gweithgareddau gwyliadwriaeth gyfeiriedig yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n cydymffurfio â hawliau dynol. Cyflawnir hyn trwy system o hunanawdurdodi gan uwch swyddogion sy'n gorfod bod yn fodlon bod y wyliadwriaeth yn angenrheidiol ac yn gymesur; yna mae'n rhaid derbyn cymeradwyaeth gan farnwr i'r hunanawdurdodiad.

Fel Uwch Berchennog Risg y Cyngor, fi hefyd yw'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer cydymffurfiaeth y Cyngor â gweithdrefnau RIPA.

Archwiliwyd prosesau ac arferion y Cyngor gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Roedd yr archwiliad yn un ffafriol ac ni wnaed unrhyw argymhellion ffurfiol. Er y cydnabyddir bod y Cyngor yn gwneud defnydd cyfrifol ond cyfyngedig o RIPA, mae'r rolau, polisïau, gweithdrefnau a'r hyfforddiant perthnasol yn angenrheidiol a rhaid iddynt fod ar waith.

### 1.2 Comisiynydd Gwybodaeth

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gyfrifol am orfodi a hyrwyddo cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 2018 a'r GDPR; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; y Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig; y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol; y Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus; y Rheoliadau INSPIRE. Mae gan y Comisiynydd Gwybodaeth y pŵer i asesu'r ffordd y mae unrhyw sefydliad wedi prosesu data personol yn erbyn safonau cyfredol 'arfer dda'.

| **Gwybodaeth am nifer y cwynion diogelu data a wnaed gan unigolion ynghylch y modd y bu i'r Cyngor brosesu eu gwybodaeth bersonol ac yr ymchwiliwyd iddynt gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.** |
|---|
| Cysylltodd SCG â'r Cyngor mewn perthynas â 2 gŵyn o dan y Ddeddf Diogelu Data. Er na fu i SCG ymchwilio i'r materion yn y pendraw, gofynnwyd i'r Cyngor adolygu ei ymatebion i'r achwynwyr ac i gymryd camau priodol i sicrhau yr ymdriniwyd yn llawn â'r cwynion. Adolygwyd a chaewyd y cwynion. |

| **Apeliadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** |
|---|
| Cyflwynwyd un apêl i'r SCO yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>Roedd yr apêl yn ymwneud â gwrthod datgelu adroddiad, ac oherwydd yr amser a oedd wedi mynd heibio ers yr ymateb gwreiddiol, barnwyd ei bod yn briodol datgelu'r adroddiad yn ei gyfanrwydd i'r achwynydd. |

### 1.3. Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth yn goruchwylio cydymffurfiaeth â'r Côd Ymarfer ar gyfer Camerâu Gwyliadwriaeth. Crëwyd swyddfa'r Comisiynydd o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 i reoleiddio systemau teledu cylch cyfyng (CCTV) ymhellach.

Bu'r Cyngor yn defnyddio **Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth mewn perthynas â theledu cylch cyfyng** ers 2019-20 ac mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio yn awr pryd bynnag y cynigir system teledu cylch cyfyng newydd.

Penodwyd swyddog 'Un Pwynt Cyswllt' ar gyfer teledu cylch cyfyng yn ystod 2019-20 yn dilyn awgrym gan y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth i awdurdodau lleol. Adolygodd y Swyddog Diogelu Data brosesau ac adnoddau teledu cylch cyfyng y Cyngor yn ystod cyfnod yr adroddiad diwethaf; arweiniodd hyn at **greu cofrestr o systemau, rheolwyr a gweithredwyr teledu cylch cyfyng**. Yn bwysig, tynnodd yr adolygiad sylw at y bylchau llywodraethu a oedd yn bodoli mewn perthynas â systemau teledu cylch cyfyng hanesyddol, a oedd yn bodoli cyn i'r Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth gyflwyno'r Côd. **Datblygwyd adnodd teledu cylch cyfyng newydd** ar Borth TG y Cyngor hefyd. Mae'r adnodd yn cynnwys y Templed Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer teledu cylch cyfyng, yn ogystal â Chanllawiau. Gwnaed trefniadau i ailgychwyn archwiliad pellach o systemau teledu cylch cyfyng y tu allan i gyfnod yr adroddiad hwn.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn rhoddwyd hyfforddiant i ddefnyddwyr a rheolwyr systemau teledu cylch cyfyng ynghylch elfennau diogelu data yn gysylltiedig â defnyddio teledu cylch cyfyng.

**Atodiad 2. Nifer y digwyddiadau diogelwch data a gofnodwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.**

**Digwyddiadau diogelwch data (20/21): 30 digwyddiad**

Lefel 0 – Lefel 1 (digwyddiadau "ond y dim" neu ddigwyddiadau a gadarnhawyd fel digwyddiadau diogelwch data ond nad oedd angen rhoi gwybod amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a rheoleiddwyr eraill) = 28

Digwyddiadau Lefel 2 (digwyddiadau diogelwch data y mae'n **rhaid** rhoi gwybod amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth oherwydd y risg sy'n gysylltiedig â'r digwyddiadau = 2


| **Categori Lefel 0 -1** | **Nifer** |
|---|---|
| Datgelu trwy gamgymeriad | 26 |
| Colli data / caledwedd | 1 |
| Technegol | 1 |
| **Categori 2** | **Nifer** |
| Datgelu heb awdurdod | 1 |
| Arall | 1 |

## Atodiad 3.  Gwybodaeth am geisiadau a chwynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

### 3.1 Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac Adolygiadau Mewnol

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2020 hyd at 31 Mawrth 2021, derbyniodd y Cyngor 736 o geisiadau am wybodaeth, yn cynnwys cyfanswm o 5397 o gwestiynau unigol.
Nodir yr ymgeiswyr fesul categori isod:

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd** | 736 |
| **Cyfanswm Nifer y Cwestiynau a Dderbyniwyd** | 5397 |
| **Ceisiadau fesul Gwasanaeth** | |
| Corfforaethol (ar draws yr Awdurdod) = Angen cydlynu'r ymateb. | 134 cais (1214 cwestiwn) |
| Gwasanaethau Democrataidd | 2 gais (20 cwestiwn) |
| Datblygu Economaidd | 5 cais (16 cwestiwn) |
| Etholiadau | 3 chais (8 cwestiwn) |
| Iechyd a Diogelwch | 2 gais (40 cwestiwn) |
| Priffyrdd | 76 cais (558 cwestiwn) |
| Tai | 33 cais (290 cwestiwn) |
| AD | 28 cais (129 cwestiwn) |
| TGCh | 31 cais (330 cwestiwn) |
| Dysgu | 33 cais (411 cwestiwn) |
| Llyfrgelloedd ac ati | 2 gais (30 cwestiwn) |
| Hamdden | 5 cais (28 cwestiwn) |
| Cyfreithiol | 8 cais (58 cwestiwn) |
| Morwrol | 2 gais (18 cwestiwn) |
| Cynllunio | 35 cais (232 cwestiwn) |
| Eiddo | 11 cais (75 cwestiwn) |
| Gwarchod y Cyhoedd | 82 cais (605 cwestiwn) |
| Adnoddau | 118 cais (635 cwestiwn) |
| Gwasanaeth Cofrestru | 1 cais (3 cwestiwn) |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 91 cais (449 cwestiwn) |
| Trawsnewid | 1 cais (10 cwestiwn) |
| Gwastraff | 33 cais (238 cwestiwn) |




## 3.2 Ceisiadau am adolygiadau Mewnol

O'r 736 o geisiadau, arweiniodd 5 at Adolygiad Mewnol o ymatebion y Cyngor. Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

- Mewn 2 achos, cadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol;
- Mewn 2 achos, cadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol ond barnodd yr Adolygiad Mewnol bod rhaid datgelu gwybodaeth ychwanegol;
- Mewn un achos, cafodd y penderfyniad gwreiddiol ei wrthdroi. Anfonwyd ymateb newydd a datgelwyd y data y gofynnwyd amdano.

**Atodiad 4. Gwybodaeth am nifer y cwynion diogelu data a wnaed i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn gan unigolion ynghylch y modd y proseswyd eu gwybodaeth bersonol.**

Mae deddfwriaeth diogelu data yn atgyfnerthu hawliau gwrthrych y data i gwyno am y modd y mae sefydliadau wedi defnyddio eu data personol, neu'n bwriadu ei ddefnyddio, neu sut y maent fel arall wedi amharu ar hawliau gwrthrych y data.

| **Cwynion a gyflwynwyd i'r Cyngor o dan y Ddeddf Diogelu Data** |
|---|
| Derbyniwyd 5 o gwynion o dan y Ddeddf Diogelu Data, ac ymchwiliwyd i 4 ohonynt:<br><br>Roedd 1 yn ymwneud â cheisiadau i **ddileu** data personol;<br>Roedd 2 yn ymwneud â cheisiadau i **gywiro** data personol;<br>Roedd 2 gŵyn yn ymwneud â **gwrthwynebu** prosesu data personol gan y Cyngor<br><br>Ar ôl archwiliad gan y Swyddog Diogelu Data, ni chafodd y 4 cwyn eu cadarnhau. Ystyriwyd bod gweithgareddau prosesu'r Cyngor yn gyfreithlon ac na chafodd hawliau gwrthrychau'r data eu cyfaddawdu.<br><br>Nid oedd mod ymchwilio i'r gŵyn arall gan y bu i'r unigolyn fethu â darparu tystiolaeth ddigonol o'u hunaniaeth ar gais y Swyddog Diogelu Data. |

**Atodiad 5. Gwybodaeth am nifer y Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth a chydymffurfiaeth y Cyngor.**

| **Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth a chydymffurfiaeth** |
|---|
| Derbyniwyd 25 cais o'r fath – o'r 22 Cais Gwrthrych am Wybodaeth yr ymatebwyd iddynt, anfonwyd 78% o ymatebion o fewn y terfyn amser priodol.<br><br>Mae 2 Gais Gwrthrych am Wybodaeth wedi eu gohirio ac nid oes modd symud ymlaen â nhw gan na dderbyniwyd y dystiolaeth angenrheidiol, yn ogystal, derbyniwyd un ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac felly nid oedd angen ymateb iddo o fewn cyfnod adrodd yr adroddiad hwn. |

## Atodiad 6. Cynllun Gwaith Diogelu Data

Adroddwyd i'r Pwyllgor yn flaenorol ar y cynllun gwaith ar gyfer diogelu data, a ddatblygwyd yn ystod y misoedd ar ôl gweithredu'r ddeddfwriaeth diogelu data newydd yn 2018.

Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor sydd berchen ar y cynllun gwaith ac mae hyn yn sicrhau bod diogelu data wrth wraidd gweithrediadau'r Cyngor. Pwrpas y cynllun gwaith oedd darparu mwy o sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth y Cyngor. Darparwyd *hyfforddiant, nodiadau canllaw a thempledi* i gyd-fynd â gwahanol elfennau'r cynllun gwaith er mwyn cynorthwyo staff y Gwasanaeth i gwblhau'r camau. Erbyn hyn, mae holl agweddau'r cynllun gwaith hwnnw wedi'u hen gwblhau, ac eithrio'r wybodaeth isod.

Rhoddir isod yr elfennau o'r cynllun gwaith presennol sy'n parhau i fod angen sylw (hyd at fis Mawrth 2021) a'r Gwasanaethau nad ydynt wedi cwblhau'r camau gweithredu:

| | Gweithred | Gwasanaeth sydd heb gydymffurfio |
|---|---|---|
| 1. | Adolygu'r **defnydd o gydsyniad fel sail gyfreithiol ar gyfer prosesu** ac adolygu prosesau cofnodi cydsyniad er mwyn herio'r ddibyniaeth ar gydsyniad fel sail gyfreithlon gan bartneriaid. | Gwasanaeth Dysgu |
| 2. | **Datblygu a monitro Cofnod o Weithgareddau Prosesu (ROPA) y Cyngor o dan Erthygl 30** drwy gynnwys dolenni at Hysbysiadau Preifatrwydd, Protocolau Rhannu, Contractau neu Gytundebau Prosesu Data mawr | Gwasanaeth Dysgu |

## Atodiad 7. Hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth

| Pwnc | Categori Staff | Amlder Hyfforddiant | Statws Cydymffurfio |
|---|---|---|---|
| Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth | Staff **newydd** - PAWB | Wrth ymuno â'r Cyngor | Darparwyd yr hyfforddiant |
| Derbyn Polisi Diogelu Data | **HOLL** staff - gorfodol | Wrth ymuno â'r Cyngor, bob 2 flynedd wedi hynny | |
| Hyfforddiant Diogelu Data | **HOLL** staff - gorfodol<br><br>**HOLL Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig.** | Bob 2 flynedd | Darparwyd yr hyfforddiant |
| Rhyddid Gwybodaeth / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol | **Cydlynwyr Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth Gwasanaethau** cyfredol (hefyd Gweinyddwyr Asedau Gwybodaeth) | Sesiynau diweddaru 1 awr bob 2 flynedd – i'w ddisodli gan fodiwlau e-ddysgu. | Darparwyd yr hyfforddiant |
| Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth | Cydlynwyr Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth Gwasanaethau cyfredol | Yn ôl yr angen | Mae Gwasanaethau'n nodi gofynion ac yn trefnu hyfforddiant. |
| Llywodraethu Gwybodaeth | Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) | Bob dwy flynedd | Nid oedd angen yn ystod y cyfnod adrodd |
| Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth | Perchnogion Asedau Gwybodaeth (Penaethiaid Gwasanaeth) | Bob dwy flynedd | Nid oedd angen yn ystod y cyfnod adrodd |
| Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) | Uwch Berchennog Cyfrifol RIPA<br>Swyddogion Awdurdodi RIPA<br>Swyddog Cydlynu RIPA | Bob dwy flynedd | Darparwyd yr hyfforddiant |
| Teledu Cylch Cyfyng | Gweinyddwyr systemau teledu cylch cyfyng | Bob 2 flynedd neu yn ôl yr angen | Darparwyd yr hyfforddiant |

## Atodiad 8. Arolwg o Gynllun Cyhoeddi'r Cyngor

1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2020 roedd trafodaeth am y posibilrwydd y gallai'r Cyngor sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael er mwyn rheoli effeithiau ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar Wasanaethau yn well.

2. Mae manteision cyhoeddi gwybodaeth fel mater o drefn wedi'u nodi yn y Ddeddf: pan dderbynnir cais am wybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhwydd ar wefan y Cyngor, mae'n sbarduno eithriad, a gall hynny symleiddio'r ymateb.

3. Er mwyn asesu a yw trefniadau cyhoeddi gwybodaeth fel mater o drefn y Cyngor yn ffactor effeithiol o ran lleihau effaith ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar hyn o bryd, paratowyd offeryn hunanasesu a'i ddosbarthu i Wasanaethau'r Cyngor. Cymerodd pob Gwasanaeth ran yn yr hunanasesiad ac eithrio'r Gwasanaeth Adnoddau.

4. Dros 15 mlynedd yn ôl, cynigiodd y Comisiynydd Gwybodaeth gynllun cyhoeddi cydlynol sengl fel y datrysiad mwyaf addas. Fodd bynnag, y duedd wrth ddatblygu gwefannau oedd symud oddi wrth hyn; cydymffurfir â gofynion cyhoeddi'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth drwy gyfrwng cyfleuster blwch chwilio ar y wefan.

5. O ran canfyddiadau'r arolwg, roedd Gwasanaethau'n gallu dangos eu bod yn cyhoeddi'n rhagweithiol, yn unol â'r Cynllun Cyhoeddi. Fodd bynnag, cyn belled ag y mae lleihau'r effaith neu'r baich ar y Gwasanaethau wrth ymateb i geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth dan sylw, mae'n annhebygol bod cyhoeddi gwybodaeth yn lleihau nifer y ceisiadau. Mae ymgeiswyr o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth eisiau gwybod *pam* yn ogystal â *beth*. Anaml iawn y mae cyhoeddi dogfennau fel mater o drefn yn darparu'r cyd-destun sydd ei angen ar y rhai hynny sy'n gwneud ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae yna dystiolaeth hefyd i awgrymu bod gwybodaeth a gyhoeddir yn arwain at geisiadau ychwanegol.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **DYDDIAD:** | **21 Medi 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban 2020-2021** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Sicrwydd ar Gydymffurfiaeth â Pholisi** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Swyddog Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol Est. 2588 bjxcs@ynysmon.gov.uk** |

## PRYDERON A CHWYNION

### Rhagarweiniad a Chrynodeb

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am faterion sy'n codi o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor am y cyfnod 1 Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021. Bwriedir i'r adroddiad hefyd gynnwys unrhyw ddatgeliadau a wnaed dan y drefn chwythu'r chwiban yn ystod yr un cyfnod.

2. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol ond dim ond y rhai hynny lle nad yw'r achwynydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth. Ymdrinnir â chwynion defnyddwyr gwasanaeth o dan y Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol - Y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion ar gyfer Plant ac Oedolion. Adroddir ar y rhain yn flynyddol i'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid yw'r adroddiadau hyn ar gael i'r cyhoedd ond os ceir cais ffurfiol gellir darparu gwybodaeth ystadegol lefel uchel.

3. Gall cwynion ddarparu gwybodaeth werthfawr am y modd yr ydym yn perfformio, yr hyn y mae defnyddwyr yn ei feddwl am ein gwasanaethau, a sut a ble y dylem ganolbwyntio gwelliannau.

4. Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021, derbyniwyd 104 o bryderon a 43 o gwynion. O'r 43 o gwynion, cafodd 42 ymateb llawn erbyn 31 Mawrth ac y mae angen ymchwiliad sylweddol pellach i'r gŵyn arall cyn y gellir darparu ymateb terfynol i'r achwynydd.

   Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn diffinio "pryder" fel mynegiant o anfodlonrwydd y gellir ei ddatrys 'yn y fan a'r lle', yn y man cyswllt cyntaf, neu yn fuan wedyn. Fel arfer, mae cwyn yn fwy difrifol o ran natur, yn aml nid yw'n bosib ei hunioni, ac yn gyffredinol mae angen ymchwiliad i'r amgylchiadau cyn y gellir darparu ymateb neu ddatrysiad.

5. O'r 42 o gwynion y deliwyd â hwy yn ystod y cyfnod, cadarnhawyd 2 yn llawn, cadarnhawyd 1 yn rhannol ac ni chadarnhawyd 39 ohonynt. Cafodd 9 cwyn oedd wedi bod trwy'r broses fewnol eu huwch-raddio i'r OGCC ond bu gwrthod y 9. Cyfeiriwch hefyd at baragraff 10 os gwelwch yn dda.

6. Ymchwiliwyd i 26 yn llai o gwynion eleni, i lawr o 69 yn 2019/20 a dangosir y rhain yn y tabl isod.

7. Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi data cwynion bob mis. https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cymryd-rhan/Cwynion-swyddogol/Ystadegau-cwynion-y-cyngor.aspx

8. Y gyfradd gyffredinol o ran ymateb i gwynion o fewn y terfyn amser penodedig (20 diwrnod gwaith) oedd 90%. Pan fydd ymatebion yn hwyr, disgwylir i wasanaethau anfon 'ymateb dal' i'r achwynydd i roi gwybod iddynt am y cynnydd ac i egluro'r rhesymau dros yr oedi a rhoi rhyw syniad ynghylch yr amserlen ymateb.

**Crynodeb o Bryderon a Chwynion fesul Gwasanaeth ar gyfer 2020 – 2021**

| Gwasanaeth | Nifer y pryderon | Nifer y cwynion | Nifer a gadarnhawyd | Nifer a gadarnhawyd yn rhannol | Nifer a wrthodwyd | Nifer yr ymatebion hwyr (nifer o ddyddiau yn hwyr) | Canmoliaethau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Busnes y Cyngor** | | | | | | | |
| Cyfreithiol | - | 1 | - | - | 1 | - | 20 |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | |
| Priffyrdd | 8 | 4 | - | - | 4 | 1 (9 diwrnod) | 43 |
| *Priffyrdd/Cynllunio | - | 3 | - | - | 3 | - | - |
| Eiddo | - | 1 | - | - | 1 | - | - |
| Gwastraff | 21 | 3 | - | - | 3 | - | 33 |
| **Tai** | | | | | | | |
| Tai | 28 | 7 | - | 1 | 6 | - | 39 |
| *Tai / Budd-daliadau | - | 1 | - | - | 1 | - | - |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | |
| Dysgu (ac eithrio ysgolion) | 1 | 1 | - | - | 1 | - | 19 |
| **Rheoleiddio ac Economaidd** | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 6 | - | - | - | - | - | 33 |
| Hamdden | 14 | - | - | - | - | - | 63 |
| Cynllunio | 2 | 10 | - | - | 10 | - | 120 |
| *Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | - | 1 | - | - | 1 | - | - |
| Gwarchod y Cyhoedd | - | 1 | - | - | 1 | - | 37 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau** | | | | | | | |
| Adnoddau | 24 | 10 | 2 | - | 7 (1 heb ei ddatrys) | 3 (37 diwrnod/ 8 diwrnod & 16 diwrnod) | 41 |
| **Trawsnewid Corfforaethol** | | | | | | | |
| Cyswllt Môn | - | - | - | - | - | - | 16 |
| **Cyfanswm** | **104** | **43** | **2** | **1** | **39** | **4** | **464** |

* Yn ymwneud â mwy nag un gwasanaeth

O ddadansoddi'r tabl uchod, roedd 9% (i fyny o 8% yn 2019/20) o'r cwynion a dderbyniwyd yn deillio o bryderon a uwch-gyfeiriwyd sy'n dangos bod y Gwasanaethau yn parhau i ddelio'n effeithiol â phryderon ac felly'n cyfyngu cwynion ffurfiol. Anfonwyd 9% arall (4 o'r 43) at y Cyngor gan OGCC a wrthododd ddelio â hwy nes fod popeth posib wedi cael ei wneud i ddatrys y materion drwy broses fewnol y Cyngor yn y lle cyntaf. Gall achwynwyr hefyd fynd â'u cwynion yn uniongyrchol i'r broses gwyno fewnol ffurfiol ac o'r cwynion ffurfiol a dderbyniwyd a oedd yn weddill, dilynodd 82% ohonynt y llwybr hwn.

## 9. Gwersi a Ddysgwyd

Mae'r Polisi Pryderon a Chwynion yn rhoi pwyslais ar ddysgu gwersi o gwynion a thrwy hynny wella gwasanaethau. Mae'r argymhellion blaenorol sydd wedi eu cadarnhau gan y Pwyllgor yma bellach wedi dod yn rhan o fusnes fel arfer wrth ddelio efo cwynion.

Fel y crybwyllwyd uchod cadarnhawyd 2 gŵyn a chadarnhawyd 1 gŵyn yn rhannol yn ystod 2020/21. **Mae Atodiad 1** yn esbonio pa wersi a ddysgwyd ac unrhyw ymarfer sydd wedi esblygu o ganlyniad i'r canfyddiadau hyn.

## 10. Cwynion i OGCC

### Cwynion am Wasanaethau

Nid oes hawl fewnol i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed mewn ymateb i gŵyn, ond mae'r Polisi Pryderon a Chwynion yn cynnwys yr opsiwn o uwch-gyfeirio cwyn i'r OGCC pan fo'r achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon ag ymateb y Cyngor.

Cafodd 18 o gwynion y mae'r broses hon yn berthnasol iddynt eu cyflwyno i OGCC o fewn amserlen yr adroddiad. Uwch-gyfeiriwyd 9 ohonynt yn dilyn ymatebion ffurfiol o dan Weithdrefn Gwyno'r Cyngor a gwnaethpwyd 9 o gwynion yn uniongyrchol i OGCC. Ni chafod unrhyw un o'r cwynion eu hymchwilio.

### Cwynion am Aelodau

Rhaid i unrhyw gŵyn yn erbyn aelod etholedig fod wedi'i seilio ar achos honedig o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau, gyda'r Ombwdsmon yn gweithredu ei awdurdod i gynnal yr 'hidlad cyntaf' (h.y. asesu teilyngdod) cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen ac ym mha fodd.

Yn ystod 2020/21, ni dderbyniwyd yr un gŵyn dan y cod ymddygiad gan OGCC yn erbyn Cynghorydd Sir.

Caiff gwybodaeth gyfyngedig am gwynion o'r fath ei hadrodd yn ffurfiol i Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir ddwywaith y flwyddyn.
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CId=148&Year=0&LLL=1

Er mwyn cael darlun cyflawn, caiff cwynion am aelodau etholedig y Cynghorau Tref a Chymuned, mewn perthynas â'r un Cod Ymddygiad, eu hadrodd hefyd ddwywaith y flwyddyn i Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir.

Mae crynodebau hefyd ar gael yn Nghrynodeb Llyfr Achosion chwarterol OGCC a welir yn https://www.ombwdsmon.cymru/code-of-conducts/

11. **Cwynion sy’n gysylltiedig ag Iaith**

Ni dderbyniwyd unrhyw gŵyn ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

Fodd bynnag, derbyniwyd a chofnodwyd un mynegiant o bryder. Roedd yn ymwneud â’r materion isod:-

- Cwyn yn ymwneud â’r gydnabyddiaeth a dderbynnir wrth gofrestru ar ap gwasanaeth y Cyngor.

Cafodd y mater ei ddatrys heb orfod ei uwchgyfeirio’n gŵyn ffurfiol.

Adroddir ar unrhyw gwynion eraill sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn flynyddol yn yr Adroddiad Blynyddol ar y Safonau Iaith Gymraeg.

Yn ogystal, mae gan y cyhoedd yr hawl i gwyno'n uniongyrchol i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg ond ni chaiff y cwynion hyn eu hanfon yn ôl i'r Cyngor i'w hymchwilio ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Nodir cwynion o'r fath yn yr Adroddiad Blynyddol ar y Safonau Iaith Gymraeg a gyhoeddir ar Wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn:- https://www.ynysmon.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cyngor/Iaith/Adroddiad-Blynyddol-ar-Safonau'r-Iaith-Gymraeg-2019-20.pdf

**CHWYTHU’R CHWIBAN**

12. Mae Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor wedi'i ddyfeisio i annog a galluogi gweithwyr godi pryderon, sy'n rhan o sgôp y Polisi, heb ofni erledigaeth neu wahaniaethu. Chwythu'r chwiban yw'r term poblogaidd a ddefnyddir pan fo aelod o staff (mae'n cynnwys contractwyr ond nid yw'n berthnasol i’r cyhoedd neu aelodau etholedig) yn codi pryderon ynghylch twyll, trosedd, perygl neu risg ddifrifol a allai fygwth y cyhoedd, eu cydweithwyr neu enw da’r Cyngor.

13. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi cytuno ar lefel yr wybodaeth a ddarperir fel arfer yn yr adroddiad hwn oherwydd, yn wyneb natur anorfod sensitif materion o'r fath, a

rhwymedigaeth gyfreithiol y Cyngor i ddiogelu Chwythwyr Chwiban rhag niwed yn y gweithle, dim ond gwybodaeth gyfyngedig fydd yn cael ei datgelu bob amser.

14. Yn ystod 2020/21, derbyniwyd dau bryder dan y polisi chwythu'r chwiban ac fe'i nodir isod.

| **Y dyddiad y codwyd y pryder** | **Math o ddatgeliad / Adroddwyd i** | **Natur y Pryder** | **Ymchwiliad** | **Canlyniad** | **Gwersi a Ddysgwyd** | **Canlyniad wedi bwydo'n ôl i'r sawl chwythodd y chwiban** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhagfyr 2020 | Lefel Gyntaf / Swyddog Monitro | Mater diogelu mewn ysgol | Do | Cyfeiriwyd y mater diogelu i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwnaed ymholiadau yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan (2019). Nid oedd y mater yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gwneud honiad rhan 5 yn erbyn gweithiwr proffesiynol.. Ymatebodd y cyflogwr oddi mewn i'w prosesau mewnol. | Rheolwr y Gwasanaeth a'r grŵp arwain ymarfer wedi adolygu'r cydgyfnewid rhwng y polisi chwythu'r chwiban a'r ddyletswydd i adrodd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Pe byddai digwyddiad tebyg yn digwydd eto, dylid hysbysu'r aelod staff ynglŷn â'r ddyletswydd i adrodd a'u cyfeirio at Teulu Môn. | Do, gan y Swyddog Monitro |
| Chwefror 2021 | Lefel Gyntaf / Swyddog Monitro | Mater cynllunio | Archwiliad rhagarweiniol – dim digon o dystiolaeth i fynd â'r mater ymhellach. | Rhoi trefniadau addas ar waith i sicrhau canlyniad teg a thryloyw i amddiffyn staff perthnasol, y ceisydd a hyder y cyhoedd yn y broses | Gwnaed trefniadau penodol mewn perthynas â'r mater ond ni waned unrhyw newidiadau i'r weithdrefn. | Do, gan y Swyddog Monitro |

* Mae datgeliad lefel gyntaf yn golygu y rhoddwyd gwybod am y mater yn fewnol yn y Cyngor o gymharu â datgeliad ail lefel (i Reoleiddwyr) neu ddatgeliad trydydd lefel (i'r cyfryngau).

15. **Newidiadau i'r Polisi Pryderon a Chwynion**

Cafodd Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 gydsyniad brenhinol ym mis Gorffennaf 2019 ac un agwedd ar y pwerau newydd oedd creu "Awdurdod Safonau Cwynion".

Cynhyrchwyd canllawiau i ddelio â chwynion diwygiedig gyda'r nod o alinio arferion ledled Cymru yn gyffredinol– darparu safonau sylfaenol, iaith gyffredinol ac egwyddorion i danategu sut y dylid delio â chwynion ym mhob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Gofynnwyd i bob awdurdod yng Nghymru adolygu eu polisi a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r canllawiau newydd. Adolygwyd y Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol a gwnaed mân ddiwygiadau iddo er nad arweiniodd hyn at unrhyw newidiadau i'r broses a fu mewn grym ers mis Ebrill 2013. Cafwyd cadarnhad gan yr Ombwdsmon ar 26 Mai 2021 bod "polisi Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio" â'r canllawiau.

16. **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill, 2021 hefyd yn berthnasol wrth ddelio â chwynion. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bellach ddyletswydd i adolygu a chynhyrchu adroddiadau ar ddelio â chwynion.

Mae Cyfansoddiad y Cyngor wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r gyfrifoldeb newydd yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor ac mae Matthew Harris o'r Awdurdod Safonau Cwynion wedi darparu hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 21 Gorffennaf 2021, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, ar gyfrifoldebau newydd y pwyllgor archwilio.

17. **Penderfyniad/Argymhellion:**

Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod yr adroddiad hwn yn darparu sicrwydd rhesymol bod y Cyngor yn delio â chwynion yn effeithiol ac nid yw'n gwneud unrhyw argymhellion mewn perthynas â gallu'r Cyngor i ddelio â chwynion yn effeithiol.

# Ffurflen Hysbysu am Gwynion a Gadarnhawyd neu a Gadarnhawyd yn rhannol    Atodiad 1

Mae'r Polisi Pryderon a Chwynion yn rhoi pwyslais ar ddysgu o gamgymeriadau a rhoi mesurau yn eu lle rhag i'r un camgymeriadau gael eu hailadrodd. Darperir Adroddiad Cwynion Blynyddol i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu'r Cyngor ym mis Medi bob blwyddyn. Adroddir ar y gwersi a ddysgwyd yn sgil unrhyw gwynion a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol mewn tabl fel atodiad i'r adroddiad hwnnw. Mae'r tabl yn nodi enw'r gwasanaeth, y camgymeriad a nodwyd a'r camau a gymerwyd i gywiro hynny.
Mae felly'n hanfodol bod y wybodaeth y byddwch yn ei darparu ar ddiwedd pob proses ymchwilio i gŵyn yn nodi'n glir eich canfyddiadau a pha weithredoedd yr ydych wedi eu cymryd / yr ydych yn bwriadu eu cymryd, er mwyn sicrhau nad yw'r camgymeriad a nodwyd yn cael ei ailadrodd. Mae'r Pwyllgor wedi mynegi y gall alw ar Benaethiaid Gwasanaeth i gadarnhau bod camau cywiro wedi eu cymryd o fewn yr amserlenni a nodwyd. Er mwyn hwyluso'r gwaith o ysgrifennu adroddiadau yn y dyfodol fe anfonir y ffurflen hon atoch i'w llenwi bob tro y byddwch yn cadarnhau cwyn yn llawn neu'n rhannol. Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor mewn cyfarfod cyhoeddus.

| **Canllawiau i'r Gwasanaethau ar sut i gwblhau'r ffurflen** | | |
|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r Categori** | **Manylion / Enghreifftiau** | **Enghreifftiau o'r camau a gymerwyd** |
| Camgymeriad syml / dim angen am gamau pellach | Camgymeriad dilys / untro sydd wedi'i gywiro / materion a brofwyd wrth i system newydd gael ei chyflwyno / cyfnod o bwysau uchel | Wedi siarad â'r aelod perthnasol o staff ac wedi eu hatgoffa o'r angen i fod yn ofalus / i gadw data pan fydd y galw yn uchel. |
| Mater Gofal Cwsmer | Diffyg ymateb i ohebiaeth / heb ffonio rhywun yn ôl yr addewid. | Cyfarwyddiadau clir wedi eu darparu / materion gofal cwsmer wedi eu trafod ym mhob cyfarfod tîm (cofnodion wedi eu cymryd / Gwasanaethau yn cyflwyno ac yn monitro rhai dangosyddion perfformiad allweddol. |
| Angen Hyfforddiant neu Oruchwyliaeth | Materion ymddygiad neu gamgymeriadau wrth ddehongli cyfarwyddiadau | Aelod o staff wedi'i anfon ar gwrs hyfforddiant / goruchwyliaeth gan aelod mwy profiadol o staff. |
| Newid mewn polisi neu broses | Camgymeriadau mewn proses / polisi wedi eu darganfod o ganlyniad i ymchwiliad i gŵyn sydd wedi arwain at gyflwyno newidiadau. | Ffurflenni newydd wedi eu cyflwyno / angen gwahanol dystiolaeth / newidiadau i lwybrau (e.e. casgliadau bin) |

# Ffurflen Hysbysu am Gwynion a Gadarnhawyd neu a Gadarnhawyd yn rhannol    Atodiad 1

| Crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd 2019/2020 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyf | Gwasanaeth | Camgymeriadau) a nodwyd | Camau Adferol - nodwch gategori'r camgymeriad (gweler uchod) a nodwch pa gamau sydd wedi eu cymryd neu y bwriedir eu cymryd ac erbyn pryd | Gweithred wedi'i chwblhau |
| **Tai** | | | | |
| F495 | Tai | Cadarnhau'n rhannol - Y broblem lleithder wedi'i grybwyll gyntaf yn 2017 ond gwnaed penderfyniad ar dderbyn y cwyn bod angen arolwg o'r eiddo. | Camgymeriad syml – ymddiheurwyd am y teimlad o rwystredigaeth ond nid oedd cofnod o gwynion ers 2017. Symudwyd y tenant ac arolygwyd yr eiddo gan gwmni allanol a chwblhawyd gwaith ailwampio ac mae tenant newydd yn yr eiddo ers 09.06.21. | Do |
| **Adnoddau** | | | | |
| F507 | Cyflogres | Cwyn ynghylch ymateb a dderbyniwyd i ymholiad yn ymwneud â'r gyflogres. | Mater hyfforddi – ymddiheurwyd, yr holl staff wedi'i hatgoffa o'r safonau gofynnol wrth ddelio â chleientiaid ac ymholiadau wedi'u gwneud ynghylch argaeledd cyrsiau gofal cwsmer. | Mai 2021 - atgoffa staff o'r safonau a chysylltu ag Adnoddau Dynol ynghylch cyrsiau - mwyafrif staff y Gyflogres wedi mynychu cyrsiau gofal cwsmer, cwrs gloywi ar y gweill a staff newydd i fynychu cyrsiau pan fyddant ar gael. |
| F511 | Pensiynau | Data pensiwn athro heb ei ddiweddaru ac yn anghyflawn. | Mater untro – prinder staff a phroses llafurus i gywiro'r data, felly bydd yn cymryd amser. Rhaid ei gwblhau erbyn Awst 2021, cysylltir â'r achwynydd a'u hysbysu ynglŷn â hynt yr achos. | Parhau |



23369/ 663078

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| Dyddiad: | **21 Medi 2021** |
| Teitl: | **Derbyn Polisïau – Medi 2020 i Awst 2021** |
| Adroddiad gan: | **Lynn Ball,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro)** |
| Pwrpas yr Adroddiad: | **Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y sefyllfa gyfredol o ran derbyn polisïau ar draws y Cyngor.** |

## 1.0 Cefndir

Dyma'r pedwerydd adroddiad ar gydymffurfiaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Rhestrir isod y polisiau corfforaethol sydd wedi'u cynnwys yn y set craidd cyfredol:

1. Polisi Offer Sgrin Arddangos
2. Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
3. Safonau Iaith Gymraeg
4. Polisi Diogelu Data
5. Polisi Diogelwch TG
6. Polisi Diogelu Corfforaethol
7. Cod Ymddygiad i Swyddogion
8. Polisi Chwythu'r Chwiban
9. Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r naw polisi yma angen eu derbyn pob dwy flynedd, ond mae'n orfodol bod staff newydd yn eu derbyn trwy gydol yr amser.

Oherwydd Covid-19, atalwyd y broses ym mis Mawrth 2020 ond fe gafodd ei hail-gychwyn ar 1 Medi 2020.

## 2.0 Monitro cydymffurfiaeth

Cyflwynir adroddiadau cydymffurfiaeth fesul gwasanaeth i'r UDA, a hynny'n dilyn y cyfnodau o 6 wythnos a roddir i dderbyn pob polisi. Mae'r holl bolisïau'n parhau i fod ar gael i'w derbyn ar ôl y dyddiadau cau, fel bod defnyddwyr sydd heb gwblhau polisi ar amser, beth bynnag fo'r rheswm, yn gallu dal i fyny.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Mae'r e-byst atgoffa wythnosol a gynhyrchir gan y Porth Polisi'n rhestru'n awtomatig pob polisi sy'n weddill i bob defnyddiwr. Yn ychwanegol, gan fod y Porth yn diweddaru dros nos i gydweddu â Chyfeirlyfr Gweithredol y Cyngor, mae unrhyw ddefnyddwyr newydd yr ychwanegir at y grwpiau gwasanaeth TG yn cael eu cynnwys yn awtomatig o fewn 24 awr.

Mae gan bob Cyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaeth, ynghyd â staff sy'n cael eu henwebu ganddynt, fynediad uniongyrchol at y Porth er mwyn monitro cydymffurfiaeth o fewn eu gwasanaethau eu hunain.

## 3.0 Y sefyllfa gyfredol

### 3.1 Y set craidd o bolisiau corfforaethol

Ers 1 Medi 2020, mae'r polisïau canlynol wedi'u cyflwyno i'w hail-dderbyn. Mae data o ran cydymffurfiaeth fesul gwasanaeth hyd at 11 Awst i'w gweld yn Atodiad 1:

1 – Safonau Iaith Gymraeg
2 – Polisi Diogelu Data
3 – Polisi Diogelwch TG
4 – Côd Ymarfer i Swyddogion a Chanllawiau Lleol
5 – Polisi a Chanllawiau Chwythu'r Chwiban

Mae'r tabl isod yn cymharu cyfraddau cydymffurfiaeth cyfartalog y gwasanaethau, fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor hwn dros y bedair blynedd diwethaf:

| Gwasanaeth | Gor 18 (7*) | Gor 19 (8*) | Meh 20 (3*) | Awst 21 (5) |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | 96% | 99% | 100% | 97% |
| Busnes y Cyngor | 99% | 98% | 100% | 100% |
| Dysgu | 99% | 96% | 95% | 97% |
| Gwasanaethau Oedolion | 78% | 92% | 90% | 96% |
| Gwasanaethau Plant | 99% | 100% | 100% | 96% |
| Prif Weithredwr | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 100% | 97% | 99% | 97% |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 96% | 93% | 94% | 97% |
| Tai | 99% | 86% | 78% | 92% |
| Trawsnewid Corfforaethol | 99% | 99% | 100% | 97% |
| * - nifer y polisiau sydd wedi'u cynnwys, fel y'u rhestrir yn Atodiad 3. | | | | |

Fe adroddwyd ar y data uchod a oedd yn cynnwys y cyfnod hyd at Fehefin 2020 i'r Pwyllgor hwn ar 1 Medi 2020, pryd y cwestiynwyd y gostyngiad yn y lefelau cydymffurfiaeth o fewn y Gwasanaeth Tai. Daethpwyd a hyn at sylw'r Pennaeth Gwasanaeth a bydd aelodau'n gweld o'r tabl uchod bod y gyfradd cydymffurfiaeth cyfartalog wedi gwella'n sylweddol ar y cyfan o fewn y Gwasanaeth Tai ers hynny. Serch hynny, dengys y data yn Atodiad 1

ostyngiad amlwg o ran derbyn y polisi diwethaf (i lawr i 76%). Mae'r data ar gyfer yr holl wasanaethau yn nodi po hiraf y bydd polisïau ar gael i'w derbyn po uchaf yw'r gyfradd gydymffurfio, ond ymddengys bod mwy o oedi yn y Gwasanaeth Tai. Mae hyn o bosib oherwydd y nifer uwch o staff technegol, yn hytrach na chlerigol / swyddfa.

**3.2 Peilot ar gyfer Rheolwyr**

Ar 14 Medi 2020, fe gychwynwyd peilot yn gofyn i reolwyr dderbyn tri o bolisiau AD, gyda'r polisiau'n cael eu neilltuo i'r swyddogion perthnasol a enwebwyd gan pob gwasanaeth.

Fe gyflwynwyd y Polisiau Rheoli Absenoldeb a Recriwtio a Dethol i'w derbyn rhwng 14 Medi 2020 a 4 Ionawr 2021. Yn Ionawr 2021, rhoddodd yr UDA ystyriaeth i bapur ar ofynion y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (rhan o'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a fyddai'n cychwyn ar 31 Mawrth 2021). Penderfynodd yr UDA y dylid cymryd y cyfle i godi ymwybyddiaeth trwy ychwanegu papur briffio ar ofynion y Ddyletswydd i'r peilot rheolwyr.

Mae data cydymffurfiaeth fesul gwasanaeth o ran y tri phapur a gyflwynwyd hyd yn hyn i'w gweld yn Atodiad 2.

Bydd y papur olaf – canllawiau ar ddynodi sgiliau ieithyddol ar gyfer swyddi mewnol ac allanol – yn cael ei gyflwyno i'w dderbyn dros yr wythnosau i ddod.

Gan fod y grwpiau wedi cael eu creu â llaw ar gyfer y peilot, ni fyddant yn diweddaru'n awtomatig i gynnwys rheolwyr sy'n ymuno â'r gwasanaeth. Felly, os yw gwasanaethau angen gwneud unrhyw ychwanegiadau bydd angen hysbysu gweinyddydd y system.

**3.3 Staff sydd heb fynediad at y Porth Polisi**

Mae'r Porth Polisi'n dibynnu ar Gyfeirlyfr Gweithredol y Cyngor, ac yn cynnwys o gwmpas 1000 o ddefnyddwyr gweithredol. Fe adnabuwyd dibyniaeth y Porth ar y Cyfeirlyfr Gweithredol fel gwendid o'r cychwyn ac mae'r Pwyllgor hwn wedi mynegi pryder nad yw staff sydd ddim yn defnyddio'r Cyfeirlyfr – yr amcangyfrifir i fod o gwmpas 700 o weithwyr - yn rhan o'r broses hon, gan gynnwys:

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion | Gofalwyr Cartref; Ail-alluogi; Cartrefi Gofal; Gwasanaethau Dydd; Canolfan Byron, Byw â Chefnogaeth | 350 |
| Gwasanaethau Plant | Gweithwyr Cefnogol Arbenigol | 21 |
| Dysgu | Llyfrgelloedd, Gweithwyr Ieuenctid, Staff wrth gefn, Cymorthyddion Tymhorol, Glanhawr | 94 |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| | | |
|---|---|---|
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Glanhawyr (yn cynnwys ysgolion), Cludiant Cymunedol Môn, Canolfannau Ailgylchu, Hyfforddwyr Beicio, Cylchwyliwyr Croesi'r Ffordd (ysgolion) | 204 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Glanhawyr canolfannau hamdden, staff caffi, staff hyfforddi | 40 |

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd angen adnabod gwahanol ddulliau i gyrraedd y gwahanol gategorïau o staff sydd ddim yn y Cyfeirlyfr Gweithredol ond bu rhaid atal cynnig i dreialu proses ar bapur gyda Gwasanaethau Oedolion oherwydd Covid-19.

Yn ei gyfarfod diwethaf, cydnabu'r Pwyllgor hwn fod y mater cydymffurfio o ran staff heb fynediad i'r Porth Polisi yn risg a gofynnodd am sicrwydd bod y mater yn cael sylw ar y lefel uchaf. Mewn ymateb, rhoddais gadarnhad bod y mater yn cael ei ystyried yn gorfforaethol gyda mwy o ffocws wedi'i roi i'r angen am gyfathrebu clir a syml â staff yn sgil argyfwng Covid-19. Fodd bynnag, fe'm cynghorir bod unrhyw ddatrysiad digidol yn rhy ddrud ac mai hwn yw'r prif rwystr i ddatrysiad effeithiol o hyd.

Mae'r elfen hon o dderbyn polisiau corfforaethol yn parhau i gael ei gohirio, a bydd yn aros felly nes bydd datrysiad digidol a chost-effeithiol ar gael. Yn y cyfamser, mae'n bwysig nodi bod nifer o'r meysydd y mae'r polisïau yn y set craidd yn ymwneud â nhw hefyd wedi'u cynnwys o fewn rhaglenni anwytho a hyfforddi corfforaethol. Fodd bynnag, derbynnir nad yw hyn yn darparu'r un graddau o sicrwydd â'r Porth Polisi.

## 3.4 Staff sydd ddim yn cael eu cyflogi gan y Cyngor yn dechnegol

Mae gennym nifer o staff sy'n gweithio i asiantaethau, partneriaethau ayyb . Maent wedi'u cynnwys yn y grwpiau gwasanaeth awtomatig a ddefnyddir ar gyfer y Porth ond nid ydynt yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau cydymffurfiaeth gan nad ydynt yn 'weithwyr' y Cyngor yn dechnegol. Fodd bynnag, mae yna ddisgwyliad o hyd iddynt weithio'n unol â'n polisiau a'n gweithdrefnau, yn arbennig o ran diogelu data, diogelwch, cyfrinachedd ac ymddygiad. Felly, mae'r Awdurdod angen sicrwydd bod yr unigolion hyn yn ymwybodol ac yn cydymffurfio gyda'r polisiau corfforaethol canlynol:

- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Safonau / Polisi Iaith Gymraeg
- Polisi Diogelu Data
- Polisi Diogelwch TG
- Polisi Diogelu Corfforaethol
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Yr egwyddorion o fewn y Côd Ymddygiad i Swyddogion


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Darparwyd templed i'r gwasanaethau sy'n cynnwys datganiad i'w arwyddo gan staff sydd ddim yn weithwyr y Cyngor yn dechnegol, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisiau uchod ac yn cydymffurfio â nhw. Mae'r polisiau ar gael yn y Porth Polisi iddynt eu darllen ymlaen llaw ond mae cwblhau'r broses yn y Porth yn ddewisol.

## 4.0 Y camau nesaf

### 4.1 Y set craidd o bolisiau corfforaethol

Bydd y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth angen ei dderbyn yn fuan. Bydd y Polisi Diogelu Corfforaethol yn dilyn hyn – mae'r polisi yma wedi'i ail-raglennu o Fawrth 2021 er mwyn sicrhau ei fod yn ymgorffori Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 yn iddo gael ei ail-dderbyn.

Golyga hyn y bydd y naw polisi wedi'u cyflwyno i'w hail-dderbyn. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r UDA i gadarnhau a yw'r holl bolisïau craidd hyn i'w cadw fel rhan o'r broses dderbyn orfodol neu a yw rhai i gael eu disodli am y ddwy flynedd nesaf

### 4.2 Peilot ar gyfer rheolwyr

I gwblhau'r peilot, bydd y papur olaf – canllawiau ar ddynodi sgiliau iaith swyddi mewnol ac allanol – yn cael ei gyflwyno i'w dderbyn dros yr wythnosau i ddod.

### 4.3 Staff sydd heb fynediad at y Porth Polisi


Nid yw'n bosib cymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd. Hyd nes y bydd y sefyllfa'n newid, ni fydd hyn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor mwyach.

## 5.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sefyllfa gyfredol o ran derbyn polisiau corfforaethol ar draws y Cyngor


**9 Medi 2021**

| **1 – Safonau iaith Gymraeg** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad cychwyn: | 1 Medi 2020 | |
| Cyfanswm hyd at 11 Awst 2021: | 972 | |
| Cwblhawyd: | 959 | 99% |
| Heb gwblhau: | 13 | 1% |





| **Adnoddau** (101) | | |
|---|---|---|
| Cwblhawyd: | 99 | 98% |
| Heb gwblhau: | 2 | 2% |
| **Busnes y Cyngor** (32) | | |
| Cwblhawyd: | 32 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Dysgu** (52) | | |
| Cwblhawyd: | 52 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Gwasanaethau Oedolion** (147) | | |
| Cwblhawyd: | 142 | 97% |
| Heb gwblhau: | 5 | 3% |
| **Gwasanaethau Plant** (172) | | |
| Cwblhawyd: | 170 | 99% |
| Heb gwblhau: | 2 | 1% |
| **Prif Weithredwr** (3) | | |
| Cwblhawyd: | 3 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** (111) | | |
| Cwblhawyd: | 110 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** (136) | | |
| Cwblhawyd: | 135 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |
| **Tai** (143) | | |
| Cwblhawyd: | 141 | 98% |
| Heb gwblhau: | 2 | 2% |
| **Trawsnewid Corfforaethol** (75) | | |
| Cwblhawyd: | 75 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |

| **2 – Polisi Diogelu Data** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad cychwyn: | 2 Tachwedd 2020 | |
| Cyfanswm hyd at 11 Awst 2021: | 972 | |
| Cwblhawyd: | 954 | 98% |
| Heb gwblhau: | 18 | 2% |





| | | |
|---|---|---|
| **Adnoddau** (101) | | |
| Cwblhawyd: | 98 | 97% |
| Heb gwblhau: | 3 | 3% |
| **Busnes y Cyngor** (32) | | |
| Cwblhawyd: | 32 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Dysgu** (52) | | |
| Cwblhawyd: | 52 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Gwasanaethau Oedolion** (147) | | |
| Cwblhawyd: | 141 | 96% |
| Heb gwblhau: | 6 | 4% |
| **Gwasanaethau Plant** (172) | | |
| Cwblhawyd: | 169 | 98% |
| Heb gwblhau: | 3 | 2% |
| **Prif Weithredwr** (3) | | |
| Cwblhawyd: | 3 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** (111) | | |
| Cwblhawyd: | 110 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** (136) | | |
| Cwblhawyd: | 133 | 98% |
| Heb gwblhau: | 3 | 2% |
| **Tai** (143) | | |
| Cwblhawyd: | 141 | 98% |
| Heb gwblhau: | 2 | 2% |
| **Trawsnewid Corfforaethol** (75) | | |
| Cwblhawyd: | 75 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |

| **3 – Polisi Diogelwch TG** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad cychwyn: | 11 Ionawr 2021 | |
| Cyfanswm hyd at 11 Awst 2021: | 972 | |
| Cwblhawyd: | 941 | 97% |
| Heb gwblhau: | 31 | 3% |
|   | | |
| **Adnoddau** (101) | | |
| Cwblhawyd: | 98 | 97% |
| Heb gwblhau: | 3 | 3% |
| **Busnes y Cyngor** (32) | | |
| Cwblhawyd: | 32 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Dysgu** (52) | | |
| Cwblhawyd: | 50 | 96% |
| Heb gwblhau: | 2 | 4% |
| **Gwasanaethau Oedolion** (147) | | |
| Cwblhawyd: | 141 | 96% |
| Heb gwblhau: | 6 | 4% |
| **Gwasanaethau Plant** (172) | | |
| Cwblhawyd: | 169 | 98% |
| Heb gwblhau: | 3 | 2% |
| **Prif Weithredwr** (3) | | |
| Cwblhawyd: | 3 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** (111) | | |
| Cwblhawyd: | 109 | 98% |
| Heb gwblhau: | 2 | 2% |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** (136) | | |
| Cwblhawyd: | 131 | 96% |
| Heb gwblhau: | 5 | 4% |
| **Tai** (143) | | |
| Cwblhawyd: | 134 | 94% |
| Heb gwblhau: | 9 | 6% |
| **Trawsnewid Corfforaethol** (75) | | |
| Cwblhawyd: | 74 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| **4 – Côd Ymddygiad a Chanllawiau Lleol i Swyddogion** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad cychwyn: | 15 Mawrth 2021 | |
| Cyfanswm hyd at 11 Awst 2021: | 971 | |
| Cwblhawyd: | 926 | 95% |
| Heb gwblhau: | 45 | 5% |





| | | |
|---|---|---|
| **Adnoddau** (101) | | |
| Cwblhawyd: | 98 | 97% |
| Heb gwblhau: | 3 | 3% |
| **Dysgu** (32) | | |
| Cwblhawyd: | 32 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Learning** (52) | | |
| Cwblhawyd: | 51 | 98% |
| Heb gwblhau: | 1 | 2% |
| **Gwasanaethau Oedolion** (146) | | |
| Cwblhawyd: | 139 | 95% |
| Heb gwblhau: | 7 | 5% |
| **Gwasanaethau Plant** (172) | | |
| Cwblhawyd: | 161 | 94% |
| Heb gwblhau: | 11 | 6% |
| **Prif Weithredwr** (3) | | |
| Cwblhawyd: | 3 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** (111) | | |
| Cwblhawyd: | 107 | 96% |
| Heb gwblhau: | 4 | 4% |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** (136) | | |
| Cwblhawyd: | 129 | 95% |
| Heb gwblhau: | 7 | 5% |
| **Tai** (143) | | |
| Cwblhawyd: | 134 | 94% |
| Heb gwblhau: | 9 | 6% |
| **Trawsnewid Corfforaethol** (75) | | |
| Cwblhawyd: | 72 | 96% |
| Heb gwblhau: | 3 | 4% |

| **5 – Polisi a Chanllawiau Chwythu'r Chwiban** | | |
|---|---|---|
| Dyddiad cychwyn: | 24 Mai 2021 | |
| Cyfanswm hyd at 11 Awst 2021: | 968 | |
| Cwblhawyd: | 887 | 92% |
| Heb gwblhau: | 81 | 8% |




| | | |
|---|---|---|
| **Adnoddau** (101) | | |
| Cwblhawyd: | 95 | 94% |
| Heb gwblhau: | 6 | 6% |
| **Busnes y Cyngor** (31) | | |
| Cwblhawyd: | 31 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Dysgu** (52) | | |
| Cwblhawyd: | 48 | 92% |
| Heb gwblhau: | 4 | 8% |
| **Gwasanaethau Oedolion** (146) | | |
| Cwblhawyd: | 142 | 97% |
| Heb gwblhau: | 4 | 3% |
| **Gwasanaethau Plant** (172) | | |
| Cwblhawyd: | 160 | 93% |
| Heb gwblhau: | 12 | 7% |
| **Prif Weithredwr** (3) | | |
| Cwblhawyd: | 3 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** (109) | | |
| Cwblhawyd: | 102 | 94% |
| Heb gwblhau: | 7 | 6% |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** (136) | | |
| Cwblhawyd: | 129 | 95% |
| Heb gwblhau: | 7 | 5% |
| **Tai** (143) | | |
| Cwblhawyd: | 109 | 76% |
| Heb gwblhau: | 34 | 24% |
| **Trawsnewid Corfforaethol** (75) | | |
| Cwblhawyd: | 68 | 91% |
| Heb gwblhau: | 7 | 9% |


| **1 – Polisi Rheoli Absenoldeb** (Rheolwyr) | | |
|---|---|---|
| Dyddiad cychwyn: | 14 Medi 2020 | |
| Cyfanswm hyd at 13 Awst 2021: | 150 | |
| Cwblhawyd: | 149 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |




| **Adnoddau** (11) | | |
|---|---|---|
| Cwblhawyd: | 11 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Busnes y Cyngor** (7) | | |
| Cwblhawyd: | 7 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Dysgu** (7) | | |
| Cwblhawyd: | 7 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Gwasanaethau Oedolion** (14) | | |
| Cwblhawyd: | 14 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Gwasanaethau Plant** (9) | | |
| Cwblhawyd: | 9 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Prif Weithredwr** (2) | | |
| Cwblhawyd: | 2 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** (36) | | |
| Cwblhawyd: | 36 | 100% |
| Heb gwblhau: | | - |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** (38) | | |
| Cwblhawyd: | 37 | 97% |
| Heb gwblhau: | 1 | 3% |
| **Tai** (15) | | |
| Cwblhawyd: | 15 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Trawsnewid Corfforaethol** (11) | | |
| Cwblhawyd: | 11 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.


| **2 – Polisi Recriwtio a Dethol** (Rheolwyr) | | |
|---|---|---|
| Dyddiad cychwyn: | 24 Tachwedd 2020 | |
| Cyfanswm hyd at 13 Awst 2021: | 139 | |
| Cwblhawyd: | 138 | 99% |
| Heb gwblhau: | 1 | 1% |




| **Adnoddau** (11) | | |
|---|---|---|
| Cwblhawyd: | 11 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Busnes y Cyngor** (7) | | |
| Cwblhawyd: | 7 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Dysgu** (7) | | |
| Cwblhawyd: | 7 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Gwasanaethau Oedolion** (14) | | |
| Cwblhawyd: | 14 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Gwasanaethau Plant** (9) | | |
| Cwblhawyd: | 9 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Prif Weithredwr** (2) | | |
| Cwblhawyd: | 2 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** (25) | | |
| Cwblhawyd: | 25 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** (38) | | |
| Cwblhawyd: | 37 | 97% |
| Heb gwblhau: | 1 | 3% |
| **Tai** (15) | | |
| Cwblhawyd: | 15 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Trawsnewid Corfforaethol** (11) | | |
| Cwblhawyd: | 11 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| **3 – Canllawiau ar y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (Deddf Cydraddoldeb 2010)** (Rheolwyr) | | |
|---|---|---|
| Dyddiad cychwyn: | 9 Mehefin 2021 | |
| Cyfanswm hyd at 13 Awst 2021: | 93 | |
| Cwblhawyd: | 86 | 93% |
| Heb gwblhau: | 7 | 7% |




| | | |
|---|---|---|
| **Adnoddau** (8) | | |
| Cwblhawyd: | 8 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Busnes y Cyngor** (16) | | |
| Cwblhawyd: | 16 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Dysgu** (10) | | |
| Cwblhawyd: | 7 | 70% |
| Heb gwblhau: | 3 | 30% |
| **Gwasanaethau Oedolion** (4) | | |
| Cwblhawyd: | 4 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Gwasanaethau Plant** (5) | | |
| Cwblhawyd: | 5 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Prif Weithredwr** (2) | | |
| Cwblhawyd: | 2 | 100% |
| Heb gwblhau: | 0 | - |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** (16) | | |
| Completed: | 15 | 94% |
| Not completed: | 1 | 6% |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** (8) | | |
| Cwblhawyd: | 7 | 88% |
| Heb gwblhau: | 1 | 22% |
| **Tai** (15) | | |
| Cwblhawyd: | 13 | 87% |
| Heb gwblhau: | 2 | 13% |
| **Trawsnewid Corfforaethol** (9) | | |
| Completed: | 9 | 100% |
| Not completed: | 0 | - |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Y polisiau a gyflwynwyd i'w derbyn rhwng Ebrill 2017 a Mehefin 2018 fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 19 Medi 2018 (sef y sefyllfa hyd at fis **Gorffennaf 2018**):

1. Polisi Desg Glir
2. Polisi Rheoli Cofnodion
3. Polisi Dosbarthiadau Data
4. Polisi Rheoli Absenoldeb
5. **Polisi Offer Sgîn Arddangos**
6. **Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**
7. **Safonau Iaith Gymraeg**

Y polisiau a gyflwynwyd i'w derbyn rhwng Gorffennaf 2018 a Mehefin 2019 fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 3 Medi 2019 (sef y sefyllfa hyd at fis **Gorffennaf 2019**):

1. **Polisi Diogelu Data**
2. **Polisi Diogelwch TG**
3. Rheolau Gweithdrefn Ariannol
4. Polisi Defnydd Derbyniol o TG
5. **Polisi Diogelu Corfforaethol**
6. **Côd Ymddygiad i Swyddogion**
7. Polisi defnyddio Ebyst a Negeseuon Gwib
8. **Polisi Chwythu'r chwiban**

Y polisiau a gyflwynwyd i'w derbyn rhwng Gorffennaf 2019 a Gorffennaf 2020 fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 1 Medi 2020 (sef y sefyllfa hyd at fis **Gorffennaf 2020**):

1. **Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**
2. **Polisi Offer Sgrîn Arddangos**
3. **Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**

Mae'r polisiau yr amlygwyd mewn print bras uchod yn ffurfio'r set craidd o naw polisi, fel y'u pennwyd gan yr UDA ar 10 Mehefin 2019. Mae'r saith polisi sy'n weddill wedi dychwelyd i fod yn bolisiau 'er gwybodaeth yn unig' yn y Porth.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn cyhoeddi: Awst 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2442A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd gyfrannu at astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004, a/neu archwiliad a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os bydd cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Yr hyn yr edrychwyd arno a pham 4

Argymhelliad 5

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol ac ar hyn o bryd mae'n darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb gyfan, ond mae sawl her ariannol yn parhau i fodoli 6

Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi helpu gydag effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor 6

Mae cynyddu cyllidebau gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw wedi galluogi'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau o fewn y gyllideb gyfan, ond mae nifer o heriau ariannol yn parhau i fodoli 7

Mae strategaeth ariannol y Cyngor wedi adfer y gronfa gyffredinol i lefel darged, ond mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb, nid yw hyn yn gynaliadwy 8

Mae'r Cyngor wedi darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb yn 2019-20 ac yn 2020-21 ar ôl diffygion yn y ddwy flwyddyn flaenorol 10

Bydd canfod a chyflawni arbedion yn fwy heriol wrth symud ymlaen 11

Mae hylifedd y Cyngor ar ôl cyfnod o ddirywiad wedi sefydlogi'n ddiweddar 13

# Adroddiad cryno

## Yr hyn yr edrychwyd arno a pham

1 Cynhaliwyd yr asesiad hwn gan fod cynaliadwyedd ariannol yn parhau i fod yn risg wrth i gynghorau wneud trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd yr asesiad hwn ei lunio ar sail profiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o lai o adnoddau i lywodraeth leol ynghyd â'r galw cynyddol am rai gwasanaethau. Cynhaliwyd prosiect tebyg yn 2019-20, cyn pandemig COVID-19.

2 Roedd dau gam i'n hasesiad ar gyfer 2020-21 ar gynaliadwyedd ariannol cynghorau. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Yng Ngham 1 edrychwyd ar: y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 ar gyfer 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 cyhoeddwyd adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[1]. Gwelsom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond mae cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwys ar gyllid y sector cyhoeddus yn gyffredinol ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Mae'r adroddiad cryno yn gosod llinell sylfaen lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cronfeydd wrth gefn cynghorau lleol cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her ddisgwyliedig wrth symud ymlaen.

4 Daw'r adroddiad â cham 2 o'n gwaith asesu cynaliadwyedd ariannol i ben yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn paratoi adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru.

5 Cynhaliwyd yr asesiad hwn yn ystod Mawrth 2021.

[1] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

## Argymhelliad

**Arddangosyn 1: argymhelliad**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion |
| --- |
| **Strategaeth Rheoli Asedau**<br>A1 Mae angen diweddaru a chymeradwyo Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o’i sefyllfa ariannol ac ar hyn o bryd mae’n darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb gyfan, ond mae sawl her ariannol yn parhau i fodoli

### Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi helpu gydag effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor

6 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae hyn wedi'i liniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

7 Canfuwyd:

- bod y Cyngor wedi ystyried effaith ariannol y pandemig gydag adroddiad manwl i’r Pwyllgor Gwaith ar 13 Gorffennaf 2020 ‘Effaith Ariannol Pandemig COVID-19’ gan ystyried yr effaith yn 2020-21 a’r effeithiau ar y tymor canolig.
- bydd y Cyngor yn wynebu tua £6.2 miliwn o wariant ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19 a £2.4 miliwn o incwm yn ystod 2020-21.
- mae'r Cyngor wedi mynd i £0.1 miliwn o wariant ychwanegol a cholli incwm nad yw wedi'i gwmpasu gan gyllid ychwanegol.
- mae’r Cyngor yn rhagdybio y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddigolledu costau ychwanegol ac incwm a gollwyd yn y flwyddyn ariannol nesaf.
- mae’r Cyngor wedi rhagdybio nad oes unrhyw newid yn y galw am wasanaethau na lleihad mewn gweithgareddau cynhyrchu incwm wrth bennu ei Strategaeth a’i Gyllideb Ariannol Tymor Canolig sy'n deillio o ddelio â'r pandemig.

**Arddangosyn 2: cost COVID-19 i’r Cyngor yn ystod 2020-21**

Mae'r tabl isod yn dangos gwariant ychwanegol a y Cyngor ac incwm a gollwyd yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19 a faint o hyn a gafodd ei liniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol bydd y Cyngor wedi'i wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £6.2 miliwn |

| | |
|---|---|
| Yr incwm bydd y Cyngor wedi'i golli o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £2.4 miliwn |
| Y cyllid ychwanegol bydd Cyngor yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19. | £8.5 miliwn |
| Cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21 ar ôl i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru gael ei ystyried. | £0.1 miliwn |
| Arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu am 'arbedion nas cyflawnwyd' a 'thrawsnewid digidol'. | £1.3 miliwn |

## Mae cynyddu cyllidebau gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw wedi galluogi'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau o fewn y gyllideb gyfan, ond mae nifer o heriau ariannol yn parhau i fodoli

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

8 Mae strategaeth ariannol glir a chadarn yn bwysig er mwyn nodi lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â'r lefel ddisgwyliedig o alw am ddarparu gwasanaethau a'r gost o'u darparu. O ystyried y pwysau ariannol diweddar a disgwyliedig sy'n wynebu pob cyngor, mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y byddant yn bodloni'r bylchau ariannol a ragwelir.

9 Canfuwyd:


- bod y Cyngor wedi dyrannu adnoddau ychwanegol i gyllidebau ar gyfer gwasanaethau â galw allweddol, fel rhan o bennu'r gyllideb yn 2019-20 a 2020-21.
- mae'r Cyngor yn defnyddio gwybodaeth am y galw am wasanaeth i ddyrannu adnoddau ychwanegol i wasanaethau.
- mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn rhagweld y bydd y gyllideb yn aros yn ei hunfan i roi bwlch cyllido cyn unrhyw gynnydd mewn Cyllid Allanol Cyfanredol a'r Dreth Gyngor. Mae'r Cyngor yn ei wynebu wrth amcangyfrif gydag unrhyw sicrwydd beth fydd lefelau Cyllid Allanol Agregau yn y dyfodol cyn cyhoeddi'r setliad drafft ym mis Rhagfyr. Mae'r arfer yn

arwain at gyflwyno bwlch ariannu cyfanredol sylweddol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

- mae gan y Cyngor, ynghyd â llawer o Gynghorau eraill yng Nghymru, fynediad cyfyngedig at gyllid cyfalaf sy'n lleihau ei allu i wneud buddsoddiad cyfalaf.

**Arddangosyn 3: mae gan y Cyngor gyfanswm bwlch cyllido rhagamcanol cyn newidiadau i Gyllid Allanol a Threth y Cyngor ar gyfer y tair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24 o £9.06 miliwn**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch ariannu cyn newidiadau i Gyllid Allanol Agregau a'r Dreth Gyngor y mae'r Cyngor wedi'u nodi ar gyfer y tair blynedd ddilynol.




## Mae strategaeth ariannol y Cyngor wedi adfer y gronfa gyffredinol i lefel darged, ond mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb, nid yw hyn yn gynaliadwy

### Pam fod rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy yn bwysig

10 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau ariannol annisgwyl, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy hefyd fod yn ffynhonnell ariannu bwysig i gefnogi cynlluniau 'buddsoddi i arbed' er mwyn lleihau'r gost barhaus o ddarparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddiffyg cynllunio wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb

refeniw, sy'n arwain at ostyngiad mewn balansau wrth gefn, yn lleihau eu gwydnwch i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd yn y dyfodol.

11 Canfuwyd:

- gostyngodd Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor yn sylweddol yn 2017-18 ac mae wedi aros tua £16 miliwn am y ddwy flynedd diwethaf, gan godi i £29.7 miliwn ar 31 Mawrth 2021.
- roedd gan y Cyngor £16 miliwn o arian wrth gefn y gellir ei ddefnyddio ar 31 Mawrth 2020, sef 11.6% o gostau net gwasanaethau.
- cynyddodd lefel y Cyngor o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i £29.7 miliwn erbyn diwedd 2020-21, sef 20.6% o gost net gwasanaethau .
- balans cronfeydd wrth gefn ysgolion cyfun y 46 Ysgol ynys Môn yw £197,000 ar 31 Mawrth 2020, ac mae'n cynnwys 33 o ysgolion gyda gwarged o £1.42 miliwn wedi'i wrthbwyso gan 13 ysgol sydd â diffyg £1.227 miliwn. Mae nifer yr ysgolion sydd â chydbwysedd diffyg wedi gwella'n fawr erbyn 31 Mawrth 2021 gydag un ysgol gynradd, un ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig mewn sefyllfa ddiffygiol erbyn diwedd y flwyddyn[2].
- defnyddiodd y Cyngor £300,000 o arian wrth gefn i ariannu cyllideb 2021-22 a oedd yn caniatáu ar gyfer gostyngiad o 0.75% yn y dreth gyngor. Nid yw ymrwymiadau llinell sylfaen cyllid o ffynonellau cyllido untro yn gynaliadwy ac mae’n arwain at bwysau cyllid heb ei ddatrys yng nghyllideb y blynyddoedd i ddod.

**Arddangosyn 4: cymharu lefel y cronfeydd wrth gefn â'r gyllideb flynyddol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos faint o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [3] | 136.1 | 138.3 | 140.9 | 143.7 | 137.7 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ Miliynau[4] | 23.8 | 16.4 | 15.3 | 16.0 | 29.7 |


[2] Datganiad Cyfrifon Drafft 2020/21

[3] Gwerth a ddefnyddir yw cost net y gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, llai unrhyw gost gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, yn ogystal â phreseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon

[4] Wrth gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd nad yw cynghorau’n cael eu hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i’w defnyddio at ddiben arall. Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel % o gost net gwasanaethau [5] | 17.5% | 11.9% | 10.8% | 11.1% | 21.6% |
| Cymharu â chynghorau eraill yng Nghymru | 13/22 | 15/22 | 15/22 | 14/22 | - |

**Arddangosyn 5: cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o Gost Net Gwasanaethau'r prif gynghorau yng Nghymru 2019-20**




| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| Uchaf yn y flwyddyn | 34.4% | 33.6% | 33.6% | 33.4% |
| Ynys Môn | 17.5% | 11.8% | 10.8% | 11.1% |
| Isaf yn y flwyddyn | 8.8% | 7.2% | 6.1% | 4.2% |

## Mae'r Cyngor wedi darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb yn 2019-20 a 2020-21 ar ôl diffygion yn y ddwy flwyddyn flaenorol

### Pam fod rhagweld gwariant yn gywir yn bwysig

12 Mae'n bwysig bod gorwario a thanwario yn cael eu cadw dan reolaeth a bod y gwariant gwirioneddol mor agos at y lefelau a gynlluniwyd â phosibl. Mae cyngor nad yw'n gallu rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn wynebu'r risg o greu pwysau ariannol annisgwyl a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb gytbwys. Gallai patrymau sylweddol o danwario leihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

13 Canfuwyd:

- bod gan y Cyngor ddiffyg cyffredinol yn y gyllideb yn 2017-18 a 2018-19 a gyllidwyd o Falans Cronfa'r Cyngor.
- mai'r galw o fewn Gwasanaethau Oedolion a Phlant oedd y rheswm mwyaf dros y diffyg, a chynyddodd y Cyngor gyllidebau ym maes Gwasanaethau Plant (2019-20) a Gwasanaethau Oedolion (2020-21).

[5] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

- cyflawnodd y Cyngor wasanaethau o fewn y gyllideb yn 2019-20 a 2020-21.

**Arddangosyn 6: cymharu lefel y gorwario/tanwario â chyfanswm y gyllideb refeniw net**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos faint o orwario neu danwario a fu ar gyllideb refeniw net gyffredinol y Cyngor ar gyfer y pedair blynedd diwethaf, a'r flwyddyn hyd yma fel ag yr oedd yn Monitro Cyllideb Refeniw chwarter 2, a adroddwyd gerbron y pwyllgor archwilio yn Nhachwedd 2020.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb refeniw Net Wreiddiol £ miliynau [6] | 124.0 | 126.2 | 130.9 | 135.2 | 142.1 |
| Alldro Refeniw Net Gwirioneddol [7] | 123.6 | 127.8 | 131.5 | 134.9 | 137.9 |
| Swm y gwarged/gorwariant cyffredinol [8] | -0.4 | 1.6 | 0.6 | -0.3 | -4.2 |
| Canran y gwahaniaeth o'r gyllideb refeniw net | -0.3% | 1.3% | 0.5% | -0.2% | -3.0% |

## Bydd canfod a chyflawni arbedion yn fwy heriol wrth symud ymlaen

### Pam fod y gallu i nodi a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

14 Mae'r gallu i nodi meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefndir o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chyflawnir cynlluniau arbedion, gall hyn arwain at orwariant sy'n golygu gorfod defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion sydd eu hangen yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle na chyflawnir cynlluniau arbedion a bod angen meysydd gwasanaeth i wneud arbedion nas cynlluniwyd, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na chaiff arbedion eu halinio â blaenoriaethau'r Cyngor, neu atebion 'tymor byr' nad ydynt yn gynaliadwy yn ystod y tymor canolig.

[6] Gwerth a ddefnyddir yw cost net y gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, llai unrhyw gost gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, yn ogystal â phreseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon.

[7] Wrth gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd nad yw cynghorau'n cael eu hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio at ddiben arall. Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon.

[8] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

15 Canfuwyd:

- bod y Cyngor wedi cyflawni 86% o’r arbedion arfaethedig yng nghyllideb 2019-20, £2.2 miliwn o £2.56 miliwn
- mae'r Cyngor wedi cyflawni 79% o'r arbedion arfaethedig yng nghyllideb 2020-21, £244,000 o £307,000gall methu â chyflawni arbedion gael yr effaith fwyaf pan fu meysydd arbedion unigol a gynlluniwyd o werth ariannol uchel, fel y digwyddodd yn y pedair blynedd flaenorol.
- mae’r Cyngor o’r farn, er nad oes llawer o gyfleoedd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd, y bydd yr angen i gyflawni swm sylweddol o arbedion yn gyflym i bob pwrpas yn golygu toriadau mewn gwasanaethau.

**Arddangosyn 7: arbedion sydd wedi cael eu darparu fel canran o’r arbedion a gynlluniwyd hyd 2020-21**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed o'i gynlluniau cynilo yn ystod 2016-17 i 2020-21 a faint o hyn a arbedodd mewn gwirionedd.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion cynlluniedig mewn £ miliynau [9] | 3.060 | 2.444 | 2.522 | 2.561 | 0.307 |
| Arbedion cynlluniedig a gyflawnwyd mewn £ miliynau [10] | 2.544 | 1.704 | 2.064 | 2.205 | 0.244 |
| Arbedion cynlluniedig nas cyflawnwyd mewn £ miliynau | 0.516 | 0.740 | 0.458 | 0.356 | 0.063 |
| Canran yr arbedion a gyflawnwyd | 83.1% | 69.7% | 81.8% | 86.1% | 79.5% |

[9] Gwerth a ddefnyddir yw cost net y gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, llai unrhyw gost gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, yn ogystal â phreseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad o gyfrifon.

[10] Wrth gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd nad yw cynghorau’n cael eu hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i’w defnyddio at ddiben arall. Ffynhonnell: Datganiad o gyfrifon.

# Mae hylifedd y Cyngor ar ôl cyfnod o ddirywiad wedi sefydlogi'n ddiweddar

## Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig

16 Pam fod mesur asedau cyfredol ar sail rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd) yn bwysig:

- dangosydd o sut mae cyngor yn rheoli ei gyllid tymor byr.
- tra y'i defnyddir yn gyffredin i archwilio a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau tymor byr. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd o sut mae cyngor yn rheoli ei gyllid tymor byr.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau yn eu lle i fodloni eu rhwymedigaethau.
- efallai bod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau tymor byr i dalu dyledion.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau presennol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

17 Canfuwyd:

- gostyngodd hylifedd Cyngor Ynys Môn o 1.8 i 1.0 dros y cyfnod 2016 i 2018 a'i adfer i 1.4 erbyn 31 Mawrth 2020, cododd eto i 1.8 erbyn 31 Mawrth 2021; ac
- nid yw'r Cyngor wedi rhagamcanu hylifedd dros 2021-22 a 2022-23.

**Arddangosyn 8: cymhareb cyfalaf gweithred rhwng 2015-16 a 2020-21**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | Amcangyfrif 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol [11] | 47.8 | 39 | 34.7 | 47.3 | 56.7 | 66.3 |
| Rhwymedigaethau Cyfredol [12] | 26.0 | 28.9 | 35.3 | 28.9 | 39.7 | 37.0 |
| Cymhareb Cyfalaf Gweithio | 1.8 | 1.4 | 1.0 | 1.6 | 1.4 | 1.8 |

Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon

[11] Asedau Cyfredol, yn cynnwys: Buddsoddiadau Tymor Byr; Asedau i'w gwerthu; Stocrestrau; Dyledwyr Tymor Byr; ac Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod.

[12] Rhwymedigaethau Cyfredol, yn cynnwys Benthyca Tymor Byr; Credydwyr Tymor Byr; a Darpariaethau sy'n ddyledus mewn blwyddyn.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.cymru
Gwefan: www.audit.wales

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Cynnydd Bargen Twf Gogledd Cymru – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2317A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth drin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg.

# Cynnwys

Mae gan BUEGC drefniadau llywodraethu clir a sefydledig ac fe'i cefnogir gan Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n datblygu, gallai ffactorau allanol effeithio ar yr uchelgeisiau a gynlluniwyd ac mae BUEGC yn addasu i ddarparu ar gyfer y rhain.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Mae gan BUEGC drefniadau llywodraethu clir a sefydledig ac fe'i cefnogir gan Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n datblygu, gallai ffactorau allanol effeithio ar yr uchelgeisiau a gynlluniwyd ac mae BUEGC yn addasu i ddarparu ar gyfer y rhain 7

- Mae partneriaid wedi cytuno ar uchelgeisiau ar gyfer economi Gogledd Cymru ac wedi sefydlu fframwaith llywodraethu clir, er nad yw pob elfen yn weithredol 7
- Mae'r BUEGC wedi sefydlu Swyddfa Rheoli Portffolio ag adnoddau da i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei uchelgeisiau; lle mae'n dod o hyd i fylchau mewn sgiliau, gwybodaeth neu allu, mae'n ddyfeisgar wrth wneud iawn am ddiffygion 10
- Mae llwyddiant y Fargen Twf yn dibynnu ar lawer o ffactorau allanol a allai newid uchelgeisiau a gynlluniwyd; mae BUEGC yn addasu i oresgyn yr heriau a'r risgiau hyn sy'n dod i'r amlwg 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) i gefnogi datblygiad economi'r rhanbarth. Mae wedi rhoi cryn bwyslais ar gyflawni Bargen Twf Gogledd Cymru yn llwyddiannus. Mae partneriaid yn ystyried y Fargen Twf fel cyfle i drawsnewid y rhanbarth a helpu i ail-gydbwyso economi Gogledd Cymru.

2 Nod Bargen Twf Gogledd Cymru yw:

- sicrhau twfeconomaidd cynhwysol;
- cynhyrchu £2.0 i £2.4 biliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros ychwanegol net erbyn 2036;
- creu rhwng 3,400 a 4,200 o swyddi ychwanegol net erbyn 2036; a
- cyflawni buddsoddiad cyfan o £1.15 biliwn yn Economi Gogledd Cymru drwy'r Fargen Twf. £240 miliwn o gyllid y Fargen Twf, £184 miliwn o arian cyhoeddus ehangach, £722 miliwn o fuddsoddiad yn y sector preifat.

3 Mae gan BUEGC gyllid sylweddol i'w reoli wrth iddo gyflawni'r Fargen Twf. Mae ganddo raglenni gwaith uchelgeisiol, mae yna gymhlethdodau o ran gweithio mewn partneriaeth ac mae effaith pandemig COVID-19 ar wasanaethau cyhoeddus a'r economi leol yn sylweddol. Ceisiodd yr adolygiad hwn asesu'r cynnydd a wnaed gan BUEGC ar ei daith i gefnogi datblygu economi'r rhanbarth a chyflawni Bargen Twf Gogledd Cymru.

4 Gwnaethom ganolbwyntio ein hadolygiad ar sut roedd BUEGC yn gwneud cynnydd wrth gyflawni'r rhaglen ynni carbon isel ac wrth wneud hynny archwiliwyd:

- trefniadau llywodraethu;
- cefnogaeth a ddarperir gan swyddfa rheoli'r rhaglen;
- effaith COVID-19 ar gyflawni wedi'i gynllunio; a
- dysgu ar y cyd ar gyfer yr uchelgais yn gyffredinol.

Ceisiodd yr adolygiad ateb y cwestiwn: Wrth gyflawni ei nodau cyffredinol, a yw BUEGC yn barod ac yn gallu addasu i gwrdd â'r amgylchiadau economaidd sy'n newid?

5 Canfuom fod gan BUEGC drefniadau llywodraethu clir a sefydledig a'i fod yn cael ei gefnogi gan Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n datblygu, gallai ffactorau allanol effeithio ar yr uchelgeisiau a gynlluniwyd ac mae BUEGC yn addasu i ddarparu ar gyfer y rhain. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae partneriaid wedi cytuno ar uchelgeisiau ar gyfer economi Gogledd Cymru ac wedi sefydlu fframwaith llywodraethu clir, er nad yw pob elfen yn weithredol;
- mae BUEGC wedi sefydlu Swyddfa Rheoli Portffolio ag adnoddau da i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei uchelgeisiau; lle mae'n dod o hyd i fylchau mewn sgiliau, gwybodaeth neu allu, mae'n ddyfeisgar wrth wneud iawn am ddiffygion; ac

- mae llwyddiant y Fargen Twf yn dibynnu ar lawer o ffactorau allanol a allai newid uchelgeisiau a gynlluniwyd: mae BUEGC yn addasu i oresgyn yr heriau a'r risgiau hyn sy'n dod i'r amlwg.

# Cynigion ar gyfer gwella

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella**

**Arddangosyn 1** crynodeb: Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion ar gyfer ffyrdd y gallai'r cynghorau trwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wella eu gallu i gyflawni eu nodau cyffredinol.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| P1 | Dylai cynghorau Gogledd Cymru, trwy BUEGC, ddatblygu strategaeth rheoli risg a datblygu cofrestr risg sy'n cynnwys ystyried risgiau newydd i brosiectau a gyflwynir gan amgylchiadau allanol fel Brexit, COVID-19 a phwysau eraill ar yr economi leol. |
| P2 | Dylai cynghorau Gogledd Cymru, trwy BUEGC, ehangu eu cysylltiadau â'r gymuned fusnes i gynyddu'r cyfleoedd i gefnogi cyflawni eu hamcanion. |
| P3 | Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn adlewyrchu'r angen i gynnal tryloywder a gwerthoedd y sector cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau wrth weithredu mewn amgylchedd busnes sy’n gystadleuol a masnachol iawn. |
| P4 | Sefydlu craffu ffurfiol, amserol ar BUEGC sy'n sicrhau tryloywder cyhoeddus ac yn rhoi gwybodaeth i gynghorau noddi am yr hyn sy’n digwydd. |
| P5 | Datblygu cytundebau sy'n nodi'n glir y gefnogaeth a ddarperir i'r Swyddfa Rheoli Portffolio (SRhP) gan Gyngor Gwynedd megis llywodraethu, adnoddau dynol a chyllid. |

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| P6 | Wrth adolygu dichonoldeb prosiectau unigol, diffinio sut mae pob un yn cyfrannu at gyflawni saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan BUEGC drefniadau llywodraethu clir a sefydledig ac fe'i cefnogir gan Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n datblygu, gall ffactorau allanol effeithio ar yr uchelgeisiau a gynlluniwyd ac mae BUEGC yn addasu i ddarparu ar gyfer y rhain

### Mae partneriaid wedi cytuno ar uchelgeisiau ar gyfer economi Gogledd Cymru ac wedi sefydlu fframwaith llywodraethu clir er nad yw pob elfen yn weithredol

#### Nodau strategol lefel uchel ac ymrwymiadau cyllido

6 Yn 2016 mabwysiadodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC)[1] **Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru**. Mabwysiadwyd y Weledigaeth honno wedi hynny gan bob un o chwe chyngor Gogledd Cymru. Yn seiliedig ar Strategaeth Y Weledigaeth Twf, paratowyd a chytunwyd ar gynnig Bargen Twf gan yr holl bartneriaid, gan weithio gyda Llywodraethau'r DU a Chymru a'r sector preifat ym mis Hydref 2018. Ym mis Tachwedd 2019, cytunodd BUEGC a Llywodraethau Cymru a'r DU ar Benawdau'r Telerau[2], a chwblhawyd Cytundeb y Fargen Derfynol ym mis Rhagfyr 2020.

7 Nod y Fargen Twf yw adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng Ngogledd Cymru, gan adeiladu ar ei chryfderau i hybu cynhyrchiant wrth ymdrin â heriau tymor hir a rhwystrau economaidd i sicrhau twf cynhwysol. Dull BUEGC yw hyrwyddo twf mewn modd graddadwy, cynhwysol a chynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Fargen Twf yn seiliedig ar gyflawni 14 o brosiectau trawsnewidiol ar draws pum rhaglen. Diffiniwyd y rhaglenni fel naill ai rhaglenni twf uchel neu raglenni galluogi.

8 Y Weledigaeth yw datblygu 'rhanbarth hyderus, gydlynol gyda thwf economaidd cynaliadwy, gan fanteisio ar lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a chysylltiad BUEGC ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon. Sefydlwyd y Weledigaeth Twf ar dair egwyddor allweddol ar gyfer Gogledd Cymru:

[1] Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) yn Gyd-bwyllgor sy'n cynnwys y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam y ddau goleg (Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai), dwy brifysgol (Bangor a Wrecsam) a'r sector preifat.

[2] Mae penawdau'r telerau yn tystio i fwriad difrifol ac mae ganddynt rym moesol, ond nid ydynt yn gorfodi'r partïon yn gyfreithiol i ddod â'r fargen i ben ar y telerau hynny neu hyd yn oed o gwbl.

- Clyfar - gyda ffocws ar arloesi a sectorau economaidd gwerth uchel i hyrwyddo perfformiad economaidd;
- Gwydn - gyda ffocws ar gadw pobl ifanc, cynyddu lefelau cyflogaeth a sgiliau i sicrhau twf cynhwysol; a
- Cysylltiedig - gyda ffocws ar wella trafnidiaeth a seilwaith digidol i wella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac oddi mewn iddo.

9 Mae BUEGC wedi ceisio sicrhau bod ei waith yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. O ran y pum ffordd o weithio, mae ei raglen yn un tymor hir o ran ei natur, mae yna weithio mewn partneriaeth sy'n dangos bod cydweithredu a phrosiectau yn glir ynghylch eu heffaith arfaethedig a'r hyn y maen nhw'n ceisio'i atal. Wrth i gynllunio prosiectau barhau i ddatblygu mae mwy o le i integreiddio ar draws y rhanbarth ac i gymryd rhan yn eu ffurfio a'u cyflawni.

10 Yng Nghyllideb yr Hydref 2018, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys ar y pryd £120 miliwn mewn cyllid cyfalaf ar gyfer Bargen Twf Gogledd Cymru. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cyfateb cyfraniad ariannol Llywodraeth y DU tuag at Fargen Twf Gogledd Cymru, gan sicrhau ymrwymiad am £240 miliwn fel cyfraniad grant mewn cyllid cyfalaf gan lywodraethau.

11 Mae'r Fargen Twf yn ceisio sicrhau cyfanswm buddsoddiad o hyd at £1.1 biliwn yn economi Gogledd Cymru gan gynnwys y £240 miliwn o'r Fargen Twf, i greu rhwng 3,400 a 4,200 o swyddi ychwanegol net a chynhyrchu rhwng £2 biliwn a £2.4 biliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros[3].

12 Mae partneriaid yn cydnabod bod y weledigaeth wedi'i nodi'n wreiddiol yn 2016 a bydd yr economi leol a demograffeg wedi newid, yn enwedig oherwydd effaith pandemig COVID-19. O ganlyniad, maent yn bwriadu adnewyddu'r weledigaeth i adlewyrchu'r sefyllfa economaidd bresennol.

13 Wrth gytuno i weithio gyda'i gilydd yng Ngogledd Cymru i gyflawni gweledigaeth a rennir, mae partneriaid wedi rhoi unrhyw wahaniaethau gwleidyddol posibl o'r neilltu, er mwyn sicrhau eu bod yn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i'r rhanbarth cyfan. Mae hwn yn brosiect tymor hir ac mae partneriaid wedi cytuno ar egwyddorion y gobeithiant fydd yn arwain at weld cyflawni'r Fargen Twf. Bydd yn parhau i fod mewn grym ac effaith lawn nes bydd y partïon i gyd wedi tynnu'n ôl, neu pan fydd yr holl bartïon yn cytuno i derfynu'r cytundeb. Mae ei 'gyfnod cloi i mewn' fel y'i gelwir yn gytundeb na chaiff unrhyw barti weithredu'r darpariaethau tynnu'n ôl am chwe blynedd gyntaf y cytundeb llywodraethu. Mae'n bosibl tynnu'n ôl ar ôl y cyfnod hwn ar ôl rhoi rhybudd, ond bydd yn ofynnol i unrhyw bartner sy'n dymuno tynnu'n ôl indemnio'r partneriaid sy'n weddill yn erbyn effaith ariannol y tynnu'n ôl hwnnw ac yn benodol unrhyw ymrwymiadau cytundebol presennol a pharhaus.

[3]Gwerth ychwanegol gros yw'r mesur o werth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn ardal, diwydiant neu sector o economi.

## Trefniadau llywodraethu

14 Mae BUEGC wedi'i hen sefydlu ac yn gweithredu fel y Grŵp Noddi a'r Corff Gwneud Penderfyniadau. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ystyried a chymeradwyo achosion busnes prosiectau yn y portffolio ac mae ganddo gyfrifoldeb am gyflawni'r hyn a ddirprwyir i'r byrddau rhaglenni a phrosiectau perthnasol. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn fisol fel arfer ac mae'n cynnwys arweinwyr cynghorau a phrif weithredwyr, ymgynghorwyr o'r colegau, prifysgolion a'r Bwrdd Cyflenwi Busnes, swyddogion o Gyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya a'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Dim ond y chwe arweinydd cyngor sy'n cynrychioli eu cynghorau priodol sydd â hawliau pleidleisio.

15 Mae BUEGC wedi canolbwyntio ar gyflawni'r Fargen Twf ac yn benodol sicrhau cyllid y llywodraeth fel blaenoriaeth. Ar ôl sicrhau'r cyllid hwn, bydd y Bwrdd yn canolbwyntio mwy ar gyflawni'r rhaglenni a phrosiectau a'i nodau a'i weledigaeth ehangach ynghylch bod yn graff, yn gydnerth ac yn gysylltiedig.

16 Mae BUEGC wedi sefydlu Grŵp Cymorth Gweithredol (Bwrdd Portffolio) sef y corff cynghori i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd. Mae'n gweithredu fel y Bwrdd Portffolio ar gyfer y Fargen Twf ac mae'n cynnwys uwch swyddogion o bob un o sefydliadau partner y Bwrdd Uchelgais Economaidd. Mae'r grŵp hwn yn chwarae rhan ganolog wrth gynghori BUEGC wrth iddo ddatblygu a chyflawni prosiectau'r Fargen Twf.

## Diwylliannau a threfniadau gweithio

17 Mae cyflwyno'r Fargen Twf yn dwyn ynghyd ddiwylliannau a threfniadau llywodraethu gwahanol iawn. Mae'r cynghorau'n cael eu llywodraethu gan eu cyfansoddiadau a'u pwerau dirprwyedig ac maent yn atebol i'r etholwyr. Mae partneriaid addysg uwch yn gweithredu o fewn eu cyfansoddiadau, siarteri a statudau, ac mae partneriaid busnes yn atebol i fyrddau a chyfranddalwyr. Wrth i'r broses o gyflawni'r Fargen Twf fynd yn ei blaen, bydd angen i bartneriaid sicrhau cymysgedd dda o wneud penderfyniadau yn gyflym tra eu bod ar yr un pryd yn cadw at strwythurau llywodraethu sydd wedi'u cynllunio i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus a thryloywder wrth ddefnyddio arian cyhoeddus. Ar hyn o bryd nid yw'n eglur sut y bydd BUEGC a gefnogir gan y Swyddfa Rheoli Portffolio yn bodloni gofynion y gwahanol ddiwylliannau hyn.

18 Rhaid i swyddogion a chynghorwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth sicrhau bod eu sefydliadau noddi yn cael eu hysbysu'n llawn am benderfyniadau allweddol a, lle bo angen, y gofynnir am gymeradwyaeth. Wrth i'r Fargen Twf nesu at gael ei chymeradwyo, buom yn arsylwi cynghorau wrth iddynt drafod a chymeradwyo'r cynnig terfynol. Mynegodd arweinwyr y materion pwysig yn ymwneud â'r cynnig yn glir a buont yn siarad â brwdfrydedd ynghylch y rhagolygon ar gyfer y rhanbarth.

19 Yn ystod camau cynharach y gwaith, rydym yn deall bod Arweinwyr wedi briffio Aelodau'r Cabinet neu'r Weithrediaeth a chredwn fod grwpiau'r gwrthbleidiau'n cael eu hysbysu trwy sesiynau briffio'r cynghorwyr. Er ei bod yn gadarnhaol bod pob cynghorydd yn wybodus am yr hyn sy'n digwydd, bod gan aelodau'r cyhoedd

fynediad at adroddiadau trwy wefan Cyngor Gwynedd, a bod pwyllgorau craffu wedi ystyried y cais a'r fargen, bydd yn dal i fod angen ffurfioli trefniadau craffu parhaus.

20 Bydd cyflwyno'r Fargen Twf yn cael ei gefnogi gan bum Bwrdd Rhaglen; un ar gyfer pob un o'r rhaglenni y cytunwyd arnynt fel a ganlyn:

- arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel;
- bwyd-amaeth a thwristiaeth;
- tir ac eiddo;
- digidol; ac
- ynni carbon isel.

Mae gan aelod o'r Grŵp Cymorth Gweithredol rôl Uwch Berchennog Cyfrifol ar gyfer pob un o'r rhaglenni ac mae'n arwain y Byrddau Rhaglenni perthnasol. Ar adeg ein hadolygiad, roedd Byrddau'r Rhaglenni ar wahanol gamau yn eu datblygiad gyda'r Bwrdd Rhaglen Ynni Carbon Isel wedi datblygu fwyaf. Gwnaethom arsylwi cyfarfod Ionawr 2021 o gyfarfod Bwrdd y Rhaglen Ynni Carbon Isel a ddangosodd ffocws clir ar gyflawni a dull datblygol o reoli'r prosiectau o fewn y rhaglen, megis datblygu buddion, gwireddu ac achosion busnes.

21 Nod BUEGC yw y bydd pob prosiect yn y Fargen Twf yn cael ei reoli trwy 14 bwrdd prosiect. Bydd gan bob un Uwch Berchennog Cyfrifol, rheolwr prosiect a noddwr prosiect wedi'u dyrannu iddo. Bydd y byrddau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni'r achosion busnes y cytunwyd arnynt, a fydd yn canolbwyntio ar ddarparu allbynnau penodol. Bydd prosiectau'n adrodd drwodd i'r Bwrdd Rhaglen perthnasol. Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd cylch gorchwyl ar gyfer Byrddau Prosiect wedi'i gytuno.

22 Er bod y rhan fwyaf o brosiectau yng nghamau cynnar eu datblygiad, gwnaethom geisio nodi a oedd cyd-ddibyniaethau rhwng y prosiectau yn cael eu rheoli'n effeithiol. Rydym yn deall bod prosiectau wedi'u sefydlu yn gyntaf ac yna wedi eu grwpio gyda'i gilydd i ffurfio'r rhaglenni. Nid yw'r rhain yn rhaglenni gyda phrosiectau rhyngddibynnol; yn hytrach maent yn gasgliad o brosiectau unigol a fydd, os byddant yn llwyddiannus, yn helpu i gyflawni canlyniadau'r rhaglen.

## Mae BUEGC wedi sefydlu Swyddfa Rheoli Portffolio ag adnoddau da i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei uchelgeisiau; lle mae'n dod o hyd i fylchau mewn sgiliau, gwybodaeth neu allu, mae'n ddyfeisgar wrth wneud iawn am ddiffygion

### Y Swyddfa Rheoli Portffolio

23 I ddechrau, mae rhwydweithiau proffesiynol wedi cyflawni eu swyddogaethau fel cynllunwyr ac uwch swyddogion o holl gynghorau Gogledd Cymru a phartneriaid eraill wrth sefydlu'r Fargen Twf. Roedd y mewnbwn proffesiynol hwn yn llywio'r

gwaith o ddatblygu prosiectau'r Fargen Twf, y weledigaeth ranbarthol a'r strwythurau llywodraethu sydd bellach wedi'u sefydlu. Mae'r cymorth proffesiynol hwn yn parhau.

24 Sefydlodd BUEGC Swyddfa Rheoli Portffolio i symud ymlaen gyda datblygu a chyflawni'r Weledigaeth Twf a'r Fargen Twf. Yn ystod 2020-21, aeth y broses recriwtio i swyddi allweddol fel rheolwyr rhaglenni a phrosiectau a swyddi cymorth ymlaen, ac ym mis Ionawr 2021 parhaodd y gwaith recriwtio.

25 Mae gan y Swyddfa Rheoli Portffolio gyllideb o £1,673,690 yn 2020-21 wedi'i ariannu gan gynghorau, prifysgolion, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, grant Bil Trafnidiaeth Cymru a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Yn 2020-21, mae BUEGC yn rhagweld tanwariant o £78,000.

26 Mae Cyngor Gwynedd yn 'lletya' y Swyddfa Rheoli Portffolio trwy ddarparu llywodraethu, cyflogi staff Swyddfa Rheoli Portffolio, adnoddau dynol a chyngor / gwasanaethau ariannol. Mae hyn yn galluogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio i ddefnyddio gwasanaethau a chefnogaeth broffesiynol heb orfod talu costau seilwaith ychwanegol diangen. Mae’r trefniant hwn wedi datblygu dros amser ac nid yw wedi’i ategu eto gan gytundeb lefel gwasanaeth a fyddai’n ffurfioli'r berthynas rhwng y Swyddfa Rheoli Portffolio a Chyngor Gwynedd.

27 Lle mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi bod angen capasiti ychwanegol ynghylch cymorth arbenigol neu ychwanegol, mae wedi comisiynu hyn gan y sector preifat. Er enghraifft, yn ddiweddar comisiynodd waith yn ymwneud â thwristiaeth, asesiad effaith a dadansoddiad sefyllfaol.

28 Lle mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi nodi bylchau yn ei sgiliau a'i gwybodaeth ei hun, mae wedi comisiynu hyfforddiant penodol. Er enghraifft, comisiynwyd staff Llywodraeth Cymru i ddarparu hyfforddiant ar ddrafftio ac adolygu cynlluniau busnes.

29 Mae gan y Swyddfa Rheoli Portffolio berthnasoedd datblygedig gyda staff o gynghorau Gogledd Cymru sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau adfywio craidd a datblygu economaidd ac mae wedi ymgysylltu'n dda â nhw trwy Grŵp Adferiad Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n gysylltiedig â COVID-19. Bu'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cadeirio ac yn gweinyddu'r cyfarfodydd hyn, gan ddod â'r adnoddau rhanbarthol gwerthfawr hyn at ei gilydd. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio eisoes wedi dod yn ffynhonnell wybodaeth ranbarthol werthfawr ynghylch adfywio a datblygu economaidd oherwydd ei sgiliau, ei gwybodaeth a'i gwybodaeth leol ond bydd angen iddi fod yn glir dros amser ynghylch y gwahaniaeth rhwng ei rôl wrth gyflawni'r Fargen Twf a gweledigaeth a swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd cynghorau unigol.

30 Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cydnabod bod ganddi waith pellach i'w wneud. Mae'n bwriadu:

- datblygu gwefan BUEGC;
- datblygu strategaeth cronfeydd wrth gefn; a
- nodi ei chynllun ariannol tymor canolig.

## Dysgu oddi wrth eraill ac ymgysylltu â nhw

31 Mae Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam yn aelodau o Gynghrair Merswy Dyfrdwy (MDA). Nod Cynghrair Merswy Dyfrdwy yw gwella proffil a hunaniaeth rhanbarth y ffin rhwng Gogledd Cymru / y Gogledd Orllewin. Mae ymgysylltu â Chynghrair Merswy Dyfrdwy yn rhoi persbectif allanol i BUEGC ac yn ei helpu i edrych o amgylch y ffiniau am gyfleoedd ehangach wrth gyflawni ei weledigaeth economaidd.

32 Mae'r Strategaeth Caffael Ddrafft yn nodi ymrwymiad i fod yn arloesol yn ei ddull o sicrhau'r gwerth cymdeithasol mwyaf posibl gan weithio gyda phartneriaid, yn enwedig y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwytnwch cymunedol. Nid yw'r ymgysylltiad â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cychwyn eto.

33 Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn siarad yn rheolaidd â phobl mewn rolau tebyg sy'n cefnogi mentrau a ariennir gan y llywodraeth ledled Cymru fel Bargen Dinas Caerdydd a Bargen Twf Canolbarth Cymru. Mae hyn yn darparu ffynhonnell wybodaeth werthfawr ac yn ei gwneud yn bosibl i rannu dysgu gwerthfawr.

34 Mae BUEGC a'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn parhau i gadw cysylltiad rheolaidd â Llywodraethau'r DU a Chymru ynghylch cyflwyno'r Fargen Twf, sy'n darparu her ac arweiniad rheolaidd.

## Cynlluniau i gyflawni'r Fargen Twf

35 Yn y pum rhaglen, mae yna 14 o brosiectau unigol fel a ganlyn:

**Arloesi mewn rhaglen weithgynhyrchu gwerth uchel**

- Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol
- Canolfan Menter, Peirianneg ac Opteg

**Rhaglen bwyd-amaeth a thwristiaeth**

- Rhwydwaith TALENT Twristiaeth
- Hwb Economi Wledig Glynllifon
- Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi

**Rhaglen tir ac eiddo**

- Porth Caergybi
- Tir ac Eiddo Rhanbarthol
  - Porth Wrecsam;
  - Parc Bryn Cegin; hen Ysbyty Gogledd Cymru;
  - Safleoedd Strategol Allweddol:
    - Bodelwyddan; a
    - Warren Hall

**Rhaglen ddigidol**

- Prosiect Cysylltedd Digidol

- Campysau Cysylltiedig;
- Coridorau Cysylltiedig;
- Canrannau’r ychydig sydd ar ôl; a
- Ffeibr llawn mewn safleoedd penodol

- Prosiect Canolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP)

**Rhaglen ynni carbon isel**

- Morlais
- Gorsaf Bŵer Trawsfynydd
- Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel
- Ynni Lleol Clyfar
- Datgarboneiddio Trafnidiaeth

36 Mae rhai o'r prosiectau yn y cam cysyniadau gyda thybiaethau ynghylch lefel cyllid y sector preifat y bydd ei angen i gefnogi’r gwaith o’u cyflawni. Gyda llofnodi cytundeb y Fargen Twf, mae BUEGC yn bwriadu ailedrych ar ei brosiect gwreiddiol a’r rhagdybiaethau cynllunio i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ymarferol cyn bwrw ymlaen gyda’r gwaith o’u cyflawni.

37 Ar ôl egluro'r rhagdybiaethau ar gyfer pob rhaglen a'r prosiectau sy'n eu cefnogi, bydd angen i BUEGC gymeradwyo achosion busnes ar gyfer pob un. Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar achosion busnes rhai prosiectau tra bod eraill yn parhau i fod yn y cyfnod datblygu cynnar. Ar ôl eu cymeradwyo, bydd achosion busnes yn paratoi'r ffordd ar gyfer caffael ac adolygiadau Porth pellach.

38 Wrth i brosiectau ddatblygu mae cyfle i ddiffinio sut mae pob un yn cyfrannu at gyflawni'r saith Nod Llesiant. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi cwblhau asesiadau effaith o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, y Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf yr Iaith Gymraeg yn erbyn ei bortffolio ac mae’n bwriadu cynnal asesiadau tebyg ar gyfer rhaglenni a phrosiectau.

## Mae llwyddiant y Fargen Twf yn dibynnu ar lawer o ffactorau allanol a allai newid uchelgeisiau a gynlluniwyd; mae BUEGC yn addasu i oresgyn yr heriau a'r risgiau hyn sy'n dod i'r amlwg

39 Mae'r dirwedd economaidd leol yng Nghymru wedi newid ers i BUEGC gymeradwyo rhaglenni a phrosiectau gwreiddiol y Fargen Twf. Mae effaith ffactorau allanol fel COVID-19 ar fusnes a chyflogaeth wedi bod yn ddigynsail a gellir asesu'r effaith ar yr economi leol yn well yn dilyn eglurder ynghylch cytundeb Brexit.

40 Mae rhaglen y Fargen Twf yn destun cyfres o adolygiadau Porth annibynnol Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru ar adegau penodol. Bydd rhyddhau cyllid y llywodraeth yn dibynnu ar i BUEGC gael sgôr gadarnhaol trwy gydol yr adolygiadau hyn. Ym mis Medi 2020, cynhaliwyd adolygiad o'r fath ac adroddodd y

tîm adolygu fod cyflawni'n llwyddiannus yn ymddangos yn ymarferol, ond roedd materion sylweddol yn gofyn am sylw rheolwyr a gyfrannodd at sgôr Ambr cyffredinol. Roedd yr adolygiad yn gadarnhaol o ran yr ethos rhanbarthol, y Swyddfa Rheoli Portffolio a chyfranogiad rhanddeiliaid. Ond nododd hefyd rai pryderon ynghylch rheoli buddion, rheoli risg, monitro, amserlenni a dichonoldeb rhai prosiectau. Mae risgiau'n sylweddol a byddem yn tynnu sylw at yr angen am strategaeth rheoli risg fel blaenoriaeth allweddol i BUEGC gyda Brexit, COVID-19 a dibyniaeth ar gyllid y sector preifat yn faterion a allai effeithio ar hyfywedd rhai prosiectau.

41 Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau'r adolygiad ac wedi hysbysu Llywodraeth Cymru a BUEGC pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd neu eisoes yn eu cymryd i ymdrin ag argymhellion yr adolygiad.

42 Mae cefnogaeth ac ymgysylltiad parhaus â'r sector busnes yn hanfodol i gyflawni'r Fargen Twf a'r weledigaeth ranbarthol. Roedd Cyngor Busnes Gogledd Cymru Merswy Dyfrdwy yn aelod sylfaenol o BUEGC ac mae wedi gweithio mewn cydweithrediad agos â phartneriaid a rhanddeiliaid rhanbarthol i lunio a dylanwadu ar y Fargen Twf. Ym mis Awst 2020, oherwydd heriau a achoswyd gan COVID-19, tynnodd y Cyngor Busnes ei aelodaeth o'r BUEGC yn ôl ond mae'n parhau i fod yn rhanddeiliad allweddol ac mae'n bwriadu bod yn bartner hanfodol, er yn fwy pell i ffwrdd, wrth symud ymlaen. Dros oes y Fargen Twf a chyflawni'r weledigaeth ranbarthol, bydd angen i bartneriaid, yn y sector cyhoeddus a phreifat, addasu eu hymglymiad â'r rhaglenni a'r prosiectau wrth i ffactorau allanol effeithio ar eu blaenoriaethau.

43 Er bod gan BUEGC lawer o gysylltiadau busnes sydd wedi'u hen sefydlu, mae'n bwysig ei fod yn ehangu'r rhwydwaith hwn. Mae'r Cyngor Busnes yn dod â phrofiad, gwybodaeth a chyfleoedd mawr eu hangen i lywio'r Fargen Twf ond mae'n anochel y bydd rhai bylchau gyda busnesau nad ydynt yn ymwybodol ar hyn o bryd o'r cyfleoedd posibl a roddir gan y Fargen Twf a sut i gyflawni'r weledigaeth y gallent gyfrannu ati.

44 Yn yr un modd â phawb arall, mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar BUEGC. Effeithiwyd ar economïau lleol ynghyd â ffyrdd o weithio. Mae BUEGC a'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi parhau i fod yn greadigol trwy ddefnyddio technoleg i gydymffurfio â chyfyngiadau cenedlaethol ond yn parhau i weithredu gyda synnwyr o 'fusnes fel arfer'. O'r herwydd, mae wedi cwrdd â therfynau amser pwysig ac wedi parhau i ddatblygu prosiectau lle roedd hynny'n bosibl.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales
Gwefan: www.audit.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

# Ymateb y rheolwyr

**Teitl yr adroddiad:** Adolygiad o Gynnydd Bargen Twf Gogledd Cymru – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB)

**Dyddiad cwblhau:** Mawrth 2021

**Cyfeirnod y ddogfen:** 2317A2021-22

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| P1 | **Rheoli risg**<br>• Dylai cynghorau'r Gogledd, drwy NWEAB, ddatblygu strategaeth rheoli risg a datblygu cofrestr risg sy'n cynnwys ystyried risgiau newydd i brosiectau a gyflwynir gan amgylchiadau allanol fel Brexit, COVID-19 a | Caiff risgiau eu hasesu, eu cofnodi a'u lliniaru. | Ydy | Mae Cofrestr Risg Portffolio wedi'i llunio a'i gweithredu bellach. Mae hyn yn dangos y risgiau cyffredinol i gyflawni portffolio'r Fargen Dwf. Adroddir ar y Gofrestr Risg Portffolio i NWEAB bob chwarter.<br>Yn ogystal, caiff cofrestrau risg rhaglenni eu datblygu a'u gweithredu ar gyfer y pum rhaglen ac wrth i fyrddau prosiect gael eu sefydlu bydd | Mae Cofrestr Risg Portffolio ar waith ers mis Hydref 2020. | Hedd Vaughan-Evans |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | phwysau eraill ar yr economi leol | | | yr un fformat ar gyfer rheoli risg yn cael ei weithredu. | | |
| **P2** | **Ymgysylltu â'r gymuned fusnes**<br>• Dylai cynghorau'r Gogledd, drwy NWEAB, ehangu eu cysylltiadau â'r gymuned fusnes er mwyn cynyddu cyfleoedd i gefnogi'r gwaith o gyflawni eu hamcanion. | Manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd drwy ymgysylltu â mwy o fusnesau | Ydy | Ar hyn o bryd mae'r Swyddfa Rheoli Prosiect yn gweithredu strategaeth gyfathrebu ehangach, wedi'i hategu gan ddylunio a lansio porth ar-lein newydd, gan weithio ar y cyd ag asiantaeth greadigol ddigidol Tinint.<br>Mae perthynas strategol hefyd ar waith â phartneriaid cyfathrebu h.y. Wythnos Cymru yn Llundain, | Parhaus | Alwen Williams<br>Nia Medi Williams<br>Erin Gwenlli Thomas |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Newyddion Busnes Cymru, ymgynghoriaeth Ateb Cymru.<br>Derbynnir y dylid ehangu cyfleoedd i ymgysylltu'n uniongyrchol â busnesau a bydd y strategaeth newydd yn cefnogi'r Swyddfa Rheoli Prosiect a'i phartneriaid i rannu negeseuon priodol a pherthnasol â chynulleidfaoedd allweddol mewn ffordd strategol wedi'i thargedu.<br>Yn ogystal, mae gan y Swyddfa Rheoli Prosiect swyddog caffael mewn swydd bellach. Mae'r Swyddfa Rheoli Prosiect yn bwriadu cynnal cyfleoedd amserol a rheolaidd i'r prynwr cyn yr | | |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ymarferion caffael ar raddfa fawr er mwyn ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi leol a'i hysbysu. | | |
| P3 | **Tryloywder**<br>• Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn adlewyrchu'r angen i gynnal tryloywder a gwerthoedd y sector cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau wrth weithredu yn yr amgylchedd busnes | Bydd penderfyniadau yn parhau i fod yn dryloyw wrth weithredu mewn amgylchedd busnes | Ydy | Cynhelir holl gyfarfodydd NWEAB yn unol â rheoliadau llywodraeth leol. Caiff yr holl benderfyniadau a wneir gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd eu cofnodi ac maent ar gael ar wefan yr awdurdod lletyol - https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistmeetings.aspx?cid=418&year=0<br>Mae polisi a phroses ar gyfer rheoli unrhyw wrthdaro | Parhaus | Iwan Evans (Swyddog Monitro)<br><br>a<br><br>Hedd Vaughan-Evans |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | cystadleuol a masnachol iawn. | | | buddiannau sy'n codi wedi'u rhoi ar waith bellach, sy'n cael eu cyflwyno ar draws y Bwrdd Uchelgais Economaidd, y Bwrdd Cyflawni Busnes, Byrddau Rhaglenni a Byrddau Prosiect.<br>Tryloywder yw un o'r Egwyddorion Caffael a fabwysiadwyd gan NWEAB ac mae'n nodwedd allweddol o'r holl weithgareddau caffael. | | |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **P4** | **Craffu**<br>• Sefydlu gwaith craffu ffurfiol ac amserol ar NWEAB sy'n darparu tryloywder cyhoeddus ac sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynghorau sy'n noddi. | Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn cael eu dwyn i gyfrif o fewn y bartneriaeth a gan eu sefydliad sy'n noddi | Ydy | Cyflwynwyd adroddiad Cynnydd chwarterol Ch4 yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ac maent yn cael eu trafod gan bwyllgorau craffu ym mhob un o'r Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd. Bydd adroddiadau cynnydd chwarterol yn cael eu cyflwyno wrth symud ymlaen, gydag ymrwymiad gan y Swyddfa Rheoli Prosiect i fynd i un pwyllgor craffu y flwyddyn pe bai'n ofynnol iddynt fynd gyda swyddogion awdurdodau lleol. Cyflwynir yr adroddiadau Chwarterol a Blynyddol i holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais | Cytunwyd yn rhan o Gytundeb Llywodraethu 2 ym mis Rhagfyr 2020. | Iwan Evans (Swyddog Monitro)<br><br>a<br><br>Hedd Vaughan-Evans |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Economaidd ac maent ar gael i'r cyhoedd. | | |
| P5 | **Trefniadau cymorth**<br>• Datblygu cytundebau sy'n nodi'n glir y cymorth a roddwyd i'r Swyddfa Rheoli Prosiect gan Gyngor Gwynedd megis llywodraethu, adnoddau dynol a chyllid. | Eglurder ynghylch pa gymorth sydd i'w ddarparu i osgoi anghytundeb posibl | Ydy | Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151. | Parhaus | Hedd Vaughan-Evans |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **P6** | Adolygiad o brosiectau<br>• Wrth adolygu dichonoldeb prosiectau unigol, diffinio sut y mae pob un yn cyfrannu at gyflawni saith Nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | Hyder bod prosiectau'n cadw at y rhaglen a'u bod yn bodloni gofynion deddfwriaethol | Ydy | Mae'r Swyddfa Rheoli Prosiect wedi sefydlu proses gadarn o sicrhau a chymeradwyo prosiectau gan gynnwys ystyriaeth drwy adolygiadau porth, byrddau prosiect, byrddau rhaglenni, bwrdd portffolio a NWEAB. Mae Asesiad Effaith yn cyd-fynd â phob achos busnes sy'n ystyried yr effaith ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Cydraddoldeb a'r Gymraeg.<br><br>Mae ein dull gweithredu wedi'i seilio ar nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ysgogi twf | Ebrill 2021 | Hedd Vaughan-Evans |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | economaidd cynhwysol i'r rhanbarth yn y ffordd iawn. | | |

This page is intentionally left blank

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Sir Ynys Môn – Cynllunio’r Gweithlu

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2486A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad manwl

Ar ôl profi heriau o ran y gweithlu yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, mae'r Cyngor bellach yn canolbwyntio'n fwy ar gynllunio'r gweithlu ac mae ganddo gyfleoedd pellach i wireddu manteision ar draws yr holl wasanaethau 4

Datblygodd y Cyngor Strategaeth y Gweithlu yn 2012 ond ni wnaeth ei wreiddio ar draws yr holl wasanaethau 4

Fe wnaeth y dull o gynllunio'r gweithlu a fabwysiadwyd gan Wasanaeth Plant a Theuluoedd y Cyngor ei helpu i ymateb i'r heriau o ran y gweithlu yr oedd yn eu hwynebu 4

Mae'r Cyngor bellach yn canolbwyntio'n fwy ar gynllunio'r gweithlu a thrwy gynnal y ffocws hwn gall wireddu mwy o fanteision ar draws yr holl wasanaethau 6

Argymhellion 9

# Adroddiad Manwl

## Ar ôl profi heriau o ran y gweithlu yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, mae'r Cyngor bellach yn canolbwyntio'n fwy ar gynllunio'r gweithlu ac mae ganddo gyfleoedd pellach i wireddu manteision ar draws yr holl wasanaethau

### Datblygodd y Cyngor Strategaeth y Gweithlu yn 2012 ond ni wnaeth ei wreiddio ar draws yr holl wasanaethau

1 Yn 2012, fe gymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Cynllunio'r Gweithlu a Rheoli Talent / Cynllunio ar gyfer Olyniaeth. Fe wnaeth y Cyngor secondio swyddog yn 2013-14 i ddatblygu'r dull ar gyfer cynllunio'r gweithlu ymhellach.

2 Er bod y Cyngor wedi creu strategaeth gyffredinol ar gyfer cynllunio'r gweithlu, nid oedd adrannau unigol wedi ffurfioli na chymeradwyo cynlluniau'r gweithlu na'u rhoi ar waith. Dywedodd swyddogion wrthym, er eu bod wedi trafod cynlluniau'r gweithlu mewn sgyrsiau gyda swyddogion cymorth Adnoddau Dynol, nad oedd unrhyw ddogfennau byw, ffurfiol yn eu lle.

3 Yn Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor 2014-15, daethom i'r casgliad canlynol: 'Nid yw dull y Cyngor o gynllunio a rheoli ei weithlu'n ddigon strategol i liniaru'r risgiau sylweddol i gapasiti a gallu yn y dyfodol.'

4 Ym mis Mawrth 2017, fe wnaeth adroddiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar ei hadolygiad o Wasanaeth Plant a Theuluoedd y Cyngor argymell y dylid mynd ati ar frys i ddatblygu strategaeth gadarn ar gyfer y gweithlu a honno'n cynnwys nodau tymor byr, canolig a hir ar gyfer recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol.

### Fe wnaeth y dull o gynllunio'r gweithlu a fabwysiadwyd gan Wasanaeth Plant a Theuluoedd y Cyngor ei helpu i ymateb i'r heriau o ran y gweithlu yr oedd yn eu hwynebu

5 Yn 2017, roedd y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn cael trafferth recriwtio a chadw gweithlu a oedd yn fedrus ac yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas. Canfu hefyd ei bod yn her recriwtio i swyddi â gofynion o ran y Gymraeg. Roedd gan y gwasanaeth lefelau absenoldeb uchel ac roedd yn ddibynnol ar staff asiantaeth byrdymor. Arweiniodd hyn at anghysonderau mewn ymarfer a phrosesau penderfynu. O ganlyniad, yn eu hadroddiad argymhellodd AGC fod y Gwasanaeth yn cynhyrchu cynllun cadarn ar gyfer y gweithlu.

6 Fe weithredodd y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a thîm Adnoddau Dynol y Cyngor gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r materion. Byddai'r cynllun yn cwmpasu'r maes gwasanaeth cyfan.

7 Wrth fynd i'r afael â'i faterion o ran y gweithlu fe wnaeth y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd:

- ddadansoddi ei weithlu cyfredol gan ddefnyddio metrigau data Adnoddau Dynol;
- ymchwilio i dueddiadau mewn data ynghylch perfformiad, megis nifer y plant sy'n derbyn gofal;
- adolygu'r amgylchedd ehangach i ddeall materion o ran y gweithlu a'r farchnad lafur ehangach;
- ailstrwythuro'r gwasanaeth i gyflwyno model gweithio newydd lle'r oedd Arweinwyr Ymarfer yn gyfrifol am Grwpiau Ymarfer i gryfhau goruchwyliaeth, cyfarwyddyd, a dysgu;
- cynyddu hyblygrwydd trwy gyflwyno swydd-ddisgrifiadau generig ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol i'w galluogi i symud yn rhwyddach rhwng timau mewn ymateb i newidiadau mewn llwythi achosion neu yng nghylchoedd gwaith timau;
- gweithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor i gefnogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol gyda lleoliadau; a
- chanolbwyntio ar 'dyfu ei dalent ei hun' trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddeiaethau i weithwyr cymdeithasol heb gymhwyso, gan gynnig cymwysterau trwy'r Brifysgol Agored y gallai pobl eu hennill wrth weithio.

8 O ganlyniad i'r gwaith yma, fe ostyngodd trosiant yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd 9% rhwng 2017 a 2020.

**Arddangosyn 1 : Trosiant staff y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd**

Y trosiant yng Ngwasanaeth Plant a Theuluoedd Ynys Môn ers 2017

| | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|
| Trosiant staff y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd | 20% | 18% | 13% | 11% |

9 Er bod ymateb y Cyngor yn adweithiol, mae'n amlwg bod y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd wedi gwella ei sefyllfa o ran y gweithlu. Pe bai'r Cyngor wedi rhoi'r dull o gynllunio'r gweithlu a oedd ganddo yn 2012 ar waith a/neu wedi cymryd sylw o sylwadau allanol mae'n bosibl y gallai fod wedi osgoi'r anawsterau a brofodd. Mae cynllunio'r gweithlu'n effeithiol yn adnabod anghenion newidiol mewn modd gweithredol i alluogi'r gwasanaeth i addasu'n rhagweithiol i'r galw.

10 Gan ddysgu o hyn, mae Cynllun Strategol y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd 2017-2020 yn canolbwyntio ar fod â 'gweithlu hyderus a chymwys â chapasiti digonol i ddarparu gwasanaeth cyson ac effeithiol'. Mae elfennau o gynllunio'r

gweithlu wedi'u cynnwys yn y strategaeth. Mae Strategaeth Gweithlu Gwasanaethau Plant a Theuluoedd 2019-2022 â ffocws y tu ôl i'r Cynllun Strategol. Mae'r ddogfen hon yn nodi materion cenedlaethol yn ymwneud â'r gweithlu yn y sector, yn esbonio'r tueddiadau a wynebir gan y Cyngor yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ac effaith y tueddiadau hynny ar y gweithlu ar gyfer y Cyngor. Mae hefyd yn disgrifio proffil y gweithlu ac yn nodi tair blaenoriaeth gweithlu ar gyfer y gwasanaeth, gyda chamau gweithredu ar gyfer y tymor byr (0-6 mis) y tymor canolig (6-12 mis) a'r tymor hwy (12-18 mis) gyda'u canlyniadau disgwyliedig cysylltiedig.

## Mae'r Cyngor bellach yn canolbwyntio'n fwy ar gynllunio'r gweithlu a thrwy gynnal y ffocws hwn gall wireddu mwy o fanteision ar draws yr holl wasanaethau

11 Yn dilyn llwyddiant y gwaith yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, mae'r Cyngor wedi parhau i wella prosesau cynllunio'r gweithlu ar draws y sefydliad. Fe gyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wersi allweddol ar gynllunio'r gweithlu i'r Uwch Dîm Arwain (UDA).

12 Fe ddiwygiodd y Cyngor Strategaeth Cynllunio'r Gweithlu yn 2019, ac fe ddiffiniodd ei weledigaeth fel, "Bod â'r bobl iawn, â'r sgiliau iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn". Mae'r Strategaeth yn cynnwys 'Dull Pum Cam o Gynllunio'r Gweithlu' sy'n adlewyrchu'r arfer da a nodwyd gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD):

- Diffinio'r cynllun;
- Deall y gweithlu cyfredol;
- Diffinio'r gweithlu gofynnol;
- Dadansoddi'r bylchau a chynllun gweithredu; a
- Gweithredu, monitro ac adolygu.

13 Mae Strategaeth Pobl y Cyngor 2020-24 yn cydnabod yr angen i, "sicrhau bod cynllunio'r gweithlu'n effeithiol yn rhan annatod o brosesau busnes y Cyngor". Mae Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor wedi gweithio gyda Phenaethiaid Gwasanaeth i adnabod pum blaenoriaeth allweddol ar gyfer cynllunio'r gweithlu. Rhaid i bob gwasanaeth:

- ffurfioli eu cynlluniau ar gyfer y gweithlu mewn dogfen ysgrifenedig;
- sicrhau aliniad rhwng anghenion staff a chynlluniau'r gweithlu a chreu cynlluniau datblygu staff;
- ystyried 'gwaed newydd' trwy ddefnyddio ystod o opsiynau recriwtio a chadw a ddarperir yn y rhaglen 'Denu Talent';
- adnabod y materion sy'n gwneud recriwtio'n anodd; a
- chreu diwylliant agored, hyblyg a symudol i roi cymorth i gynllunio adferiad a llunio ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

14 Mae strategaeth ‘Denu a Datblygu Talent 2021-2022’ y Cyngor yn dangos, ac yn amlygu, ymdrechion a wnaed i sicrhau “bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a gwireddu eu potensial hirdymor” trwy’r ystod o gyfleoedd a gweithgareddau recriwtio a gyflawnir gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol. Mae’n diffinio cyfres o gyfleoedd sy’n cwmpasu ystod eang o oedrannau, sgiliau, a galluoedd. Mae hefyd yn datgan y dylai rheoli talent gael ei integreiddio’n llawn â Phrosesau Cynllunio Busnes a chynllunio’r gweithlu yn ogystal â holl brosesau’r sefydliad sy’n gysylltiedig â chyflogeion.

15 Mae’r Cyngor yn cydnabod yr angen i roi mwy o ffocws ac ymrwymiad i gynllunio’r gweithlu yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ac ar draws y Cyngor. Fe wnaeth y cynghorwyr a’r swyddogion y siaradom ni gyda hwy fynegi ymrwymiad eglur i gyflawni gweledigaeth a blaenoriaethau strategol y Cyngor.

16 Ceir arwydd cadarnhaol bod cynllunio’r gweithlu bellach yn dod yn broses barhaus yn hytrach nag yn ddigwyddiad unigol. Mae swyddogion Adnoddau Dynol yn cwrdd yn chwarterol â Phenaethiaid Gwasanaeth i drafod materion y gweithlu. Yn y cyfarfodydd hyn, cytunir ar gamau gweithredu ac fe’u cofnodir ac yna fe’u hadolygir yn y cyfarfod dilynol.

17 Mae cyfle ar unwaith i Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion fanteisio ar waith cynllunio’r gweithlu sydd eisoes wedi cael ei gwblhau yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym ei fod yn bwriadu datblygu Strategaeth y Gweithlu a Chynllun Olyniaeth ar gyfer Gwasanaethau Oedolion. Byddai hyn yn darparu cysondeb ar draws y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol gyfan.

18 Mae’r Cyngor wedi’i chael yn fwyfwy anodd penodi staff proffesiynol â chymwysterau addas mewn sawl maes ar draws y Cyngor. Mae gan y Cyngor bellach fwy o allu i fynd ati’n rhagweithiol i ystyried risgiau i’r gweithlu sy’n dod i’r amlwg ar draws y Cyngor cyfan. Er enghraifft, dywedodd swyddogion wrthym fod rhannau o Wasanaeth Diogelu’r Cyhoedd ac Iechyd yr Amgylchedd yn wynebu risg bod eu gweithlu’n symud i sefydliadau eraill lle mae’r cyflogau’n fwy cystadleuol.

19 Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2021, cymeradwyodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor gyllideb o £250,000 i benodi rhwng wyth a deg hyfforddai a fyddai’n darparu cyfleoedd i bobl leol ddechrau gyrfa mewn llywodraeth leol ac yn helpu i fynd i’r afael â diffygion o ran sgiliau yn y dyfodol y mae’r Cyngor yn eu hwynebu.

20 Ar hyn o bryd mae’r broses o gynllunio’r gweithlu’n tueddu i gynnwys uwch reolwyr yn unig. Dylai’r Cyngor ystyried ffyrdd i fynd ati ymhellach i gynnwys a hyfforddi pob lefel o fewn y sefydliad yn y broses o gynllunio’r gweithlu a rhannu arfer da.

21 Mae’r Cyngor wedi nodi pwysigrwydd monitro ac adolygu cynlluniau’r gweithlu fel un o’r camau yn ei ddull pum cam. Dylai’r Cyngor ddylunio a gwreiddio prosesau gwerthuso clir ym mhob cam o’r broses i’w sicrhau ei hun ei fod yn ystyried ac yn ymateb i faterion sy’n ymwneud â chynllunio’r gweithlu a’r galw am wasanaethau mewn modd priodol ac felly’n rheoli ei risgiau’n effeithiol. Dywedodd y swyddogion y siaradom ni gyda hwy y dylai cynllunio’r gweithlu fod yn broses barhaus ac y

byddai cynlluniau'r gweithlu yn y dyfodol yn 'ddogfennau byw', yn cael eu diweddaru wrth iddynt gael eu hadolygu.

22 Hefyd, yn ystod 2020 fe ganolbwyntiodd y Cyngor ar wella ansawdd ei ddogfennau arfarniadau cyflogeion. Gan adeiladu ar adborth yr oedd eisoes wedi'i gael, cafodd dogfennau arfarnu diwygiedig y gwasanaeth Adnoddau Dynol eu treialu yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Darparodd yr ymgysylltu hwn gyfle i'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol lunio'r dogfennau a sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol. Mae'r dull hwn o gymorth i wella'r broses o gynllunio'r gweithlu. Er enghraifft, fel rhan o'r broses arfarnu, mae'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu gallu yn y Gymraeg. Mae'r ddogfen arfarnu newydd yn ei gwneud yn ofynnol cynnwys unrhyw hyfforddiant sy'n gysylltiedig â sgiliau Cymraeg yn yr adran anghenion hyfforddi. Bydd hyn yn cefnogi gwelliant o ran asesu gallu yn y Gymraeg ac yn gwella'r drefn ar gyfer cynllunio'r gweithlu trwy helpu i adnabod meysydd sy'n gryfder a gwendidau o ran darparu cyflogeion Cymraeg eu hiaith.

23 Yng ngwanwyn 2020, cafodd pandemig COVID-19 effaith ddigynsail ar y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i ymdrin â'r pandemig gan gynnal momentwm o ran darparu gwasanaethau allweddol. Fe wnaeth y pandemig amlygu materion o ran y gweithlu i'r Cyngor, megis argaeledd cyfyngedig staff asiantaeth Cymraeg eu hiaith, a'r angen i addasu contract cyflogaeth presennol staff i hwyluso adleoli yn ystod argyfwng.

24 Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno cyfleoedd i weithio'n wahanol hefyd, ac yn awr mae angen i'r Cyngor ystyried ei anghenion o ran y gweithlu yn y dyfodol. Wrth i'r Cyngor ail-lunio ei fusnes, mae ganddo gyfleoedd i fod yn uchelgeisiol a nodi sut allai gweithlu'r dyfodol edrych. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn ystyried y galw hirdymor am wasanaethau. Bydd proses wreiddiedig ar gyfer cynllunio'r gweithlu'n helpu holl wasanaethau'r Cyngor i nodi sut y mae'r dyfodol yn edrych.

# Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| **Rhoi cynllun y gweithlu ar waith** | |
| A1 | Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod cynlluniau adrannol ar gyfer y gweithlu'n cael eu ffurfioli, eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith ar draws yr holl wasanaethau. |
| **Sicrwydd bod Cynlluniau'r Gweithlu'n ddogfennau byw** | |
| A2 | Rhaid i'r Cyngor rhoi prosesau gwerthuso ar waith, gyda mesurau perfformiad, ar gyfer pob un o bum cam y broses cynllunio'r gweithlu i'w sicrhau ei hun ei fod yn ystyried ac ymateb yn rhagweithiol i faterion o ran y gweithlu a'r galw am wasanaethau yn briodol. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cllr Peter Rogers
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**Cyfeirnod:** DO21-04

**Dyddiad cyhoeddi:** 3 Mehefin 2021

Annwyl Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

# Adroddiadau ac Argymhellion Archwilio Cymru

Gobeithio eich bod yn cadw'n iach.

Efallai eich bod yn cofio bod rhai o staff Archwilio Cymru wedi dod i gyfarfod rhwydwaith cadeiryddion Pwyllgor Archwilio Cymru ddiwedd mis Tachwedd 2020 i sôn am y goblygiadau i bwyllgorau archwilio o ganlyniad i'r hyn a oedd bryd hynny y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Yn y sesiwn hon, fe wnaethom grybwyll yn fyr hefyd ein disgwyliad bod pwyllgorau archwilio yn mynd ati i ystyried ein hadroddiadau yn ymarferol. Diben y llythyr hwn yw egluro ac ehangu ar hyn.

Fel y gwyddoch, mae ein gwaith archwilio perfformiad yn cynnwys astudiaethau cenedlaethol, astudiaethau llywodraeth leol (fel ein hadroddiad diweddar am wasanaethau yn ôl disgresiwn), gwaith thematig (fel ein hasesiadau cynaliadwyedd ariannol) a gwaith sy'n fwy seiliedig ar risg yn lleol. Rydym yn ymgynghori â chyrff archwiliedig ynghylch pynciau posibl ar gyfer ein hastudiaethau llywodraeth genedlaethol a lleol, a phenderfynir ar ein gwaith lleol sy'n seiliedig ar risg drwy ein proses sicrhau ac asesu risg. Nodir ein rhaglen waith ar gyfer pob cyngor yn ein cynlluniau archwilio blynyddol.

Rydym wedi canfod bod dulliau cynghorau o ymdrin â'n hadroddiadau archwilio perfformiad, cynigion ar gyfer gwella ac argymhellion astudiaethau Llywodraeth Leol yn amrywio. Mae dulliau cynghorau yn amrywio o adolygiadau rheolaidd, tracwyr archwilio a chynlluniau gweithredu i adroddiadau ac argymhellion nad ydynt ond yn cael eu gweld pan fyddwn yn cyflwyno ein crynodeb archwilio blynyddol. Felly, nid ydym yn hyderus bod pob cyngor yn gyson yn ystyried canfyddiadau ein hadroddiadau yn ymarferol.

O gofio mai swyddogaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor, byddem yn disgwyl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob cyngor ystyried pob adroddiad ar gyrff adolygu allanol yn ffurfiol – yn bennaf; Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, byddem yn disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Dylai'r pwyslais yn hyn o beth fod ar ddwyn swyddogion gweithredol a swyddogion i gyfrif er mwyn sicrhau y gweithredwyd ar adroddiadau ac argymhellion. Gall rhai o'n hadroddiadau fod yn berthnasol i'w hystyried gan bwyllgorau craffu hefyd.

Er mwyn helpu cynghorau i wneud hyn, bydd gennym ddull sydd wedi ei dargedu'n well ar gyfer dosbarthu adroddiadau terfynol wrth gyhoeddi, nodi ein disgwyliadau o ran sut y dylai cynghorau ymdrin â'n hargymhellion a darganfod pa un a yw'r disgwyliadau hyn wedi'u bodloni. Hefyd, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), mae’n rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru lunio amserlen sy'n nodi'r dyddiadau neu'r cyfnodau pan fydd Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn ymgymryd â'u gwaith. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r amserlen hon i gynghorau ac i gadeiryddion y Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio bob chwarter. Nid ydym yn bwriadu cyflwyno hyn yn ffurfiol i Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio bob chwarter ond byddwn yn cydgysylltu â chynghorau i drafod ein dull gweithredu lleol.

Bydd staff Archwilio Cymru yn parhau i weithio'n hyblyg i gyflawni ein rhaglen waith. Mewn ymateb i unrhyw gyngor gan y llywodraeth a chyfyngiadau dilynol, byddwn yn parhau i weithio o bell, gan adeiladu ar y trefniadau a wnaed yn 2020, tan y bydd yn ddiogel i ailddechrau cyflawni gweithgareddau ar y safle. Rwyf yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau na fydd gwaith staff Archwilio Cymru yn amharu ar y gweithgareddau hanfodol y mae angen i gyrff cyhoeddus eu gwneud i ymateb i’r heriau parhaus a gyflwynir gan y pandemig COVID-19.

Gobeithio y bydd y llythyr hwn o gymorth i chi. Cysylltwch â'n tîm lleol os oes gennych unrhyw anghenion neu bryderon penodol.

Yn gywir



Derwyn Owen

Cyfarwyddwr Archwilio

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 21 Medi 2021 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Yn unol â 'Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgor' y Cyngor, mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n amlinellu'r dyletswyddau deddfwriaethol sydd i'w cyflawni gan bwyllgor archwilio'r Cyngor, yn benodol, goruchwylio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod. | |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 1 Medi 2021 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 20 Gorffennaf 2021, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.




# DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

## MEDI 2021

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA, Pennaeth Archwilio a Risg**

MarionPryor@YnysMon.gov.uk

01248 752611

# TABL CYNNWYS

GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF ______ 3
Gosodiadau Tai ______ 3
Y Broses ar gyfer y Rhai sy'n Gadael - Adroddiad Dilyn i Fyny Cyntaf ______ 4
GWAITH AR Y GWEILL ______ 5
Ymchwiliadau ______ 5
Menter Twyll Genedlaethol ______ 5
CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL ______ 6
BLAENORIAETHAU AR GYFER 2021-22 ______ 7
Capasiti Cyfredol ______ 7
Blaenoriaethau Tymor Byd/Canolig ______ 7
Blaenoriaethau mwy Hirdymor ______ 7
ATODIAD 1 - CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL (DANGOSFWRDD 4ACTION) AR 1 MEDI 2021 ______ 8

# GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF

1. Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o adroddiadau archwilio mewnol a gwblhawyd ers y cyfarfod diwethaf, yn cynnwys y raddfa sicrwydd gyffredinol a nifer y materion / risgiau a godwyd.

2. Mae aelodau'r pwyllgor a'r deilydd portffolio perthnasol wedi derbyn copïau llawn o'r adroddiad ar wahân.

3. Rydym wedi cwblhau **dau** adroddiad yn y cyfnod dan sylw, a gwelir crynodeb ohonynt isod:

| Teitl | Cyf. Cofrestr Risgiau Corfforaethol | Dyddiad yr Adroddiad Terfynol | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gosodiadau Tai** | Amherthnasol | Medi 2021 | **Sicrwydd Rhesymol** | 0 | 3 | 3 | 6 |
| **Y Broses ar gyfer y Rhai sy'n Gadael - Adroddiad Dilyn i Fyny Cyntaf** | Amherthnasol | Medi 2021 | **Sicrwydd Rhesymol** | 0 | 0 | 3 | 3 |

## Gosodiadau Tai

| Sicrwydd Rhesymol | Materion / Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 3 | Sylweddol |
| | 3 | Cymedrol |

4. Yn dilyn y perfformiad gwael a adroddwyd wrth y Pwyllgor Gwaith o ran yr amser a gymerir i ailosod eiddo gwag, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith i'r adran Archwilio Mewnol adolygu'r mesurydd perfformiad hwn.

5. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

   **A oes trefniadau addas ar waith gan y Cyngor i sicrhau bod prosesau ar gyfer rheoli eiddo gwag a'u hailosod i denantiaid newydd yn economaidd ac yn effeithlon er mwyn gwneud y mwyaf o incwm rhent, eu bod yn effeithiol i sicrhau bod eiddo'n cael ei osod i'r tenant cywir a'u bod yn bodloni'r safonau ansawdd angenrheidiol?**

6. Yn gyffredinol, daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod trefniadau digonol ar waith gan y Cyngor ar y cyfan ar gyfer rheoli ac ailosod eiddo gwag. Fodd bynnag, fe nodom rai meysydd o fewn y broses gosod tai ac eiddo gwag a fyddai'n elwa o gael eu hadolygu a'u gwella.

7. Yn benodol, mewn perthynas â pha mor addas yw'r mesurydd perfformiad, daethom i'r casgliad bod y Cyngor, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi adolygu ei drefniadau ar gyfer dyrannu ei stoc dai; mae mentrau megis cyflwyno polisi gosod tai sensitif yn ogystal â gofynion cysylltiadau cymunedol neu gysylltiadau â phlwyf wedi eu bwriadu i gefnogi uchelgais gyffredinol i wella cydlyniant cymunedol, gwella cynaliadwyedd tenantiaethau a thrwy hynny leihau cyfanswm cyffredinol yr eiddo gwag. Er gwaetha'r newid hwn o ran polisi ac ymagwedd fodd bynnag, mae mesurau perfformiad yn y maes hwn yn parhau i ganolbwyntio'n unig ar gyflymder y broses o ailosod eiddo gwag, yn hytrach na rhoi ystyriaeth hefyd i'r ffactorau ychwanegol. Daethom i'r casgliad bod diffyg aliniad rhwng y polisi gosod tai cyfredol a dangosyddion perfformiad wedi cyfrannu'n rhannol at y perfformiad gwael yr adroddir arno yn y maes hwn.

8. Fe wnaethom hefyd amlygu nad oes mesurydd perfformiad i amlygu'r targed uchelgeisiol a osodwyd gan y Cyngor ar gyfer prynu, adnewyddu a gosod hen dai cyngor, gyda'r bwriad o gynyddu ei stoc dai ac opsiynau ar gyfer darparu tai cymdeithasol ar Ynys Môn.

9. Rydym wedi codi chwe mater / risg y mae angen i reolwyr roi sylw iddynt. Er eu bod yn risg i allu'r gwasanaeth i gyflawni ei dargedau perfformiad yn y maes hwn, rydym yn fodlon y gellir eu rheoli ar lefel y gwasanaeth ac nad ydynt yn creu risgiau sylweddol o ran cyflawni amcanion cyffredinol y Cyngor. O'r herwydd, gallwn ddarparu gradd **sicrwydd rhesymol**. Rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda rheolwyr, ac rydym wedi cynnwys y manylion mewn dogfen ar wahân

## Y Broses ar gyfer y Rhai sy'n Gadael – Adroddiad Dilyn i Fyny Cyntaf

| Adroddiad Gwreiddiol (Medi 2020) | | | Adroddiad Cyfredol (Medi 2021) | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sicrwydd Cyfyngedig | Materion/Risgiau | | Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
| | 0 | Critigol | | 0 | Critigol |
| | 1 | Sylweddol | | 0 | Sylweddol |
| | 3 | Cymedrol | | 3 | Cymedrol |

10. Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu adroddiadau â graddfa sicrwydd 'Gyfyngedig' neu is, ac eraill yr ydym yn dymuno'i monitro wrth symud ymlaen.

11. Fe gynhaliom adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer delio â'r rhai sy'n gadael a chyhoeddi adroddiad terfynol ym Medi 2020. Fe wnaethom godi pedwar mater/risg yr oedd angen i reolwyr roi sylw iddynt, ac roedd un yn cael ei ystyried yn risg 'sylweddol' oherwydd ei effaith bosibl ar y Cyngor. Oherwydd nifer y gwallau cyflogres ac anghysondebau yn y broses a nodwyd yn ystod ein hadolygiad, dim ond **'Sicrwydd Cyfyngedig'** yr oeddem ni'n gallu'i roi i drefniadau'r Cyngor.

12. Fe gynhaliom adolygiad dilyn i fyny ym mis Mai 2021 i weld pa gynnydd a oedd wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd.

13. Daethom i'r casgliad bod rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r risg a ystyriwyd yn risg 'mawr' a bod cynnydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r risgiau sydd yn weddill. Felly, gallwn gynyddu'r lefel sicrwydd i lefel sicrwydd **'Rhesymol'**.

# GWAITH AR Y GWEILL

14. Mae'r archwiliadau canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:

| Maes Archwilio | Cyf. Cofrestr Risgiau Corfforaethol | Gwasanaeth | Rheswm dros yr Archwiliad | Cam |
|---|---|---|---|---|
| **Adennill Dyledion s'n ddyledus i'r Cyngor ac effaith Covid-19** | Amherthnasol | Adnoddau | Cais gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog 151 | Adroddiad drafft wedi'i gyhoeddi |
| **Buddsoddi mewn Asedau** | YM49 | Adnoddai | Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol | Gwaith Maes |
| **Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr** | YM29<br>YM30 | Tai | Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol | Gwaith Maes |
| **Grant Rhentu Doeth Cymru** | Amherthnasol | Gwarchod y Cyhoedd | Dilysu Grant | Gwaith Maes |
| **Rheoli Trwydded Meddalwedd** | YM38 | Trawsffurfiad | Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol | Gwaith Maes |

## Ymchwiliadau

15. Mae'r tîm hefyd ynghlwm â thri ymchwiliad cymhleth ar hyn o bryd.

## Menter Twyll Genedlaethol

16. Cyhoeddwyd y gyfran gyntaf o ganlyniadau paru'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2020/21 ym mis Ionawr 2021. Mae'r canlyniadau paru'n amlygu twyll neu wallau posib â systemau'r Cyngor. Er mwyn amddiffyn y pwrs cyhoeddus rhag twyll a gwallau rydym yn y broses o adolygu'r canlyniadau paru hyn i atal cynnydd posib mewn gordaliadau.

17. Mae nifer o'r ymchwiliadau'n cymryd amser maith, ac mae'n bosib na fydd problem ag ambell un o'r canlyniadau paru gan fod rheswm dilys dros y canlyniad. Rydym wedi nodi rhai materion ansawdd data, ac rydym yn gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet i wella ansawdd y canlyniadau paru yn y dyfodol i sicrhau defnydd effeithiol o'n hadnoddau ymchwilio gwerthfawr.

18. Ar hyn o bryd, rydym yn ymchwilio i'r canlyniadau paru canlynol:

- O'r Gyflogres i'r Gyflogres
- O'r Gyflogres i Dŷ'r Cwmnïau
- O'r Gyflogres i Gredydwyr
- Pobl sydd wedi marw a Bathodynnau Glas
- Rhestrau Aros Tenantiaid Tai

# CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL

19. Mae'r gwaith i gynorthwyo gwasanaethau i roi'r camau sydd yn weddill ar waith yn parhau. Mae'r dangosfwrdd '4action' yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o statws y camau gweithredu ar 1 Medi 2021.

20. Nodir nad oes unrhyw gamau gweithredu hwyr ar hyn o bryd.

21. Cyflwynir adroddiad manwl ar wahân i'r cyfarfod hwn.

# BLAENORIAETHAU AR GYFER 2021-22

## Capasiti Cyfredol

22. Er bod staff yn dychwelyd ar ôl cael eu hadleoli a bod rhywfaint o leihad yn y cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig, nid yw'r tîm wedi dychwelyd i'w gapasiti llawn.

23. Fe gymeradwyodd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth y cynnig recriwtio diweddar i lenwi'r swydd wag Uwch Archwilydd ac mae'r swydd wrthi'n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd, y dyddiad cau ydi 20 Medi 2021. Cynhelir y cyfweliadau'r wythnos ganlynol gyda'r nod y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau yn y swydd cyn gynted â phosibl wedi hynny.

24. Trwy lenwi'r swydd bydd gan y tîm gapasiti llawn fwy neu lai, gyda dim ond hanner swydd gyfwerth â llawn amser yn dal i fod yn wag, oherwydd trefniant gweithio hyblyg. Fodd bynnag, mae secondiad aelod arall o'r tîm i'r adran Gyfrifo wedi'i ymestyn yn ddiweddar tan 31 Mawrth 2022, felly mewn gwirionedd byddwn â llai o gapasiti tan diwedd y flwyddyn o leiaf.

25. Fodd bynnag, mae arbedion o'r swyddi hyn yn cael eu defnyddio i ariannu'r rhaglen Archwilio TG a rhai contractau ar gyfer darnau penodol o waith.

## Blaenoriaethau Tymor Byd/Canolig

26. Mae risgiau ychwanegol gyda graddfa weddilliol sy'n goch neu ambr wedi cael eu hychwanegu i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, ac mae'r raddfa risgiau gweddilliol wedi cynyddu i goch neu ambr yn achos rhai o'r risgiau. Hefyd, mae dwy flynedd wedi mynd heibio ers i rai o'r risgiau corfforaethol â graddfa weddilliol goch neu ambr gael eu hasesu.

27. Ein blaenoriaeth gyntaf yw adolygu'r risgiau gweddilliol coch ac ambr newydd (chwe risg), ac yn dilyn hynny'r risgiau nad ydym wedi'u hadolygu ers dwy flynedd (chwe risg).

28. Byddwn yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo a monitro'r materion/risgiau sydd angen mynd i'r afael â hwy o hyd.


## Blaenoriaethau mwy Hirdymor


29. Fe wnaeth yr adolygiad o'r risg rheoli twyll amlygu nifer o gamu gweithredu, a byddwn yn mynd i'r afael â hwy cyn diwedd y flwyddyn:


- datblygu strategaeth gwrth-dwyll a gwrth-lygredd i gefnogi 'Polisi Atal Twyll a Llygredd' y Cyngor.
- asesu lefel a chapasiti'r adnoddau a fuddsoddir mewn mentrau gwrth-dwyll a gwrth-lygredd, gymesur â lefel y risg a ganfyddir.
- datblygu rhaglen i wella'r diwylliant gwrth-dwyll yn y Cyngor, yn cynnwys pecyn eDdysgu a gweithgor gwrth-dwyll.

# ATODIAD 1 – CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL (DANGOSFWRDD 4ACTION) AR 1 MEDI 2021









### Overdue Issues/Risks by Service

| Service | Count |
|---|---|

### All outstanding Issues/Risks by Service

| Service | Count |
|---|---|
| Dysgu / Learning | 9 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol / Social Services | 4 |
| Adnoddau / Resources | 32 |
| Busnes y Cyngor / Council Business | 1 |
| Uwch Dim Arweinyddu / Senior Leadership Team | 1 |
| Trawsnewid / Transformation | 9 |

### Outstanding Red Issues/Risks

| ID | Summary |
|---|---|

0 of 0

### Outstanding Limited Assurance Reports

| Audit Title | Count |
|---|---|
| Payments - Supplier Maintenance 202107 | 9 |
| Identification of Duplicate Invoices and Recovery of Duplicate Payments 202118 | 6 |
| ICT Service Continuity (Phishing) 202123 | 4 |

### Outstanding Amber Issues/Risks

| ID | Summary |
|---|---|
| 4148 | Business Continuity 3 - Our testing identified a lack of quality assurance activity over corporate and service business continuity plans and key... |
| 4157 | IT Resilience 2 - There is a lack of continuity and co-ordination between the Council's corporate business continuity plans and the IT disaster... |
| 4161 | IT Resilience 3 - There has not been any formal training for IT staff with regards their responsibilities in the event of an IT incident requiring... |
| 4165 | IT Resilience 5 - The Council has included a list of 18 priority business applications and servers for recovery in the event of an IT related... |
| | Financial Resilience 1 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | | |
|---|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | |
| **Dyddiad:** | 21 Medi 2021 | |
| **Pwnc:** | 'Materion/Risgiau' sy'n parhau i fod angen sylw | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Adnoddau / Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk | |
| **Awduron yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk | Nanette Williams<br>Prif Archwiliwr<br>01248 751809<br>NanetteWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n gosod cyfrifoldeb arno i fonitro gweithrediad y camau y cytunwyd arnynt. Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar statws a manylion y risgiau sy'n parhau i fod angen sylw a godwyd gan Archwilio Mewnol. | | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Ym mis Mawrth 2020, fe roddodd y Cyngor fersiwn newydd ac uwchraddedig o'i system tracio 4action ar waith. Mae hyn wedi ein galluogi i fonitro ac adrodd yn fwy effeithiol ar faterion/risgiau a nodir yn ystod gwaith archwilio.

1.2. Rydym wedi datblygu dangosfwrdd, sydd yn rhoi ciplun mewn amser real o'n perfformiad cyfredol wrth fynd i'r afael â'r camau gweithredu sydd yn parhau i fod angen sylw ac mae'n hwyluso'r gwaith o dracio ac adrodd ar yr wybodaeth hon yn effeithiol. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhannu'r dangosfwrdd hwn yn rheolaidd â'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel rhan o'i diweddariadau archwilio mewnol.

1.3. Cyn uwchraddio'r system 4action roedd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn adroddiad o'r holl 'Faterion/Risgiau' a oedd yn weddill ddwywaith y flwyddyn. Fe gyflwynom yr adroddiad manwl cyntaf i'r Pwyllgor, a oedd yn amlinellu ein perfformiad cyffredinol wrth fynd i'r afael â'r camau gweithredu archwilio, ers rhoi'r system 4action newydd ar waith ar 20 Ebrill 2021. Ar yr adeg honno, cafwyd cais gan y Pwyllgor i dderbyn adroddiad o'r natur hwn ddwywaith y flwyddyn. O'r herwydd, dyma'r ail adroddiad diweddaru canol blwyddyn.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn:

- nodi cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r 'Materion/Risgiau' Archwilio Mewnol sy'n parhau i fod angen sylw.
- penderfynu a ydi lefel y manylder sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad yn cwrdd â'i anghenion sicrwydd yn y maes hwn.



# RISGIAU/MATERION SY'N PARHAU I FOD ANGEN SYLW

## MEDI 2021

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA, Pennaeth Archwilio a Risg

Nanette Williams BA (Anrh) CMIIA, Prif Archwilydd

# CYNNWYS

CYFLWYNIAD 1
PERFFORMIAD PRESENNOL 2
Gweithredoedd Hwyr 2
ATODIAD 1: STATWS MANWL Y MATERION/RISGIAU 'SYLWEDDOL' SY'N PARHAU I FOD ANGEN SYLW 5

# CYFLWYNIAD

1. Rydym bellach ynghanol yr ail flwyddyn lawn o ddefnyddio'r fersiwn newydd ac uwchraddedig o'r system 4action, y system ar gyfer tracio camau gweithredu'r Cyngor. Rydym yn falch o adrodd bod y system newydd wedi llwyddo i wella ein gwaith dilyn i fyny mewnol a'n prosesau tracio camau gweithredu.

2. Rydym wedi datblygu a mireinio ein dangosfwrdd, sydd yn rhoi ciplun mewn amser real o'n perfformiad presennol wrth fynd i'r afael â rhai o'r camau gweithredu sy'n parhau i fod angen sylw a hwyluso tracio ac adrodd ar yr wybodaeth hon yn effeithiol. Rydym yn parhau i fonitro camau gweithredu 'hwyr' ac felly'n gallu cael diweddariadau prydlon gan reolwyr o ran y cynnydd a wneir wrth fynd i'r afael â hwy.


3. Rydym hefyd wedi datblygu dangosfwrdd gwasanaeth pwrpasol i gynorthwyo'r Penaethiaid Gwasanaeth a'u timau rheoli i fonitro a darparu diweddariadau ar eu camau gweithredu. Rydym wrthi'n peilota hyn gyda'r gwasanaeth Adnoddau ac os yn llwyddiannus byddwn yn ei gyflwyno ledled y Cyngor yn ystod 2021-22. Yn anffodus, mae'r argyfwng COVID-19 wedi cyfyngu ar ein gallu i gyflwyno'r system 4action newydd i'n gwasanaethau a darparu hyfforddiant ayb er mwyn i reolwyr allu defnyddio cyfleusterau'r system yn llawn. Wrth i'r pandemig gilio byddwn yn parhau â'r gwaith.

# PERFFORMIAD PRESENNOL


4. Mae'r chwe graff canlynol yn dangos sefyllfa'r camau gweithredu sy'n parhau i fod angen sylw ledled y Cyngor ar 31 Awst 2021. Mae diweddariad statws ar yr holl faterion//risgiau 'sylweddol' sy'n weddill hefyd ar gael yn Atodiad 1. Yn anochel, dros y flwyddyn ddiwethaf mae effaith yr argyfwng COVID-19 ar rai gwasanaethau wedi effeithio ar eu gallu i fynd i'r afael â'r camau gweithredu a oedd yn parhau i fod angen sylw ganddynt.

5. Dylid nodi na chodwyd un rhyw faterion/risgiau 'Coch' yn ystod y flwyddyn ac nad oes unrhyw faterion/risgiau 'Coch' sy'n parhau i fod angen sylw.

1




2





6. Ar 31 Awst 2021, mae 56 o gamau gweithredu sy'n parhau i fod angen sylw'n cael eu tracio yn y system 4action. O'r rhain mae 19 yn 'sylweddol' (ambr) a 37 yn 'gymedrol' (melyn) o ran blaenoriaeth risg, fel y dangosir yng ngraff 1.

7. Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i fonitro'r holl gamau gweithredu a'u dilyn i fynd â rheolwyr i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau erbyn y dyddiad gofynnol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd unrhyw gamau gweithredu 'hwyr' oherwydd eu bod wedi cyrraedd y dyddiad targed ar gyfer eu cwblhau, fel y gwelir yn y ciplun o'r dangosfwrdd 4action, yn llun rhif 2.

3




4





8. Mae'r graffiau uchod yn dangos statws presennol yr holl gamau gweithredu h.y. pa un ai a ydynt 'ar waith'; 'heb gychwyn' neu 'wedi'i gyflawni' os ydi'r cam gweithred wedi'i gwblhau. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn dilysu pob cam gweithredu sydd 'wedi'i gyflawni' i sicrhau ein bod yn fodlon bod y risg a nodwyd yn wreiddiol wedi'i dileu o ganlyniad i'r camau a gymerwyd gan y rheolwyr.

9. Mae graff 3 yn dangos statws yr holl gamau gweithredu waeth beth fo'r dyddiad terfyn a gytunwyd gan y rheolwyr. Mae'r dangos bod y rheolwyr wedi mynd i'r afael â 49% ohonynt. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol wedi cadarnhau 47% o'r rhain. Mae'r 2% sydd yn weddill yn ymwneud â chamau gweithredu yn deillio o archwilio Taliadau Cyflenwyr Cynnal a Chadw, a byddwn yn dilyn y rhain yn ffurfiol ym mis Ionawr 2022. Byddwn yn dilysu'r camau gweithredu hyn wrth gyflawni'r gwaith hwn.

10. Mae tua 20% o'r camau gweithredu 'heb gychwyn' yn ôl y system 4action, ac maent yn ymwneud â dau archwiliad a gwblhawyd tuag at ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21, sef 'Taliadau - Cyflenwyr Cynnal a Chadw' a'r 'Panel Rhiantu Corfforaethol'. Nid yw'r materion/risgiau a nodwyd o ganlyniad i'r archwiliadau hyn wedi cyrraedd y dyddiad cwblhau a gytunwyd gan y rheolwyr. Pan fydd y dyddiadau cwblhau yn nesáu, byddwn yn gofyn am ddiweddariadau gan y rheolwyr i weld pa gynnydd a wnaed.

11. Ar y llaw arall, mae graff 4 yn dangos statws yr holl gamau gweithredu sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed. Mae'n dangos bod 100% wedi'u cwblhau erbyn y dyddiad targed. O'r rhain mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi dilysu pob un yn rhithiol, fodd bynnag fel y nodir uchod, mae'r camau gweithredu ynghlwm ag archwilio Taliadau Cyflenwyr Cynnal a Chadw yn dal heb eu dilysu a byddwn yn dilyn hyn yn ffurfiol yn y flwyddyn newydd. Rhaid nodi fodd bynnag, ein bod ni wedi gorfod ymestyn y dyddiadau targed yn achos rhai camau gweithredu, ond dim ond os oedd gan y gwasanaeth reswm dilys dros yr estyniad e.e. ei bod hi'n amlwg nad oedd y dyddiad targed gwreiddiol yn gyraeddadwy, gan fod angen llawer iawn mwy o waith i fynd i'r afael â'r mater/risg. Oherwydd yr argyfwng COVID-19, rydym wedi ymestyn sawl dyddiad targed ar gyfer gwasanaethau sy'n amlwg wedi gorfod canolbwyntio ar ymateb i'r pandemig fel mater o flaenoriaeth dros y 18 mis diwethaf.

5




12. Fel y nodir uchod, mae 56 o gamau gweithredu heb eu cyflawni'n llawn o hyd.

13. Maent yn ymestyn rhwng 2016/17 a 2020/21. Er bod y graff yn dangos bod y mwyafrif yn ymwneud â'r ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae un 'hen' gam gweithredu, sy'n mynd yn ôl i 2016/17 sydd heb ei gyflawni'n llawn gan y rheolwyr. Mae'n ymwneud â chael sicrwydd gan wasanaethau, fel rhan o'r broses flynyddol i herio gwasanaethau, bod eu gweithgareddau caffael yn effeithiol. Mae'n ymwneud â blaenoriaeth risg 'cymedrol' neu 'felyn'. Mae'r gwaith bron â'i gwblhau ac mae'r rheolwyr yn ffyddiog y bydd y mater wedi'i ddatrys erbyn y broses herio gwasanaethau ym mis Tachwedd 2021.

14. Dylid nodi nad oedd unrhyw faterion/risgiau 'sylweddol' neu 'ambr' yn dyddio'n ôl ymhellach na 2019/20, fel y gwelir yng ngraff 6 isod. Mae hyn yn dangos bod rheolwyr yn blaenoriaethu'r gwaith o fynd i'r afael â risgiau â blaenoriaeth uwch.

6

**Materion / Risgiau' sy'n weddill, sydd wedi'u graddio fel 'Pwysig', yn ôl blwyddyn**

| | |
|---|---|
| 2019/20 | 7 |
| 2020/21 | 12 |

15. Mae diweddariad statws o'r holl faterion/risgiau 'sylweddol' neu 'ambr' sy'n parhau i fod angen sylw ac sy'n cael eu tracio yn y system 4action ar gael yn Atodiad 1.

16. Byddwn yn ymdrechu i ddilyn yr holl gamau gweithredu sy'n parhau i fod angen sylw i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu cwblhau.

# ATODIAD 1: STATWS MANWL Y MATERION/RISGIAU 'SYLWEDDOL' SY'N PARHAU I FOD ANGEN SYLW

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Graddfa Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Parhad Busnes** | 2019/20 | Ionawr 2020 | 30/11/21 | **Rhesymol** | Nodwyd nad oedd ansawdd cynlluniau corfforaethol a pharhad busnes gwasanaethau a dogfennau allweddol yn cael ei sicrhau. | 50% o'r weithred wedi'i chwblhau.<br>Llawer o'r gwaith ynghlwm â mynd i'r afael â''r mater/risg yn ddibynnol ar y gwaith a amlinellir isod mewn perthynas ag alinio Cynlluniau Parhad Busnes gwasanaethau a threfniadau adfer TG mewn argyfwng. Y gwaith ychwanegol gan y gwasanaeth cynllunio rhag argyfwng rhanbarthol i adolygu a safoni'r canllawiau a'r cardiau gweithredu yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, yn anochel, mae'r gwaith hwn wedi'i effeithio gan y pandemig COVID-19. |
| **Cadernid TG** | 2019/20 | Chwefror 2020 | 30/09/21 | **Rhesymol** | Diffyg parhad a chydlyniant rhwng cynlluniau parhad busnes corfforaethol y Cyngor a'r cynllun adfer TG mewn argyfwng. | 80% o'r weithred wedi'i chwblhau.<br>Gwasanaethau'n parhau â'r gwaith i alinio'r cynlluniau Parhad Busnes Corfforaethol â'r cynllun Adfer TG Mewn Argyfwng. |
| **Cadernid TG** | 2019/20 | Chwefror 2020 | 30/09/21 | **Rhesymol** | Yn ei gynllun Adfer TG Mewn Argyfwng mae'r Cyngor wedi cynnwys rhestr o'r 18 o osodiadau busnes a gweinyddion y dylid eu blaenoriaeth yn achos digwyddiadau yn ymwneud â cholli TG. Fodd bynnag, cwblhawyd y broses o ddethol y systemau hyn yn gyflym mewn ymateb i ddigwyddiad TG diweddar, yn hytrach na'n ffurfiol mewn ymgynghoriad â gwasanaethau. | 50% o'r weithred wedi'i chwblhau.<br>Er mwyn cwblhau'r weithred hon yn llwyddiannus rhaid cwblhau'r gwaith a amlinellir uchod mewn perthynas ag alinio Cynlluniau Parhad Busnes y gwasanaeth â'r trefniadau adfer TG mewn argyfwng i sicrhau cyd-ddealltwriaeth ynglŷn â'n gallu i adfer y systemau hyn a'u critigolrwydd. |

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Graddfa Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cadernid TG** | 2019/20 | Chwefror 2020 | 30/09/21 | **Rhesymol** | Nid yw staff TG wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol ynglŷn â'u cyfrifoldebau pe byddai'n rhaid gweithredu'r Cynllun Adfer Mewn Argyfwng yn dilyn digwyddiad TG. | 75% o'r weithred wedi'i chwblhau.<br>Fel rhan o newid ehangach mewn hyfforddiant ac mewn ymateb i'r argyfwng COVID-19, mae'r uned TG wedi tanysgrifio i blatfform technoleg e-ddysgu, ac mae disgwyl i'r tîm Rheoli TG gwblhau dau gwrs;<br>• Dylunio, Gweithredu a Chynnal Cynlluniau Adfer Mewn Argyfwng<br>• Cynlluniau Adfer Mewn Argyfwng: Cam wrth Gam<br><br>Mae'r gwaith o gwblhau'r hyfforddiant yn mynd rhagddo, ac mae disgwyl i'r staff perthnasol gwblhau'r ddau fodiwl yn ystod y 1-2 mis nesaf. |
| **Cadernid Ariannol** | 2019/20 | Ebrill 2020 | 30/09/21 | **Rhesymol** | Mae datganiad llywodraethu blynyddol y Cyngor (DLIB) yn cynnwys cynllun gweithredu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor. Fodd bynnag, yn hytrach nag amlinellu'n glir beth yw'r materion unigol, mae'n cyfeirio at feysydd llywodraethu eang. Er ei fod yn rhestru gweithgareddau adfer, mae'n anodd asesu eu heffeithiolrwydd gan nad yw'r broblem sylfaenol wedi'i nodi. | 90% o'r weithred wedi'i chwblhau.<br>Mae'r DLIB cyfredol wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r materion presennol a bydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo'n derfynol gan y pwyllgor archwilio a llywodraethu ym mis Hydref 2021. |
| **Cadernid Ariannol** | 2019/20 | Ebrill 2020 | 31/12/21 | **Rhesymol** | Mae'r cynnydd wrth gynnal yr ymarfer i fapio ffynonellau sicrwydd i gefnogi fframwaith lywodraethu'r Cyngor a sicrhau ei fod yn parhau i dderbyn sicrwydd digonol ledled ei wasanaethau wedi bod yn araf. Mae hyn yn bwysig iawn mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir drwy bartneriaeth, contractau a dulliau darparu gwasanaeth amgen. | 50% o'r weithred wedi'i chwblhau.<br>Mae'r adolygiad mapio sicrwydd ledled y sector llywodraeth leol yng Nghymru wedi'i gwblhau ac mewn ymateb i'w ganfyddiadau, mae cyfarfodydd rhwng swyddogion y Cyngor cyfan wrthi'n cael eu trefnu ar hyn o bryd. |

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Graddfa Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Cronfeydd Ysgolion** | 2019/20 | Medi 2020 | 30/09/21 | **Rhesymol** | Nid yw'r Gwasanaeth Dysgu'n derbyn sicrwydd bod cronfeydd ysgolion yn cael eu hadolygu'n annibynnol. Canfuom yn ystod ein hadolygiad mai dim ond llai na hanner yr ysgolion sy'n trefnu archwiliad annibynnol blynyddol ar gyfer eu cronfeydd. | 87% o'r weithred wedi'i chwblhau.<br>Mae'r Gwasanaeth Dysgu bellach wedi derbyn tystysgrifau archwilio ar gyfer pob ysgol, ac eithrio un, ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, ac mae'r ysgol dan sylw wrthi'n cael archwiliad ar hyn o bryd. Mae ganddynt hefyd drefniadau ar waith a chyfrifoldeb dros fonitro tystysgrifau archwilio cronfeydd ysgolorion.<br><br>Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol ynghanol ymarfer i sicrhau ansawdd yr holl drwyddedau archwilio cronfeydd ysgolion a dderbyniwyd i wneud yn siŵr eu bod o'r safon briodol. |
| **Taliadau - Cyflenwyr Cynnal a Chadw** | 2020/21 | Ionawr 2021 | 30/09/21 | **Cyfyngedig** | Mae gan y Tîm Taliadau nodiadau gweithredu - 'Nodiadau Gweithredu ar gyfer Talu Anfonebau (Credydwyr)'. Fodd bynnag, nid ydynt wedi'u diweddaru ers nifer o flynyddoedd ac nid ydynt yn cynnwys y broses ar gyfer gwirio a diwygio manylion banc cyflenwyr. Mae'r Rheolwr Cyllid wrthi'n eu diweddaru ar hyn o bryd. | Adolygiad dilyn i fyny ffurfiol wedi'i drefnu ar gyfer mis Ionawr 2022 |
| **Taliadau - Cyflenwyr Cynnal a Chadw** | 2020/21 | Ionawr 2021 | 30/09/21 | **Cyfyngedig** | Dim tystiolaeth bod yr adroddiadau 'Rhybuddio' *Civica* a gynhyrchir yn wythnosol, ac sy'n rhestru newidiadau i fanylion banc cyflenwyr, yn cael eu gwirio yn erbyn y dogfennau atodol. Wrth brofi'r broses o ddiwygio cyfrifon cyflenwyr amlygwyd bod diffyg cofnodion i gadarnhau beth oedd y newidiadau, ar gais pwy a pha un ai a gafodd gwiriadau eu cynnal i gefnogi'r newidiadau. | Adolygiad dilyn i fyny ffurfiol wedi'i drefnu ar gyfer mis Ionawr 2022 |

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Graddfa Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Taliadau - Cyflenwyr Cynnal a Chadw** | 2020/21 | Ionawr 2021 | 31/12/21 | Cyfyngedig | Ers i'r Cyngor ddiwygio'i weinyddwr ym mis Medi 2019, nid yw'r system daliadau'n derbyn anfonebau 'pdf' mwyach a rhaid eu hargraffu a'u sganio cyn eu huwchlwytho i'r system. Nid yw'r peiriannau sganio wedi'u ffurfweddu'n iawn yn dilyn yr uwchraddiad hwn ac mae'r mater wedi'i godi â'r adran TG ond nid yw wedi'i ddatrys o hyd. Oherwydd y pandemig Covid-19 mae'r angen i uwch lwytho anfonebau yn achosi problemau gan na ellir gwneud hynny o bell. | Adolygiad dilyn i fyny ffurfiol wedi'i drefnu ar gyfer mis Ionawr 2022 |
| **Taliadau - Cyflenwyr Cynnal a Chadw** | 2020/21 | Ionawr 2021 | 31/12/21 | Cyfyngedig | Mae'r nifer uchel o anfonebau a dderbynnir heb rif archeb prynu yn creu llwyth gwaith diangen i'r tîm Taliadau yn ogystal â mynd yn groes i'r Rheolau Trefniadaeth Ariannol, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol codi archeb prynu ar gyfer pob anfoneb ar wahân i anfonebau cylchol neu anfonebau cyfleustodau, cyn neu wrth archebu. Wrth brofi'r broses amlygwyd bod nifer o archebion prynu'n cael eu codi'n ôl-weithredol, h.y. wedi dyddiad yr archeb. | Adolygiad dilyn i fyny ffurfiol wedi'i drefnu ar gyfer mis Ionawr 2022 |
| **Taliadau - Cyflenwyr Cynnal a Chadw** | 2020/21 | Ionawr 2021 | 31/12/21 | Cyfyngedig | Nid yw staff mewn gwasanaethau'n codi archebion prynu'n gywir, h.y. maent yn cynnwys llinell ar wahân ar gyfer nwyddau neu wasanaethau unigol a archebir i'w galluogi i farcio a derbyn pob un yn unigol. Mae hyn yn golygu bod anfoneb a dderbynnir am archeb sydd wedi'i derbyn yn rhannol yn cael ei pharu a'i thalu'n awtomatig heb unrhyw ymyrraeth gan y gwasanaeth neu'r tîm Taliadau. | Adolygiad dilyn i fyny ffurfiol wedi'i drefnu ar gyfer mis Ionawr 2022 |

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Graddfa Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Panel Rhiantu Corfforaethol** | 2020/21 | Ionawr 2021 | 30/09/21 | **Rhesymol** | Er bod y Prif Weithredwr yn cadeirio'r Panel Rhiant Corfforaethol a bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydlynu'r cyfarfodydd ac yn bresennol, nid oes cynrychiolaeth reolaidd gan yr uwch arweinwyr na gwasanaethau allweddol eraill megis y gwasanaeth Dysgu a'r gwasanaeth Tai. Nid oes gan y panel ychwaith gynrychiolydd ffurfiol ar gyfer y plant sydd yng ngofal yr awdurdod. | 75% o'r weithred wedi'i chwblhau. Mae'r gwasanaeth Dysgu a'r gwasanaeth Tai bellach wedi'u cynrychioli ac maent wedi'u hymgorffori'n llawn yn swyddogaeth y panel rhiantu corfforaethol. Gweithio i sicrhau bod cynrychiolaeth effeithiol ar gyfer plant yng ngofal yr awdurdod gyda'r sefydliad partner *Voices from Care* Cymru. |
| **Panel Rhiantu Corfforaethol** | 2020/21 | Ionawr 2021 | 31/12/21 | **Rhesymol** | Er yn 2017 y cafodd ei nodi fel fframwaith angenrheidiol i alluogi a sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau rhiantu corfforaethol, nid yw'r Cyngor wedi cwblhau a chyhoeddi ei 'Strategaeth ar gyfer Plant Mewn Gofal a Phlant sy'n Gadael Gofal', ac nid yw'r Cyngor ychwaith wedi mynegi ei ymrwymiad neu 'addewid' i'r plant a phobl ifanc sydd dan ei ofal, a oedd hefyd wedi ei nodi fel blaenoriaeth yn 2017. | Dyddiad cwblhau'r weithred heb ddod i ben eto. |
| **Parhad Gwasanaeth TGCh (Gwerwydo)** | 2020/21 | Mai 2021 | 30/04/22 | **Cyfyngedig** | Canlyniad y prawf gwerwydo a gomisiynwyd gan TGCh wedi dangos bod gormod o ddefnyddwyr wedi ymateb i e-byst gwerwydo, er eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth seibr. | Adolygiad dilyn i fyny ffurfiol wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2022 |
| **Parhad Gwasanaeth TGCh (Gwerwydo)** | 2020/21 | Mai 2021 | 30/04/22 | **Cyfyngedig** | Nid oes proses ffurfiol ar gyfer uwchgyfeirio defnyddwyr sydd ddim yn cydymffurfio ag ymarferion diogelwch seibr, ble mae'n amlwg nad ydi hyfforddiant ac ymwybyddiaeth diogelwch gwybodaeth a seibr yn cael unrhyw effaith. | Adolygiad dilyn i fyny ffurfiol wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2022 |

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Presennol | Graddfa Sicrwydd* | Crynodeb o'r Mater/Risg | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adnabod Anfonebau Dyblygedig ac Adennill Taliadau Dyblygedig** | 2020/21 | Mai 2021 | 30/09/21 | Cyfyngedig | Mae'r ddogfen ganllaw yn rhoi trosolwg ac nid yw'n cyfeirio at yr angen i adnabod anfonebau dyblygedig cyn neu ar ôl gwneud taliadau. Byddai nodiadau gweithdrefn/desg o gymorth i gefnogi aelodau staff newydd ac fel adnodd cyfeirio defnyddiol i'r holl dîm i sicrhau proses a dulliau rheoli cyson. | Adolygiad dilyn i fyny ffurfiol wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2021 |
| **Adnabod Anfonebau Dyblygedig ac Adennill Taliadau Dyblygedig** | 2020/21 | Mai 2021 | 30/09/21 | Cyfyngedig | Nid oes polisi ffurfiol wedi'i gytuno ar gyfer adennill taliadau dyblygedig ac o ganlyniad, nid oes cysondeb yn y modd y caiff taliadau eu hadennill. Er enghraifft, nodiadau credyd neu ad-daliadau. Hefyd, mae'r nodiadau gweithdrefn ar gyfer y mater hwn yn gryno ac amhendant. | Adolygiad dilyn i fyny ffurfiol wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2021 |
| **Adnabod Anfonebau Dyblygedig ac Adennill Taliadau Dyblygedig** | 2020/21 | Mai 2021 | 30/09/21 | Cyfyngedig | Nid yw'r system reoli osodedig i adnabod anfonebau dyblygedig yn effeithiol. Ni all y system adnabod anfonebau dyblygedig os oes gwall wrth sganio neu fewnbynnu gwybodaeth; er enghraifft, os oedd cyflenwr ar y system ddwywaith, dewiswyd y cyflenwr anghywir neu roedd system neu ddefnyddiwr wedi cofnodi'r rhif archeb anghywir oherwydd gan nad oedd yn adnabod nodau, rhifau a llythrennau megis methu â gwahaniaethu rhwng S/5; 8/B; 0/O; 1/I/l; neu flychau lle na ddylai blychau fod; atalnodau, a nodau ychwanegol ayb. | Adolygiad dilyn i fyny ffurfiol wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2021 |

*Graddfa sicrwydd bresennol - un ai ar adeg yr archwiliad gwreiddiol neu yn dilyn adolygiad dilyn i fyny.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 21 Medi 2021 |
| **Pwnc:** | Blaenraglen Waith 2021-22 Wedi'i Diweddaru |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y diwygiadau i'r Flaenraglen Waith ar gyfer 2021-22 y Pwyllgor. | |

## Cyflwyniad

1. Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Blaenraglen Waith arfaethedig yn Atodiad A yn ei gyfarfod ar 25 Mai 2021, a rhai mân welliannau yn ei gyfarfod ar 20 Gorffennaf 2021.

2. Gwnaed diwygiadau pellach ers hynny i ystyried ceisiadau gan reolwyr oherwydd llwyth gwaith neu ffactorau eraill, a chynnwys y cyfarfod arbennig ychwanegol yn y calendr i ystyried y Datganiad Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol terfynol. Amlygir y gwelliannau mewn **print trwm**.

## Argymhelliad

3. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

   - yn nodi'r mân ddiwygiadau i'r Flaenraglen Waith gymeradwy ar gyfer 2021-22.

## Atodiad A – Blaenraglen Waith Wedi'i Diweddaru 2021-22



| Swyddogaeth Graidd | Dydd Mawrth 25/05/21 | Dydd Mercher 23/06/21 | Dydd Mawrth 20/07/21 | Dydd Mawrth 21/09/21 | Dydd Mercher 20/10/21 | Dydd Iau 09/12/21 | Dydd Mawrth 08/02/22 | Dydd Mawrth 19/04/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2020-21 (3.4.8.3.1)<br><br>Adolygiad o’r Blaen Raglen Waith 2021-22 (3.4.8.3.2) | | | | | Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor | | Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2) |
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft (3.4.8.4.1/2/3) | | | **Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol (3.4.8.4.1/2/3)** | Cod Llywodraethiant Lleol (3.4.8.4.1/3) | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Adfywio (3.4.8.4.4) | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | | Adroddiad Blynyddol 2020-21 (3.4.8.5.1/2/3/4) | | | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2022-23) (3.4.8.5.3/4) | |
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | | | | Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)<br><br>**Cofrestr Risg Corfforaethol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)** | | |

## Atodiad A – Blaenraglen Waith Wedi'i Diweddaru 2021-22



| Swyddogaeth Graidd | Dydd Mawrth 25/05/21 | Dydd Mercher 23/06/21 | Dydd Mawrth 20/07/21 | Dydd Mawrth 21/09/21 | Dydd Mercher 20/10/21 | Dydd Iau 09/12/21 | Dydd Mawrth 08/02/22 | Dydd Mawrth 19/04/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | | Adroddiad Twyll Blynyddol 2020-21 (3.4.8.9.4) | Adroddiad Sylwadau, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol (3.4.8.9.1) | | Strategaeth Twyll (3.4.8.9.2/3) | | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2020-21 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15) (3.4.8.6) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/ Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) | | Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.3/13)<br><br>Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6) | Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2022-23 (3.4.8.10.1/2/5/6)<br><br>Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) |
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | | | | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2) (3.4.8.12.3) | | Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021 (3.4.8.11.3) | | Cynllun Archwilio Blynyddol 2021-22 (3.4.8.11.1/3) |
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2020-21 (3.4.8.12.1/2) | | | **Datganiad Cyfrifon Terfynol 2020-21 (3.4.8.12.1/2)** | | | |

## Atodiad A – Blaenraglen Waith Wedi'i Diweddaru 2021-22

| Swyddogaeth Graidd | Dydd Mawrth 25/05/21 | Dydd Mercher 23/06/21 | Dydd Mawrth 20/07/21 | Dydd Mawrth 21/09/21 | Dydd Mercher 20/10/21 | Dydd Iau 09/12/21 | Dydd Mawrth 08/02/22 | Dydd Mawrth 19/04/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13) | | | Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol (3.4.8.13.1) | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth 2020-21 (3.4.8.13.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Derbyn Polisi 2020-21 (3.4.8.13.1) | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn ysgolion (3.4.8.13.1)<br><br>**Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2020-21 (3.4.8.13.1)**<br><br>**Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2020-21 (3.4.8.13.1)** | | |
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | | | Adroddiad Blynyddol Sylwadau, Cwynion a Chywthu Chwiban (3.4.8.14.1/2) | | | | |
| Perfformiad y Panel (3.4.8.15)[1] | | | | | | | | |

[1] Bydd yn cael ei gyflwyno y flwyddyn nesaf yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth newydd.